# Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Adolygiad o'r Trefniadau Rheoleiddio a Thrwyddedu

## Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau

Mai 2025

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol .......... 4**

Cyhoeddi gwybodaeth am risgiau a gwybodaeth reoleiddiol (sgorau risg) .......... 4

Addasiadau i'r Amodau a'r Cytundeb Trwyddedu .......... 4

Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (MiAU Rhyngwladol) .......... 5

Trefniadau pontio ac amserlen weithredu .......... 5

**Cyflwyniad .......... 7**

Yr hyn yr ymgynghorwyd arno .......... 7

**Dadansoddiad o ymatebion a phenderfyniadau .......... 9**

Elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod .......... 9

Diben y Diploma .......... 9

Yr amserlen ar gyfer gweithredu .......... 9

Datganiad strategol .......... 10

Biwrocratiaeth, baich ac ymddiriedaeth .......... 11

Sgorau risg .......... 12

Twf y Diploma .......... 13

Trwyddedu am gyfnod penodol .......... 14

Materion eraill .......... 14

Y trefniadau ar gyfer mynd i Gytundeb Trwyddedu a'i gynnal .......... 16

Anghytuno â'r angen am ail-drwyddedu .......... 16

Hyd cyfnod dilysrwydd y drwydded .......... 17

Baich .......... 17

Y drwydded ryngwladol .......... 18

Yr effaith ar y Diplomâu .......... 18

Rheoli'r farchnad .......... 19

Awgrymiadau a chwestiynau cyffredinol .......... 19

Materion eraill .......... 20

Yr Amodau Mynediad i AU ... 21
Sylwadau cyffredinol am yr Amodau ... 21
Y cylch gwaith ... 23
Terminoleg ... 23
Cymhwysedd i ddod yn Asiantaeth DMiAU ... 23
Yr effaith ar y darparwyr ... 24
Sylwadau am Amodau penodol ... 24
Y trefniadau monitro ... 50
Sylwadau cyffredinol ... 50
Baich ... 51
Y datganiad strategol ... 52
Trwyddedau cyfnod penodol ... 52
Sgorau risg ... 54
Cwestiynau ... 54
Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio ... 55
Sylwadau cyffredinol ... 55
Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol: y dull a'r opsiynau ... 56
Cefnogaeth i opsiwn 1 ... 56
Cefnogaeth i opsiwn 2 ... 57
Anghytundeb â'r ddau opsiwn ... 57
Sylwadau cyffredinol ... 59
Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol: sylwadau am y cynigion ... 61
Gofynion o ran y Saesneg ... 61
Un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad ... 62
Dysgu cyfunol ... 62
Sylwadau cyffredinol ... 63
Trefniadau pontio a gweithredu ... 65
Sylwadau cyffredinol ... 65

Trefniadau pontio a gweithredu: cyfnod peilot ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol .... 67

Sylwadau cyffredinol .... 67

Cynlluniau peilot yr Asiantaeth DMiAU unigol .... 68

Cydweithredu rhwng sefydliadau .... 68

Y berthynas rhwng trwyddedau ar gyfer y DU a thrwyddedau rhyngwladol .... 69

Yr amserlen .... 69

**Casgliad a'r camau nesaf .... 71**

**Atodiad A - Crynodeb o'r addasiadau i Amodau a Thelerau'r Drwydded .... 72**

## Crynodeb gweithredol

1 Ym mis Mai 2024, agorodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i'w threfniadau ar gyfer cydnabod Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('y Cynllun Cydnabod'). Roedd yr ymgynghoriad hwn yn agored am 12 wythnos, a chafodd yr ymatebwyr eu gwahodd i roi sylwadau ar gynigion mewn nifer o feysydd yn y Cynllun, fel a ganlyn:

- Elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod
- Y trefniadau ar gyfer mynd i Gytundeb Trwyddedu a'i gynnal
- Yr Amodau Mynediad i AU
- Y trefniadau monitro
- Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio
- Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (y Diploma MiAU Rhyngwladol)
- Trefniadau pontio a gweithredu

2 Ar sail ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae QAA wedi penderfynu gwneud nifer o addasiadau i'r cynigion, yn cynnwys egluro ac ychwanegu at y geiriad yn yr Amodau. Mae pob addasiad wedi ei amlinellu'n fanylach yn ein hymatebion isod. Er bod ymateb ac esboniadau manwl i'w cael yng nghorff y ddogfen, dyma drosolwg o'r newidiadau allweddol yr ydym wedi penderfynu eu gweithredu:

### Cyhoeddi gwybodaeth am risgiau a gwybodaeth reoleiddiol (sgorau risg)

3 Rydym wedi penderfynu gwneud newid i'r termau a ddefnyddiwn i ddiffinio risg ac wedi rhoi mwy o eglurhad ynghylch eu defnyddio. Yn lle 'sgorau risg', byddwn yn defnyddio'r term 'beirniadaethau rheoleiddio'. Mae hyn yn well adlewyrchiad o natur y wybodaeth y bwriadwn ei chyhoeddi am risg a chydymffurfiad a fydd yn ymwneud â phenderfyniadau a beirniadaethau sy'n arwain at ymyriad rheoleiddio.

### Addasiadau i'r Amodau a'r Cytundeb Trwyddedu

4 Mae'r addasiadau i'r Amodau a'r Cytundeb Trwyddedu wedi bod yn rhai mân gan fwyaf, ac egluro geiriau y mae'r rhan fwyaf ohonynt. Gwnaethpwyd rhai ychwanegiadau arwyddocaol:

4.1 Mae'r derminoleg sy'n ymwneud â'r Cytundeb Trwyddedu wedi cael ei mireinio er mwyn bod yn fwy eglur ac i gynrychioli diben y ddogfen yn well. Ar ôl ei gymeradwyo a'i ail gyhoeddi, teitl y Cytundeb Trwyddedu o dan y trefniadau newydd fydd 'Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU'. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli'r telerau y mae'r Asiantaeth DMiAU yn cytuno iddynt er mwyn derbyn y Drwydded hon a pharhau i weithredu oddi tani, gyda chymeradwyaeth QAA.

4.2 Yn Amod A7, ychwanegwyd cyfeiriad at y gofynion penodol ar gyfer cofrestru myfyrwyr yng Nghymru:

> "[Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr wedi eu] cofrestru gydag Asiantaeth DMiAU ar gyfer Diploma a gydnabyddir gan QAA cyn pen chwe wythnos (42 diwrnod) ar ôl i'r myfyriwr gychwyn ar y cwrs Mynediad i AU, *neu wyth wythnos (56 diwrnod) mewn perthynas â myfyrwyr sy'n astudio gyda darparwr sydd wedi ei seilio yng Nghymru neu sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru*".

4.3 Yn Amod C2, mae gofyniad wedi ei ychwanegu i alluogi cyfathrebu priodol rhwng Asiantaethau DMiAU am sancsiynau ar ddarparwyr:

*"Os bydd Asiantaeth DMiAU yn gorfodi sancsiwn yn unol â'r Amod uchod, mae'n rhaid iddi roi gwybod am hynny ar unwaith i unrhyw Asiantaeth DMiAU arall sy'n cynnig cyrsiau Mynediad i AU gyda'r darparwr hwnnw."*

4.4 Mae gofyniad tebyg wedi ei ychwanegu yn Amod D4 mewn perthynas â throsglwyddo rhwng darparwyr, sy'n gofyn i Asiantaeth DMiAU roi gwybod i'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyrwyr pan fydd sancsiwn wedi ei roi ar ddarparwr:

*"Ar adeg trosglwyddo cwrs, os bydd Asiantaeth DMiAU wedi gorfodi sancsiwn ar ddarparwr yn unol ag Amod C2, mae'n rhaid iddi roi gwybod am y sancsiwn hwnnw i'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y cwrs."*

4.5 Yn Amod E1, cynhwyswyd gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau safoni ar gais QAA:

*"Dylai'r Asiantaeth DMiAU wneud pob ymdrech resymol i gymryd rhan, a sicrhau bod ei darparwyr yn cael cyfle i gymryd rhan lle bo'n berthnasol, mewn gweithgareddau y mae QAA yn gofyn iddynt eu gwneud sy'n weithgareddau sydd â'r nod o hyrwyddo safonau'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd ddilys, ddibynadwy a chyson."*

5 Gellir gweld manylion addasiadau bach i Atodiad 1 ac yn y drafodaeth isod.

## Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (MiAU Rhyngwladol)

6 Ar ôl ystyried yr ymatebion, byddwn yn mireinio ein cynigion ac yn parhau i gyflwyno'r rhain fel y cynlluniwyd mewn ymgynghoriad pellach yn fuan yn 2025. Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi disgrifio dau fodel posibl ar gyfer y trefniadau mewn perthynas â'r Diploma MiAU Rhyngwladol ac rydym wedi nodi ffafriaeth am opsiwn 1 oedd yn gofyn dyfarnu trwyddedau i Asiantaethau DMiAU unigol ar gyfer gwlad benodol wedi iddynt ddangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y wlad honno. Yn ôl Opsiwn 2, dyfernir trwydded sy'n caniatáu gweithredu mewn mwy nag un wlad ar ôl dangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y gwledydd hynny.

7 Un newid allweddol i'r trefniadau a gynigiwn fydd gwneud y cyfnod peilot o ddwy flynedd ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol arfaethedig yn unol ag opsiwn 1 sydd wedi ei nodi uchod ac yna, ar ôl cwblhau hyn yn llwyddiannus, bydd Asiantaethau DMiAU yn trosglwyddo cam wrth gam i fodel opsiwn 2.

## Trefniadau pontio ac amserlen weithredu

8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn mynegi pryder am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Amodau newydd a'r broses ail-drwyddedu gysylltiedig.

9 I gydnabod y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig addasu amserlen y trefniadau pontio o'r Cynllun Cydnabod cyfredol i weithrediad y Cynllun Cydnabod newydd. Rydym yn bwriadu cynnig y bydd blwyddyn academaidd 2025-26 yn flwyddyn bontio lawn pan fyddwn yn gweithredu cynllun ail-drwyddedu treigl. Felly, byddwn yn gweithredu'r Cynllun Cydnabod cyfredol ochr yn ochr â'r cynllun newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26 wrth i Asiantaethau DMiAU drosglwyddo o un i'r llall.

10 I gefnogi'r amserlen ddiwygiedig hon, byddwn yn rhannu'r holl ganllawiau perthnasol ag Asiantaethau DMiAU erbyn haf 2025. Cyn rhannu fersiwn terfynol y canllawiau rydym yn bwriadu rhoi cyfle i'r Asiantaethau DMiAU ymwneud â fersiynau drafft i nodi unrhyw gwestiynau posibl sydd ganddynt, ond ni fydd hyn yn gyfle i newid unrhyw rai o'n dulliau y cytunwyd arnynt ar y pwynt hwnnw.

11 Rydym yn bwriadu rhoi ffenestr amser i Asiantaethau DMiAU a bydd angen iddyn nhw gyflwyno eu cais am ail-drwyddedu o fewn yr amser hwnnw. Byddwn yn cadarnhau hyn gyda nhw yn fuan yn 2025. Rydym yn disgwyl i hyn ddechrau o fis Hydref 2025, gyda thri chyfnod ail-drwyddedu gyda thair Asiantaeth DMiAU ymhob cyfnod. Erbyn 1 Awst 2026, caiff pob Asiantaeth DMiAU ei hail-drwyddedu o dan y Cynllun Cydnabod newydd. Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi nodi ein penderfyniad i beidio derbyn unrhyw geisiadau newydd gan gyrff sydd eisiau dod yn Asiantaethau DMiAU tan rywbryd ym mlwyddyn academaidd 2024-25. Yn unol â'r amserlen ddiwygiedig yr ydym wedi ei nodi uchod, rydym yn bwriadu derbyn ceisiadau newydd, os cyflwynir unrhyw rai, o 1 Awst 2025 ymlaen, sef dechrau'r flwyddyn bontio.

# Cyflwyniad

## Yr hyn yr ymgynghorwyd arno

12 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU'), ac mae wedi bod yn cyflawni'r rôl hon ers ei sefydlu yn 1997 pan drosglwyddwyd swyddogaethau'r Cyngor Ansawdd Addysg Uwch iddi. Rydym yn ystyried hon yn swyddogaeth bwysig yr ydym yn ei chyflawni ar ran y sector addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae nodau elusennol QAA yn cynnwys rhoi cyngor i'r llywodraethau, os gofynnir amdano, ynglŷn â chydnabyddiaeth i gyrsiau Mynediad i AU. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai dim ond y cyrsiau hynny sy'n atebol i'n trefniadau rheoleiddio fydd yn cael eu cydnabod gan y llywodraethau at ddibenion sicrhau cyllid (lle bo'n berthnasol). Hefyd, rydym yn diogelu'r cymhwyster drwy gofrestru a chadw nifer o nodau masnach.

13 Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Mynediad i AU) yn gymhwyster lefel 3 sydd, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr sy'n oedolion nad ydynt efallai, am ba reswm bynnag, wedi ennill y cymwysterau lefel 3 sy'n angenrheidiol i fynd i mewn i addysg uwch o dan y gofynion mynediad presennol ar gyfer y maes academaidd y maent eisiau astudio ynddo. Lluniwyd y Diploma hwn i roi sgiliau a gwybodaeth i'r dysgwyr mewn meysydd astudio penodol, gan alluogi iddyn nhw wedyn ddilyn cymwysterau addysg uwch ar lefel 4 neu'n uwch.

14 Mae nifer o wahanol swyddogaethau i'n gweithgareddau rheoleiddio. Rydym yn trwyddedu'r cyrff dyfarnu, sef yr Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU'), i'w caniatáu i ddatblygu, dilysu a dyfarnu'r cymwysterau, gan weithio gyda darparwyr sy'n darparu cyrsiau sy'n arwain at y cymhwyster. Rydym yn rhoi gofynion rheoleiddiol ar yr Asiantaethau DMiAU drwy ein Meini Prawf Trwyddedu a thrwy'r trefniadau monitro cysylltiedig a weithredir gennym. Hefyd, rydym yn gosod gofynion penodol ym Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio cysylltiedig. Ar gyfer rhai meysydd astudio, rydym hefyd yn gosod rhai o'r gofynion cynnwys ar gyfer unedau'r Diploma - mewn dogfennau y galwn yn Ddisgrifwyr Pwnc. Rydym yn cyfeirio at yr holl elfennau hyn ar y cyd fel 'y Cynllun Cydnabod'.

15 Mae nifer o ddibenion i'n dull rheoleiddio. Yn bennaf, rydym yn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU er budd y dysgwyr sy'n astudio i ennill y cymhwyster er mwyn sicrhau bod pob cwrs a ddarperir sy'n arwain at gymhwyster Mynediad i AU yn cynnal y safonau cyffredinol a osodir gennym, bod ansawdd yn cael ei sicrhau, a bod cynnwys y cwrs a'r dull o'i ddarparu'n addas i'r diben. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sicrhau bod y dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn cael siawns resymol o sicrhau lle ar gwrs addysg uwch. Mae gan y Diploma Mynediad i AU y potensial i weddnewid bywydau unigolion, yn ogystal â chynorthwyo twf economaidd a chynnydd cymdeithasol ehangach. Mae'r nodau hyn yn alinio â strategaeth QAA, yn benodol ein ffocws ar sicrhau safonau academaidd a gwerth y cymwysterau.

16 Yn debyg i bob corff arall sy'n rheoleiddio cymwysterau, rydym hefyd yn sicrhau y cynhelir diogelwch a chadernid y trefniadau ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Hefyd, oherwydd natur unigryw'r cymhwyster, a'r rôl sydd gan QAA fel corff sefydledig yn y sector addysg drydyddol yn y DU, rydym mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau'n berthnasol ac i gefnogi ei dwf.

17 Roedd ein hymgynghoriad yn ceisio sylwadau am gynigion i wneud newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cydnabod. Dyma oedd y cynigion hyn yn benodol:

- **Y Trefniadau Trwyddedu:** cynigiasom symud i weithredu ar sail trwydded cyfnod penodol, wedi hynny mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto i gadw ei thrwydded.

- **Yr Amodau Mynediad i AU:** mae ein cynigion yn esbonio ein bwriad i roi cyfres o Amodau Mynediad i AU sydd wedi eu seilio yn bennaf ar egwyddorion a chanlyniadau ('yr Amodau') yn lle'r 118 Maen Prawf Trwyddedu ar sail rheolau.

- **Y trefniadau monitro:** cynigiasom ailstrwythuro ein gweithgareddau monitro i ddwy lefel benodol - trefniadau monitro lefel gyffredinol a threfniadau monitro ac ymgysylltu lefel uwch, ochr yn ochr â gweithredu hysbysiadau ffurfiol, amodau penodol a sancsiynau ffurfiol fel ymyriadau rheoleiddio yn rhan o'r Cynllun Cydnabod.

- **Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (y Diploma MiAU Rhyngwladol):** rydym wedi disgrifio cynigion cychwynnol am y Diploma MiAU Rhyngwladol, gan gynnwys ei ddiben, y dulliau trwyddedu a'r gofynion rheoleiddiol, yn cynnwys gofynion o ran sgiliau Saesneg, dulliau darparu a gweithredu. Roedd y cynigion hyn yn rhai cychwynnol a byddant yn cael eu datblygu ymhellach cyn yr ymgynghorir arnynt eto.

18 Rhoddwyd manylion y cynigion hyn mewn dogfen ymgynghori a fersiynau drafft o'r Cytundeb Trwyddedu diwygiedig a'r Amodau Mynediad i Addysg Uwch arfaethedig.

19 Roedd yr ymgynghoriad yn agored am 12 wythnos a thynnwyd sylw ato ar nifer o blatfformau. Hefyd, cynhaliwyd tair gweminar gennym lle rhoesom ein cynigion a chyfle i'r rhanddeiliaid ofyn unrhyw gwestiynau. Derbyniwyd 23 o ymatebion i'n hymgynghoriad gan Asiantaethau DMiAU, darparwyr Diplomâu Mynediad i AU, darparwyr addysg uwch, darparwyr addysg bellach, cyrff/sefydliadau yn y sector, a gan unigolion.

# Dadansoddiad o ymatebion a phenderfyniadau

## Elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod a'r agweddau eraill sydd wedi derbyn sylw yn yr adran hon am ddull QAA?**

### Diben y Diploma

20 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i ddefnyddio diffiniad cyson o nod y Diploma. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr wneud ychwanegiadau neu addasiadau i'r diffiniad a gynigiwn, fel a ganlyn:

- ehangu'r diffiniad y tu hwnt i ddysgwyr sy'n oedolion
- cyfeirio at y Diploma fel cymhwyster addysg ôl-16 er mwyn sicrhau cysondeb â chymwysterau lefel 3 eraill
- cyfeirio'n eglur at y cyfle i gwblhau cyrsiau ar sail ran amser, ac
- ail lunio'r geiriad, er mwyn canolbwyntio ar dynnu sylw at rôl y Diploma o ran rhoi gwybodaeth a sgiliau hanfodol i'r dysgwyr.

**Ein hymateb**

21 Cytunwn y byddai cyfeirio at y Diploma fel cymhwyster addysg ôl-16 yn sicrhau cysondeb â chymwysterau lefel 3 eraill. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod hi'n briodol sicrhau bod diffiniad a diben y Diploma'n cynnwys cyfeiriad eglur bob amser at ddysgwyr sy'n oedolion. Y rheswm am hynny yw bod y cyllid cyhoeddus sydd ar gael i fyfyrwyr Mynediad i AU ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion. Er y gall dysgwyr o unrhyw oedran astudio ar gyfer Diploma Mynediad i AU, y polisi ar hyn o bryd yw rhoi cyllid i ddysgwyr o dan 19 oed fel eithriad yn unig. Yn y mwyafrif o achosion felly, mae'r cymhwyster yn debygol o fod yn fwy addas i bobl sydd dros 19 oed ar ddiwrnod cyntaf eu cwrs.

22 Rydym yn cytuno hefyd y byddai'n ddefnyddiol ail-fframio'r geiriad er mwyn canolbwyntio ar dynnu sylw'n gadarnhaol at nod y Diploma, yn ogystal â sicrhau bod y geiriad yn dweud yn glir y gellir cwblhau'r Diploma'n llawn amser ac yn rhan amser.

23 Felly, aethom ati i ddiwygio'r diffiniad, fel a ganlyn:

- "Mae'r Diploma Mynediad i AU yn gymhwyster ar lefel 3 o addysg ôl-16 (sy'n gyfatebol â Lefelau A a Lefelau T), ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cymwysterau i ddysgwyr sy'n oedolion ac sydd eisiau mynd i mewn i addysg uwch ond nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol yn y maes academaidd y maent eisiau astudio ynddo. Mae modd cwblhau cyrsiau Mynediad i AU llawn amser o fewn blwyddyn. Ar ôl cwblhau Diploma Mynediad i AU, gall y myfyrwyr symud ymlaen i astudio ar lefel uwch mewn darparwr addysg uwch - a gallai'r astudiaeth hon fod ar gyfer gradd neu gymhwyster lefel uwch arall ar lefel 4 neu'n uwch."

### Yr amserlen ar gyfer gweithredu

24 Defnyddiodd nifer o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn fel cyfle i godi pryderon am yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Cynllun Cydnabod sydd wedi ei ddiweddaru, gan ofyn am ohirio gweithredu'r Amodau a'r gofynion ar gyfer ail-drwyddedu hyd fis Ebrill neu fis Medi 2026.

25 Mae rhai Asiantaethau DMiAU wedi awgrymu y byddai oedi gweithrediad y Cynllun yn rhoi gwell cyfle iddyn nhw ymgysylltu'n gadarnhaol â'u Bwrdd, y Pwyllgor, y darparwyr Mynediad i AU a'r sefydliadau addysg uwch sy'n derbyn y myfyrwyr. Nododd rhai pobl hefyd y byddai amserlen estynedig yn caniatáu mwy o amser i Asiantaethau DMiAU ddarllen a deall canllawiau cysylltiedig unwaith y byddent wedi eu cyhoeddi, yn ogystal â chaniatáu ffenestr hirach ar gyfer ail-drwyddedu.

**Ein hymateb**

26 Rydym yn cydnabod ac yn deall y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr am yr amserlen weithredu. Er nad ydym yn cytuno â'r awgrymiadau i ohirio gweithredu hyd fis Ebrill neu fis Medi 2026, rydym yn cytuno bod angen addasu'r amserlen weithredu.

27 Rydym wedi diwygio'r amserlen weithredu er mwyn helpu i wneud blwyddyn academaidd 2025-26 yn flwyddyn bontio lawn pan fyddwn yn gweithredu rhaglen ail-drwyddedu mewn camau. Felly, byddwn yn gweithredu'r Cynllun Cydnabod cyfredol ochr yn ochr â'r cynllun newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26 wrth i Asiantaethau DMiAU drosglwyddo o un i'r llall.

28 I gefnogi'r amserlen ddiwygiedig hon, byddwn yn cyflwyno'r holl ganllawiau perthnasol i'r Asiantaethau DMiAU erbyn dechrau haf 2025. Cyn rhannu fersiwn terfynol y canllawiau rydym yn bwriadu rhoi cyfle i'r Asiantaethau DMiAU ymwneud â fersiynau drafft i nodi unrhyw gwestiynau posibl sydd ganddynt, ond ni fydd hyn yn gyfle i newid unrhyw rai o'n dulliau y cytunwyd arnynt ar y pwynt hwnnw.

29 Rydym yn bwriadu rhoi ffenestr amser i Asiantaethau DMiAU a bydd angen iddyn nhw gyflwyno eu cais am ail-drwyddedu o fewn yr amser hwnnw. Byddwn yn cadarnhau hyn gyda nhw yn fuan yn 2025. Rydym yn disgwyl y bydd y broses ail-drwyddedu'n cychwyn ym mis Hydref 2025, gyda thri chyfnod ail-drwyddedu ar gyfer tair Asiantaeth DMiAU ymhob cyfnod. Erbyn 1 Awst 2026, bydd pob Asiantaeth DMiAU wedi ei hail-drwyddedu o dan y Cynllun Cydnabod newydd.

30 Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi nodi ein penderfyniad i beidio derbyn unrhyw geisiadau newydd gan gyrff sydd eisiau dod yn Asiantaethau DMiAU tan rywbryd ym mlwyddyn academaidd 2024-25. Yn unol â'r amserlen ddiwygiedig yr ydym wedi ei nodi uchod, rydym yn bwriadu derbyn ceisiadau newydd, os cyflwynir unrhyw rai, o 1 Awst 2025 ymlaen, sef dechrau'r flwyddyn bontio.

## Datganiad strategol

31 Defnyddiodd nifer o'r Asiantaethau DMiAU eu hymatebion i'r cwestiwn hwn i ofyn am ragor o wybodaeth am y cynnig i gyflwyno gofyniad ar bob Asiantaeth DMiAU i fod â datganiad strategol. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn yn awyddus i ddeall diben y datganiad, yn ogystal â'r gofynion o ran ei gynnwys a'i fformat. Yn ogystal, cododd rhai o'r Asiantaethau DMiAU bryderon am y posibilrwydd y gallai'r datganiad gynnwys gwybodaeth a allai fod yn fasnachol sensitif, a dywedodd llond llaw o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r gofyniad bod yn rhaid i'r datganiad dderbyn cymeradwyaeth QAA.

32 Fel opsiwn arall, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr bod QAA yn llunio datganiad strategol y gall Asiantaethau DMiAU wedyn ei ddefnyddio fel sail i'w datganiadau eu hunain, neu fod yr Asiantaethau DMiAU yn llunio datganiad strategol ar y cyd â QAA.

33 Nododd rhai ymatebwyr eraill, os bydd y cynigion am y datganiad strategol yn mynd ymlaen fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, y bydd angen amser ar Asiantaethau DMiAU i ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol ac ymwneud â'u strwythurau llywodraethu mewnol eu hunain i sicrhau bod y datganiad yn berthnasol ac yn ystyrlon.

**Ein hymateb**

34 Bwriad cyflwyno'r gofyniad am ddatganiad strategol yw cofnodi sut y bydd Asiantaeth DMiAU yn cyfrannu at y tirlun Mynediad i AU cyffredinol, drwy ddisgrifio ei diben, ei hamcanion a'i hadnoddau mewn perthynas â'i darpariaeth Diploma. Er ein bod wedi ymgynghori ar hyn o bryd ar egwyddor y datganiad strategol, ystyrir bod manylion ei gynnwys a'i fformat yn weithredol a byddant wedi eu nodi mewn canllawiau.

35 Rydym wedi deall bod yr ymatebwyr yn pryderu am gwmpas y datganiad. Gall QAA gadarnhau na fydd gofyn i Asiantaethau DMiAU ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif mewn datganiad strategol. Y rheswm yr ydym wedi cynnig gofyniad am ddatganiad sydd wedi ei gymeradwyo gan QAA yw ein bod yn barnu bod dylanwad sylweddol gan Asiantaethau DMiAU dros y ffordd y mae pobl yn meddwl am y Diploma Mynediad i AU. Am mai QAA yw'r corff sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y cymhwyster, rydym o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod aliniad cyffredinol yn y tirlun datblygiad strategol a bod sefydliadau sy'n dyfarnu'r cymhwyster yn gyfrifol am gyfrannu at ei gyfeiriad strategol. Yn debyg i nifer o'n gofynion, mae'r gofyniad i wneud yr ystyriaeth strategol o Fynediad i AU yn fwy gweledol mewn Asiantaethau DMiAU yn cefnogi QAA i gyflawni ei nodau elusennol fel ceidwad y Diploma Mynediad i AU i roi cyngor i'r llywodraethau. Trwy gyflawni hynny, bydd y gofyniad am ddatganiad strategol yn cefnogi QAA i sicrhau dyfodol y Diploma ar lefel polisi ac yn ein galluogi i yrru ei dwf gyda mwy o ddealltwriaeth o'i gyd-destun strategol o fewn y sefydliadau sy'n ei ddyfarnu.

36 Awgrymodd ymatebwyr opsiynau eraill yn lle'r gofyniad hwn, a oedd yn cynnwys datganiad wedi ei lunio gan QAA y gallai Asiantaethau DMiAU ei fabwysiadu, neu lunio datganiad ar y cyd efallai. Rydym yn gwrthod yr awgrymiadau hyn am ein bod yn barnu y byddai hyn yn mynd yn groes i'n hamcanion sy'n sail i'r cynigion hyn i roi mwy o gyfleoedd i Asiantaethau DMiAU weithredu mewn ffordd hyblyg ac mewn ffordd sydd o fudd i'w cyd-destunau unigol eu hunain fel busnesau. Er y bydd ein canllawiau'n nodi'r themâu y byddem yn disgwyl i Asiantaeth DMiAU eu hystyried yn ei datganiad strategol, mae'n bosib y byddai unrhyw ofyniad y byddem yn eu llunio a fyddai'n awgrymu bod amcanion strategol yr Asiantaethau DMiAU'n cael eu cyfuno neu eu symleiddio mewn perthynas â Mynediad i AU, yn cael effeithiau negyddol ar y sefydliadau unigol a thwf marchnad y Diploma. Yn yr un modd, rydym yn gwrthod yr awgrym am ddefnyddio datganiad ar y cyd am fod rolau a dibenion QAA a'r Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â Mynediad i AU yn ddigon gwahanol i olygu y byddai hynny'n anaddas.

37 Ar ôl yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad am ddatganiad strategol yn y Cynllun Cydnabod. Bydd yr ymateb i sylwadau a dderbynnir am eiriad yr Amod arfaethedig, sy'n nodi'r gofyniad am y datganiad, yn derbyn sylw yn yr adran berthnasol isod.

## Biwrocratiaeth, baich ac ymddiriedaeth

38 Cydnabu nifer o'r ymatebwyr y camau cadarnhaol a gymerwyd gan QAA dros y blynyddoedd diwethaf i feithrin perthynas ar sail ymddiriedaeth gydag Asiantaethau DMiAU. Fodd bynnag, awgrymwyd bod y cynigion sydd wedi eu hesbonio yn yr ymgynghoriad wedi gweithio'n wrthgyferbyniol i hynny a hefyd i amcan penodedig yr ymgynghoriad i leihau'r baich rheoleiddiol.

39 Yn benodol, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr bod y cynnig i gyflwyno trwyddedau cyfnod penodol a'r angen dilynol am ail-drwyddedu'n dangos diffyg ymddiriedaeth mewn Asiantaethau DMiAU a'u gallu i ddiogelu'r Diploma. Yn ogystal, nodwyd mewn nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fod yr Amodau arfaethedig yn feichus ac yn gostwng ymreolaeth yr Asiantaethau DMiAU. Ni roddwyd enghreifftiau penodol o hyn mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ond maen nhw wedi cael eu cynnwys mewn ymateb i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad felly byddant yn derbyn sylw yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

40 Cydnabu nifer o'r ymatebwyr yn gadarnhaol fod strwythur a ffocws yr Amodau arfaethedig wedi eu halinio'n well â chyrff rheoleiddio cymwysterau eraill, ac eto roedd hyn wedi ei gydbwyso ag awgrymiadau gan bobl eraill nad yw QAA wedi mynd yn 'ddigon pell' yn ei chynigion, ac maen nhw'n galw ar QAA i sicrhau bod y dull rheoleiddio'n adlewyrchu dull cyrff rheoleiddio cymwysterau eraill. Yn ogystal, er bod pobl yn cefnogi'r gwahaniaethu clir rhwng y Cytundeb Trwyddedu a'r Amodau, roedd pobl yn awgrymu hefyd y byddai'r 'elfennau deuol' hyn yn gwneud y baich rheoleiddiol yn drymach nag ydyw gan gyrff rheoleiddio eraill.

**Ein hymateb**

41 Mae QAA yn dal i fod wedi ei hymrwymo i ddefnyddio dull sydd, yn fwy na dim arall, yn hybu ymddiriedaeth rhwng QAA a'i rhanddeiliaid, a hyder pobl yn y Diploma. Rydym yn nodi bod Asiantaethau DMiAU yn cydnabod y datblygiadau cadarnhaol tuag at wneud hynny ac yn cytuno y dylai hyn barhau.

42 Yn y lle cyntaf, rydym yn ystyried bod proses ail-drwyddedu lawn yn angenrheidiol er mwyn trosglwyddo pob Asiantaeth DMiAU i drefniadau'r Cynllun Cydnabod newydd. Mae hyn yn ofyniad ymarferol, am na fydd meini prawf asesu'r drwydded gyfredol yn ddilys bellach ac ni fydd Asiantaethau DMiAU wedi cael eu hasesu eto yn erbyn yr amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded newydd. Rydym o'r farn y bydd trwyddedau cyfnod penodol yn dod ag amrywiaeth o fanteision dros amser, yn enwedig i fyfyrwyr, ac y bydd asesu Asiantaethau DMiAU yn rheolaidd yn cyfrannu at ddiogelu sefydlogrwydd y cymhwyster drwy gryfhau hyder y defnyddiwr. Un o'r egwyddorion sydd wedi tywys ein gwaith o lunio'r fframwaith newydd hwn yw diogelu buddiannau'r myfyrwyr, ac rydym yn ystyried bod trwyddedau cyfnod penodol yn bwysig o ran cefnogi'r egwyddor hon. Mae diogelu myfyrwyr o arwyddocâd arbennig ar gyfer myfyrwyr Mynediad i AU - oherwydd, fel dysgwyr sy'n oedolion sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Lefel 3, nid ydynt yn elwa o'r un ystod o gyfleoedd i gael cymorth neu ddiogelwch ag yw myfyrwyr o dan 19 oed, neu fyfyrwyr addysg uwch. Am mai hi yw'r corff sy'n rheoleiddio'r Diploma, mae'n ddyletswydd ar QAA felly i sicrhau y cynhelir safonau dros amser i raddau sy'n ennyn lefel uchel o hyder.

43 Yn ogystal, rydym yn rhagweld y bydd ail-drwyddedu'n ein galluogi ni i ail ystyried cydbwysedd y gweithgareddau rheoleiddio a'r ceisiadau am gyflwyno gwybodaeth ar draws y cyfnod trwyddedu. Gallai hyn gael yr effaith o gryfhau ein gweithgareddau rheoleiddio mewn ffordd sy'n rheolaidd a rhagweladwy, a lleihau'r angen am wybodaeth ychwanegol yn y cyfamser.

44 Rydym yn nodi'r gymhariaeth a wnaed gan yr ymatebwyr ynglŷn â hyn gyda chymwysterau eraill a chyrff rheoleiddio eraill yn y sector addysg lle nas defnyddir dull trwyddedu. Mae gan QAA gyd-destun gwahanol i gyrff rheoleiddio eraill, am ein bod yn rheoleiddio un cymhwyster at un diben ac yn gyfrifol am y nod masnach Mynediad i AU. Rydym yn dadlau felly ei bod hi'n anochel y bydd ein ffocws yn fwy penodol ac uniongyrchol a bod y dull trwyddedu hwn yn parhau i fod yn briodol i'n cyd-destun. Rydym yn ystyried y newidiadau yr ydym wedi eu cynnig i'n dull rheoleiddio cyffredinol ac, wrth fireinio'r Amodau, byddwn yn sicrhau bod QAA yn gallu bod yn gymesur ac wedi ei thargedu yn ei gwaith o reoleiddio'r Diploma ac y bydd hyn, o ganlyniad, yn lleihau'r baich.

## Sgorau risg

45 Roedd nifer o ymatebwyr yn anghytuno â'n cynigion i gyhoeddi sgorau risg, gan awgrymu y gallai hynny niweidio hyder y cyhoedd yn y cymhwyster neu olygu na fyddai Asiantaethau DMiAU eisiau gweithio gyda'r darparwyr hynny sydd â dysgwyr risg uchel.

46 Dywedodd ymatebwyr eraill eu bod yn cefnogi'r cynigion ond roedden nhw eisiau gwybod a fyddai'r rhesymau dros y sgôr yn cael eu cyhoeddi ac a yw QAA yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i Asiantaethau DMiAU ar sut i ddefnyddio'r sgorau risg.

47 Yn ogystal, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gallai QAA ddilyn y dulliau a ddefnyddir gan gyrff rheoleiddio eraill, gan gyhoeddi camau y bydd Asiantaeth DMiAU a QAA yn eu cymryd i ddatrys pryder neu ddigwyddiad rheoleiddiol.

**Ein hymateb**

48 Ein safbwynt ar hyn o bryd, yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, a hyd nes bydd y trefniadau newydd wedi eu pennu'n derfynol, yw ein bod yn tynnu sgorau risg oddi ar broffiliau'r Asiantaethau DMiAU sydd ar wefan QAA. Drwy wneud hynny, rydym wedi cydnabod cymhlethdod risg yn y cyd-destun rheoleiddiol ac effaith cyhoeddi gwybodaeth o'r fath heb arweiniad clir a gofalus.

49 Byddwn yn parhau gyda chynlluniau i gyhoeddi gwybodaeth am risgiau yn unol â'r dull sydd wedi ei nodi yn yr ymgynghoriad i nodi risgiau dim ond pan fydd Asiantaeth DMiAU o dan archwiliad, neu y mae sancsiwn rheoleiddiol wedi ei osod yn dilyn beirniadaeth. Ni fydd gwybodaeth am risg yn wybodaeth gyhoeddus nes, ac oni bai, y sefydlir yn bendant bod rheswm clir ac amlwg dros wneud hynny. Rhoddir gwybod yn glir hefyd beth yw natur ac ystyr y beirniadaethau. Mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn dangos goruchwyliaeth glir a chadarn ar y Diploma, ac, am y rheswm hwn, rydym yn anghytuno â'r awgrym y gallai niweidio hyder y cyhoedd. Yn hytrach, rydym yn barnu y bydd y dull hwn yn debygol o gefnogi hyder y cyhoedd yn y Diploma am ei fod yn hyrwyddo tryloywder ac am ei fod yn cyfateb â chyrff rheoleiddio eraill.

50 Fodd bynnag, mewn ymateb i'r adborth a gawsom, ac er mwyn bod yn gwbl glir am ddiben a chwmpas y wybodaeth hon, ni fyddwn bellach yn galw'r wybodaeth hon yn 'sgorau risg'. Yn hytrach, rydym yn bwriadu defnyddio'r enw 'beirniadaethau rheoleiddio' ar y wybodaeth hon. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth am feirniadaethau ffurfiol a wnaed mewn sefyllfaoedd lle gwelir yn sicr bod rheswm dros bryderu am allu'r Asiantaeth DMiAU i fodloni Amodau ei Thrwydded ac y gweithredwyd yr ymyriad trwy ddefnyddio dull lliniaru, er enghraifft, gosod amod penodol. Bydd canllawiau am feirniadaethau rheoleiddio a rheoli risgiau ar gael ochr yn ochr ag unrhyw feirniadaeth a gyhoeddwyd am Asiantaeth DMiAU yn erbyn amod penodol.

## Twf y Diploma

51 Nododd nifer o'r ymatebwyr bod yr ymgynghoriad fel petai'n canolbwyntio ar dwf y Diploma dan arweiniad yr Asiantaeth DMiAU, gan ofyn am wybodaeth benodol neu ymrwymiad gan QAA i roi gwybod beth y bydd yn ei wneud i dyfu'r Diploma a chodi ei broffil. Rydym yn nodi pryder hefyd a fynegwyd am y posibilrwydd y nifer yr Asiantaethau DMiAU yn newid yn y dyfodol.

**Ein hymateb**

52 Ar hyn o bryd, mae QAA yn canolbwyntio ar gael gwared ar y baich a pharatoi amgylchedd rheoleiddiol a fydd yn caniatáu arloesi a hyblygrwydd yn y ffordd y gellir cynnig y Diploma yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector ar fentrau megis datblygiad y Disgrifwyr Pwnc, oherwydd credwn fod hyn yn sicrhau mwy o gysondeb ac yn cryfhau statws y cymhwyster ymhellach ar draws y tirlun Lefel 3.

53 Yn ogystal, mae QAA wedi buddsoddi yn y ffordd y mae'n cyflwyno'r Diploma i'r cyhoedd, a'r manteision sy'n deillio ohono, gan gynnwys y meysydd lle'r ydym yn cydweithio ag Asiantaethau DMiAU i archwilio marchnadoedd rhyngwladol, a'n gwaith paratoi parhaus i wella ansawdd ac eglurder y wybodaeth gyhoeddus am Fynediad i AU sydd ar gael ar ein gwefannau.

54 Credwn fod y pethau hyn i gyd yn bwysig i greu'r amgylchedd gorau i alluogi twf y Diploma Mynediad i AU. Er mai rôl QAA yw gwneud hyn yn y cyd-destun rheoleiddiol a pholisi, mae'n llai priodol i ni fel y corff rheoleiddio gymryd rhan mewn gweithgareddau megis marchnata uniongyrchol a recriwtio myfyrwyr. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gydweithio ag Asiantaethau DMiAU mewn ffordd strategol drwy weithgareddau megis monitro ac adrodd ar ddata am gofrestriad myfyrwyr, a thrwy gynnal grwpiau megis Gweithgor Hyrwyddo Mynediad i AU sy'n hwyluso cydweithio traws-sefydliadol i hyrwyddo Mynediad i AU.

55 Un nod wrth wneud y gwaith hwn i gefnogi twf y Diploma yw bod y cymhwyster yn dod yn fwy atyniadol i fyfyrwyr, darparwyr a sefydliadau dyfarnu mewn marchnad gystadleuol ar gyfer cymwysterau, a bod hyn yn addasu i newidiadau yn y farchnad honno. Trwy ddod â'n dull a'n gofynion yn fwy cyfatebol â chyrff rheoleiddio eraill yn y sector, ac o ganlyniad weithgareddau codi proffil eraill, mae'n bosibl y bydd gan sefydliadau eraill ddiddordeb mewn dod yn Asiantaethau DMiAU. Unwaith y bydd y fframwaith newydd wedi ei gymeradwyo ac yn weithredol o ddechrau blwyddyn academaidd 2025-26, bydd QAA yn derbyn ceisiadau am drwyddedau newydd gan sefydliadau sy'n gallu bodloni ein gofynion.

## Trwyddedu am gyfnod penodol

56 Defnyddiodd nifer o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn i fynegi eu hanghytundeb â'r cynnig i gyflwyno trwydded cyfnod penodol. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn pryderu y gallai'r broses ail-drwyddedu ostwng buddsoddiad ac arloesi, gan awgrymu y gallai'r rhain ddod i ben yn sydyn iawn ar ddiwedd cyfnod trwyddedu oherwydd ansicrwydd a fyddai'r cais am ail-drwyddedu'n llwyddiannus.

57 Hefyd, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gallai ail-drwyddedu effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng Asiantaethau DMiAU a darparwyr oherwydd mae'n bosibl y byddai darparwyr yn fwy tueddol o fynd ar ôl perthynas newydd gydag Asiantaeth DMiAU sydd â mwy o amser ar ôl ar ei thrwydded.

**Ein hymateb**

58 Rydym yn anghytuno â'r ymresymu hwn y gallai trwyddedu am gyfnod penodol ostwng buddsoddiad ac arloesi. Y rheswm am hynny yw nad ydym yn cytuno bod ail-drwyddedu'n achosi unrhyw risg y bydd arloesi a buddsoddi'n dod i ben yn sydyn ac y bydd ychwanegu ystod o gamau rheoleiddio a gynigir yn yr ymgynghoriad (gwelwch yr adran 'Ymyriadau Rheoleiddio') yn lleihau'r risgiau sy'n bodoli o dan y trefniadau cyfredol lle mae trwyddedu a chydymffurfio'n fater deuaidd. Felly, credwn y dylai Asiantaeth DMiAU sy'n gallu dangos ei bod yn cydymffurfio â'r Amodau deimlo'n hyderus mai bach iawn yw'r risg a'r ansicrwydd parhaus y tynnir ei thrwydded oddi arni, yn enwedig o'i gymharu â'r trefniadau cyfredol. Yn ogystal, nodwn fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan grwpiau eraill o randdeiliaid ar y pwnc hwn yn gadarnhaol i raddau mawr ac felly nid oes unrhyw dystiolaeth gennym i ddangos bod trwyddedau cyfnod penodol yn debygol o gael effaith negyddol ar hyder y darparwyr neu'r sector yn y cymhwyster.

59 O ran y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y drwydded Asiantaeth DMiAU, er ein bod yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi dyddiad cychwyn er mwyn bod yn dryloyw, nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am hyd cyfnod dilysrwydd trwydded Asiantaeth DMiAU. Ein bwriad yw hyn: lle mae pryder am allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio â'r Amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded, i'r graddau ein bod yn ystyried y dylid rhoi trwydded am gyfnod dilysrwydd byrrach, y ffordd fwyaf defnyddiol o gyfleu hynny yw drwy'r wybodaeth a gyhoeddir am feirniadaethau rheoleiddio a chamau i liniaru risgiau (gwelwch uchod).

## Materion eraill

60 Ar draws yr ymatebion i'r cwestiwn hwn cafwyd nifer o gwestiynau a sylwadau cyffredinol, fel a ganlyn:

- Cais am y rhesymau dros symud y gofynion am gofrestru dysgwyr o fewn 42 diwrnod o Fanyleb y Diploma i'r Cynllun Cydnabod a goblygiadau hynny ar y gofynion adrodd.
- Cais am adolygu'r Disgrifwyr Pwnc er mwyn asesu effaith y gwaith hwn.
- Unwaith y gwneir y newidiadau i'r Cynllun Cydnabod, y cais yw bod yr holl ddogfennau rheoleiddiol yn cael eu cadw'n ganolog ac y ceir cyn lleied â phosib ohonynt.

- Nodwyd bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar Loegr a chafwyd awgrym bod QAA yn ymgysylltu â Medr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r newidiadau yn y tirlun addysg uwch yng Nghymru a sut y gallai hyn ryngweithio â'r Diploma.

**Ein hymateb**

61 Ystyriwn fod y sefyllfa gyfredol o roi'r gofynion am gofrestru dysgwyr o fewn 42 diwrnod ym Manyleb y Diploma'n amhriodol oherwydd mae'n ofyniad sy'n ymwneud â monitro ac adrodd yn hytrach na gofyniad sy'n ymwneud â strwythur gofynnol y Diploma. Am y rheswm hwnnw, credwn y byddai'n fwy priodol rhoi'r gofynion yn yr Amodau. Bydd y gofyniad hwn yn parhau yr un fath yn weithredol ag y mae yn awr, o ran y ffaith bod gofyn i Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA am bob cofrestriad hwyr.

62 Cafwyd cyfnod peilot ar gyfer y Disgrifwyr Pwnc ac mae gwerthusiadau'r cyfnod hwn wedi eu cyhoeddi. Mae QAA wedi monitro'r effaith a gafodd y Disgrifydd Pwnc ar gyfer Meddygaeth ar symudiad myfyrwyr ymlaen i addysg uwch drwy ddadansoddi data ac ymgysylltiad parhaus â Chyngor yr Ysgolion Meddygol. Byddwn yn parhau i fonitro'r effaith y bydd y Disgrifwyr yn ei chael drwy sicrhau adborth gan Asiantaethau DMiAU a darparwyr, yn ogystal â thrwy ddata am gynnydd y myfyrwyr. Hefyd, rydym yn croesawu sylwadau'r Asiantaethau DMiAU am gyflwyno Disgrifwyr Pwnc yn eu cyd-destunau unigol eu hunain.

63 Cytunwn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod yr holl ddogfennau rheoleiddiol ar gael yn hawdd i bawb sydd angen eu gweld nhw ac sydd eisiau eu gweld nhw. Ochr yn ochr â'r gwaith adolygu hwn, mae QAA wedi ymrwymo i wneud gwaith i ail lansio'r wefan Mynediad i AU, ac i adolygu cyflwyniad cyhoeddus a hygyrchedd ein gwybodaeth reoleiddiol yn ofalus. Ein bwriad yw darparu'r holl ddogfennau rheoleiddiol mewn ffordd agored ac eglur, wedi i'r Cynllun Cydnabod diwygiedig gael ei gymeradwyo gan Fwrdd QAA yn 2025.

64 Gweithredir y Cynllun Cydnabod Mynediad i AU yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Drwy ganolbwyntio'r Amodau ar egwyddorion, caiff Asiantaethau DMiAU gyfle i fodloni'r Amodau mewn ffordd fwy hyblyg sy'n ateb eu hanghenion busnes unigol. Rydym wedi cydnabod pryderon penodol yn ymwneud â threfniadau ar gyfer cyllido myfyrwyr Mynediad i AU yng Nghymru ar wahân yn yr ymateb i'r ymgynghoriad (gwelwch y drafodaeth am Amod A7). Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chyrff rheoleiddio, cyrff cyllido a gwneuthurwyr polisi yng Nghymru a Lloegr, yn benodol mewn perthynas â'r Diploma. Hefyd, mae QAA yn gweithio'n agos ag ystod o gyrff y sector yng ngwledydd y DU, yn cynnwys Medr, a thrwy barhau i wneud hynny mae'n edrych ymlaen at gynnal perthynas gynhyrchiol a chydweithredol â nhw.

## Y trefniadau ar gyfer mynd i Gytundeb Trwyddedu a'i gynnal

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am gynnig QAA i newid i weithredu ar sail trwydded cyfnod penodol, lle bydd yn rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto ar ôl y cyfnod hwnnw i gadw ei thrwydded?**

65 Rydym wedi canfod nifer o themâu wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac mae'r rhain wedi eu crynhoi isod.

### Anghytuno â'r angen am ail-drwyddedu

66 Roedd pob Asiantaeth DMiAU ond un yn anghytuno gyda'r cynnig i symud i drwydded cyfnod penodol. Nododd nifer o'r Asiantaethau DMiAU eu siomiant gyda'r datganiad yn yr ymgynghoriad sy'n dweud bod y cynnig yn rhywbeth yr oeddent wedi cytuno iddo'n flaenorol. Roedd ymatebwyr eraill, fodd bynnag, yn cefnogi trwydded cyfnod penodol i raddau mawr.

**Ein hymateb**

67 Ar 19 Hydref 2022, aethom ati i ysgrifennu at yr Asiantaethau DMiAU yn amlinellu'r ffaith ein bod yn mabwysiadu trwyddedu am gyfnod penodol fel ein safiad polisi cyffredinol, a'r bwriad yw y bydd Asiantaethau DMiAU yn mynd drwy'r broses o ail-drwyddedu bob pum mlynedd. Mae'r cynigion sydd wedi eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn yn ddiweddariad i'n cynigion yn y cyswllt hwn ac yn rhoi rhagor o fanylion. Nid yw ein cofnodion yn dangos ein

bod wedi derbyn unrhyw ohebiaeth mewn ymateb i'r llythyr hwn na'r sefyllfa sydd wedi ei esbonio ynddo.

## Hyd cyfnod dilysrwydd y drwydded

68 Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y posibilrwydd y gallai'r cyfnod dilysrwydd arfaethedig o bum mlynedd fod yn rhy fyr, gan nodi y gallai ychwanegu at y baich. Awgrymodd un o'r Asiantaethau DMiAU y gallai'r cyfnod dilysrwydd arfaethedig achosi ansicrwydd ymysg y darparwyr a'u myfyrwyr oherwydd y risg na fydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu bob tro y daw'n amser ail-drwyddedu.

69 Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch y trothwy ar gyfer ystyried cyfnod dilysrwydd byrrach o dair blynedd. Er enghraifft, eglurhad am ddifrifoldeb y camau gweithredu a allai arwain at drwydded am gyfnod o dair blynedd, neu ystyr y term 'gweithgareddau monitro', oherwydd gellir cymryd y term i olygu ymgysylltiad neu gamau gweithredu dilynol gweddol fach. Roedd pobl yn pryderu y gellid cymryd y geiriad presennol i olygu y gallai hyn beri cael cyfnod dilysrwydd byrrach i'r drwydded nad yw efallai'n gymesur.

**Ein hymateb**

70 Rydym yn dadlau bod pum mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer cylchred monitro. Mae modd ennill y Diploma Mynediad i AU drwy astudio'n llawn amser am flwyddyn a bydd un cyfnod trwyddedu'n ymdrin â phum carfan o fyfyrwyr. Ar sail y ffigurau cyfredol, mae hyn yn cynrychioli mwy na 100,000 o fyfyrwyr. Felly, credwn fod hyn yn gyfnod rhesymol i QAA allu ei bodloni ei hun bod Asiantaethau DMiAU yn parhau i gynnal safonau a chyflawni Amodau eu trwydded.

71 Mewn ymateb i ymholiadau yn gofyn i eiriad ein gofynion fod yn fwy eglur, cytunwn o'u hystyried y gellir gwneud y geiriad yn fwy eglur. Felly, lle'r oeddem yn cyfeirio gynt at 'weithgareddau monitro' mewn perthynas â'r cyfnod dilysrwydd o dair blynedd, byddwn yn addasu hyn yn awr i'r term 'camau rheoleiddio cyfredol'. Credwn fod y term hwn yn adlewyrchu'n gywirach yr amgylchiadau yr ydym yn debygol o'u cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad am hyd y cyfnod dilysrwydd. Mae'r term 'camau rheoleiddio cyfredol' yn cynnwys:

- y trefniadau ymyrryd ffurfiol sydd wedi eu disgrifio yn adran 'Ymyriadau Rheoleiddio' yr ymgynghoriad; ac
- unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei wneud o'r Asiantaeth DMiAU ar adeg ail-drwyddedu.

72 Disgwylir i feirniadaethau am gyfnod trwydded yr Asiantaeth DMiAU, fel unrhyw asesiad rheoleiddiol, gael eu gwneud ar ôl ystyried nifer o ffactorau sy'n cynnwys cyd-destun a chymesuredd. Felly, mae'n bosibl y gallai un o'r Asiantaethau DMiAU sy'n derbyn hysbysiad ffurfiol fel math o ymyriad ar adeg ail-drwyddedu dderbyn trwydded am gyfnod o bum mlynedd os nad ystyrir bod cyfnod dilysrwydd byrrach yn gymesur â'r risg. Fodd bynnag, gellir rhoi trwydded am gyfnod o dair blynedd i Asiantaeth DMiAU arall a dderbyniodd Hysbysiad ffurfiol os ystyrir bod cyfnod dilysrwydd byrrach yn gymesur er mwyn ymdrin â'r risgiau sy'n bodoli adeg yr asesiad. Bydd rhagor o wybodaeth am y dull asesu y mae QAA yn ei ddefnyddio ar gael mewn canllawiau ar adeg briodol yn y dyfodol.

## Baich

73 Dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn ystyried ail-drwyddedu'n broses a fyddai'n ychwanegu at y baich yn hytrach na'i ostwng. Mae rhai pobl wedi awgrymu eu bod yn anghytuno â'n rhesymeg neu bod angen rhagor o esboniad arnynt. Cafwyd un awgrym y gallai ail-drwyddedu ychwanegu at y baich i ddarparwyr addysg uwch a darparwyr Mynediad i AU. Cafwyd awgrymiadau pellach hefyd fod y broses yn arwydd o ddiffyg ymddiriedaeth mewn Asiantaethau DMiAU.

**Ein hymateb**

74 Rydym wedi ymdrin â rhai agweddau o'r pryderon hyn eisoes yn ein hymateb i'r ymgynghoriad. Er ein bod yn cydnabod fod pob proses asesu'n achosi rhywfaint o faich, mae asesiadau o'r fath yn angenrheidiol mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ac mae hyn yn gyffredin i'r holl gyrff rheoleiddio yn y sector. Oherwydd natur y dull trwyddedu y mae Mynediad i AU yn gweithredu ynddo, o edrych ar y darlun mawr, ystyriwn fod ail-drwyddedu'n ddull effeithiol o gael sicrhad gan Asiantaethau DMiAU eu bod yn parhau i gydymffurfio ag amodau eu trwydded. Y bwriad yw bod hyn yn disodli dulliau asesu manylach eraill megis adolygiadau thematig, a'i fod yn digwydd ochr yn ochr â gwaith monitro arall sy'n rheolaidd ac yn llai dwys, megis cyflwyno data am gofrestriadau a chynnydd y myfyrwyr.

75 Yn yr un modd, mae angen derbyn y bydd rhyw lefel o fonitro ac asesu Asiantaethau DMiAU ar ran QAA yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r Cynllun Cydnabod yn effeithiol. Ein nod yw y bydd proses reolaidd wedi ei ffurfioli ar gyfer hyn yn cynyddu tryloywder ac ymddiriedaeth yn y tymor hir rhwng y ddwy ochr. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr bod y cynnig am drwyddedau cyfnod penodol, yn arbennig, yn rhoi'r argraff o ddiffyg ymddiriedaeth. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno â'r awgrym hwn ac yn dadlau y bydd y cynigion hyn yn sicrhau bod QAA ac Asiantaethau DMiAU yn gweithio mewn ffordd fwy eglur, agored ac atebol sy'n meithrin ymddiriedaeth ymysg pawb.

## Y drwydded ryngwladol

76 Holodd rhai o'r ymatebwyr ymhle y byddai'r drwydded ryngwladol yn perthyn o fewn y broses o wneud cais am drwydded cyfnod penodol a'i hadnewyddu, ac awgrymodd rai pobl ymhellach y gallai hyn achosi rhagor o gymhlethdod a baich i Asiantaethau DMiAU sydd eisiau gweithredu o dan drwydded ryngwladol.

**Ein hymateb**

77 Bydd y drwydded ryngwladol yn cael ei rhoi ar wahân, a bydd yn rhaid i Asiantaeth DMiAU gael trwydded ar gyfer y DU er mwyn gwneud cais am drwydded ryngwladol. Yn debyg i drwyddedau ar gyfer y DU, bydd y trwyddedau rhyngwladol yn rhai cyfnod penodol a phennir hyd y cyfnod hwn ar sail risg. Pan fydd QAA yn penderfynu bod y risg sy'n bodoli na fydd Asiantaeth DMiAU yn gallu cydymffurfio ag amodau ei thrwydded Ryngwladol yn risg o lefel sy'n golygu nad yw unrhyw amodau neu ymyriadau ychwanegol yn berthnasol, mae'n debygol y penderfynir rhoi cyfnod dilysrwydd i'r drwydded sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r drwydded ar gyfer y DU, os byddwn yn barnu bod hyn yn briodol ac yn gymesur.

78 Rydym yn cydnabod y bydd y broses o wneud cais am drwydded ychwanegol yn achosi rhywfaint o faich ychwanegol yn naturiol. Lle'r Asiantaeth DMiAU yw ystyried a phenderfynu a yw hyn yn addas ar gyfer ei gweithredoedd hi.

## Yr effaith ar y Diplomâu

79 Yn eu hymatebion, gofynnodd rhai o'r Asiantaethau DMiAU a fydd angen i ddyddiadau gorffen cyrsiau Diploma alinio gyda dyddiad gorffen cyfnod dilysrwydd y drwydded.

80 Roedd yr awgrymiadau y gallai trwyddedu am gyfnod penodol ostwng twf ac arloesi (nodwyd hyn yn gynharach yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad) wedi eu datblygu ymhellach yn y fan yma mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Awgrymwyd y bydd Asiantaethau DMiAU yn llai tebygol o fuddsoddi mewn datblygiadau tua diwedd cyfnod dilysrwydd eu trwydded oherwydd ansicrwydd ynghylch adnewyddiad eu trwydded.

**Ein hymateb**

81 Gallwn gadarnhau na fydd angen i ddyddiadau gorffen cyrsiau Diploma alinio gyda dyddiad gorffen cyfnod dilysrwydd y drwydded. Mae'r rhesymau am hynny yr un fath â'r rhesymau sydd wedi eu hamlinellu uchod, sef na fydd y trefniadau arfaethedig yn creu

diwedd artiffisial sydyn ac y byddant yn lleihau'r posibilrwydd y gall trwydded gael ei thynnu'n ôl yn sydyn fel sy'n bosibl yn y Cynllun Cydnabod cyfredol.

## Rheoli'r farchnad

82 Gofynnodd un o'r ymatebwyr a yw QAA yn cynnig cyflwyno trwyddedau cyfnod penodol fel ffordd o reoli'r farchnad ar gyfer y Diploma. Mae eraill wedi awgrymu y gallai ail-drwyddedu gynnig mantais gystadleuol annheg i rai Asiantaethau DMiAU oherwydd bydd darparwyr eisiau gweithio ag Asiantaethau DMiAU sydd â chyfnodau trwyddedu hirach.

**Ein hymateb**

83 Mae ein cynigion yn cynrychioli fframwaith y gall QAA ei ddefnyddio i reoleiddio Asiantaethau DMiAU wrth ddilysu a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r farchnad yn yr ystyr bod QAA yn gosod a gorfodi'r gofynion i bennu pa sefydliadau sy'n addas i fod yn Asiantaeth DMiAU a pha rai sydd ddim. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wahanol i'n safiad cyfredol.

84 Fel y nodwyd eisoes yn ein hymatebion i'r sylwadau ynglŷn ag effaith cyflwyno trefn ail-drwyddedu ar y berthynas rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'i ddarparwr, rydym yn anghytuno y bydd cyfnodau dilysrwydd penodol yn rhoi mantais gystadleuol annheg i Asiantaethau DMiAU penodol. Rydym yn dadlau hyn: cyhyd ag y bydd Asiantaeth DMiAU eisiau parhau i weithredu trwydded, bydd y cynigion cyfredol yn golygu bod llai o risg y gallai trwydded gael ei thynnu yn ei hôl. Yn ein barn ni, lle'r Asiantaethau DMiAU yw dangos i'r darparwyr beth yw manteision gweithio gyda nhw. Bydd gan randdeiliaid y Diploma ar bob lefel fynediad at yr un wybodaeth am bob Asiantaeth DMiAU yr ydym yn ei hystyried yn wybodaeth sy'n bwysig ei dal yn gyhoeddus er mwyn bod yn eglur ac yn atebol. Er nad yw'n fwriad gennym ar hyn o bryd i gynnwys cyfnodau trwyddedu penodol yn y wybodaeth honno, ystyriwn y bydd y beirniadaethau rheoleiddio a gyhoeddwn yn ddigonol i gyflawni'r nod hwnnw.

## Awgrymiadau a chwestiynau cyffredinol

85 Gofynnwyd dau gwestiwn ychwanegol, fel a ganlyn: a oes modd gostwng hyd y cyfnod dilysrwydd mewn ymateb i feirniadaeth sy'n nodi risg wedi i'r drwydded gael ei rhoi, ac a yw QAA yn bwriadu rhoi gwybod i'r darparwyr am unrhyw bryderon ynglŷn â chydymffurfiad un o'r Asiantaethau DMiAU.

86 Rhoddwyd awgrymiadau ynglŷn â'r gofyniad i fynd drwy broses ail-drwyddedu. Er enghraifft, y dylai trwyddedau cyfredol yr Asiantaethau DMiAU gael eu trosglwyddo'n ddiofyn i'r Amodau newydd, ac y dylai ail-drwyddedu ond ymwneud ag Asiantaethau DMiAU yr ystyrir eu bod dan risg uwch.

87 Cyfeiriodd un o'r Asiantaethau DMiAU at y dull monitro a ddefnyddir gan Ofqual fel enghraifft o ddull llwyddiannus, ac yn benodol y drefn o gyflwyno datganiad am gydymffurfiad yn flynyddol ac ymateb i gwestiynau sy'n canolbwyntio ar themâu penodol yn ymwneud â chydymffurfiad. Nododd yr ymatebydd eu bod yn ystyried bod 'archwiliad dwfn' i mewn i un maes y flwyddyn yn well nag un pwynt asesu cyfannol, ar y sail bod hyn yn achosi llai o faich.

**Ein hymateb**

88 Nid yw'n wir y gallai QAA addasu hyd cyfnod dilysrwydd y drwydded unwaith y mae wedi ei rhoi. Os oes gennym bryderon am allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio ag amodau ei thrwydded byddem yn ceisio defnyddio ymyriadau rheoleiddio a allai, mewn achosion difrifol, arwain at dynnu ei thrwydded yn ei hôl yn y pendraw. Os bydd ymyriadau'n dal i fod yn gymwys ar adeg ail-drwyddedu byddem yn ystyried hyn yn ffactor wrth benderfynu ar hyd cyfnod dilysrwydd unrhyw drwydded ddilynol.

89 Yn ogystal, nid ydym yn bwriadu mynd ati'n rhagweithiol i gyfathrebu pryderon ynglŷn â chydymffurfiad i'r darparwyr, ond fel y dywedwn yn yr ymgynghoriad (ac yr ehangwn arno yn yr adran uchod am sgorau risg) rydym yn bwriadu cyhoeddi darnau penodol o wybodaeth am gydymffurfiad a fydd ar gael i'r darparwyr. Byddwn yn parhau i annog darparwyr i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda ni drwy'r Cynllun Pryderon Mynediad i AU.

90 Nid ydym yn cytuno â'r awgrym bod Asiantaethau DMiAU yn derbyn trwydded ar sail yr amodau newydd heb gael eu hasesu i benderfynu a ydynt yn gallu bodloni'r Amodau hynny. Yn debyg i'r trwyddedau cyfredol, mae'n rhaid i bob sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU allu dangos eu bod yn gallu bodloni Amodau eu trwydded ar adeg trwyddedu.

91 Nid ydym yn cytuno chwaith bod digon o bwysau i'r ddadl bod gwneud adolygiadau thematig blynyddol o elfennau unigol y Cynllun Cydnabod yn fwy effeithiol neu'n llai beichus na'r asesiad cyfannol ar gyfer ail-drwyddedu ar sail lai rheolaidd yn achos Mynediad i AU. Mewn perthynas â'r baich, mae'n bosib y bydd gan ail-drwyddedu rai manteision dros ddulliau megis adolygiadau thematig blynyddol oherwydd bydd yr asesiad yn digwydd yn llai aml a bydd hefyd yn fwy rhagweladwy, oherwydd ni fydd cwmpas yr asesiad yn newid o gwbl.

92 Am ein bod yn gorff sy'n rheoleiddio cymhwyster sy'n sefyll ar ei ben ei hun, ac am ein bod yn berchen ar y nod masnach perthnasol, mae ein perthynas gyda'r Diploma a'r risgiau cysylltiedig ag o yn wahanol o ran ei ansawdd i'r berthynas rhwng Ofqual a'r cymwysterau a reoleiddir ganddi. Rydym yn parhau i ystyried fod trwyddedu am gyfnod penodol yn ddull priodol o reoli'r risg hwnnw.

## Materion eraill

93 Dywedodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod y trefniadau monitro sydd ar waith ar hyn o bryd yn caniatáu rheoleiddio digon effeithiol ac nad yw ail-drwyddedu'n angenrheidiol o'r herwydd. Hefyd, mynegwyd pryder ynglŷn â'r amserlen ail-drwyddedu arfaethedig, a'r diffyg gwybodaeth am y broses ar hyn o bryd.

94 Yn ogystal, defnyddiodd un o'r ymatebwyr ei ymateb i'r cwestiwn hwn fel cyfle i awgrymu y dylai QAA gyhoeddi trefn ffioedd i fynd gyda pharagraff 9 y Cytundeb Trwyddedu.

### Ein hymateb

95 Yn rhan o'r ymgynghoriad, mae QAA wedi esbonio sail resymegol glir ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cydnabod a'r trefniadau monitro ac, ar y sail hon, ystyriwn y bydd y trefniadau arfaethedig, yn cynnwys ail-drwyddedu, yn fwy effeithiol na'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd. Fel y disgrifir eisoes yn yr ymateb hwn, ystyriwn fod dyfarnu trwyddedau am gyfnod penodol yn ffordd ddefnyddiol a rhesymol o ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni i reoli risgiau rheoleiddiol. Bydd y trefniadau trwyddedu a monitro, yn y drefn honno, wedi eu nodi mewn dogfennau rheoleiddiol.

96 Mewn perthynas â threfnau ffioedd, nid ydym yn bwriadu codi ffi ar yr Asiantaethau DMiAU cyfredol ar gyfer adnewyddu eu trwyddedau. Fodd bynnag, gallai'r broses o wneud cais am drwydded newydd a phrosesau eraill sydd wedi eu nodi yn ein prosesau greu costau, a gallwn roi ryw syniad o faint y cyfraddau hyn mewn canllawiau wedi'u diweddaru. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r canllawiau am ffioedd a osodir yn flynyddol, a rhannu gwybodaeth gysylltiedig am gofrestru myfyrwyr gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

## Yr Amodau Mynediad i AU

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch yr ydym yn bwriadu eu gweithredu yn rhan o'r Cynllun Cydnabod diwygiedig?**

97 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o sylwadau cyffredinol, yn ogystal ag awgrymiadau manwl ynglŷn ag addasiadau i'r Amodau. Isod rydym wedi ceisio dadansoddi sylwadau mwy cyffredinol neu eang o dan themâu, ac ymateb i sylwadau ynglŷn ag addasiadau penodol ar wahân.

### Sylwadau cyffredinol am yr Amodau

98 Roedd nifer o'r ymatebion a gawsom i'r cynigion am yr Amodau yn gyffredinol yn cefnogi'r cynigion. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'n arbennig y symudiad tuag at ddull sydd wedi ei seilio ar egwyddorion. Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU bod yr Amodau arfaethedig yn alinio gan fwyaf gyda'u gweithredu cyfredol ac addasiadau tymor byr minimol i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio.

99 Fodd bynnag, nododd nifer o'r Asiantaethau DMiAU nad oedden nhw'n teimlo y byddent yn gallu rhoi sylwadau'n llawn am nad oedd digon o fanylion yn yr Amodau a'r canllawiau cysylltiedig, gan gynnwys gwybodaeth am y ffordd y bydd cydymffurfiad yn cael ei asesu. Heb y wybodaeth hon, yr argraff a gafodd yr ymatebwyr oedd na fyddai modd sicrhau gostyngiad yn y baich ac y bydd yr amodau newydd yn cyflwyno prosesau monitro manylach sydd â gofynion llymach, er enghraifft, darparu gwybodaeth o fewn cyfnodau cwblhau byr, megis pum diwrnod gwaith. Cwestiynodd dau o'r ymatebwyr ystyr y term 'pum diwrnod gwaith'.

100 Mynegodd rai o'r ymatebwyr eu hargraff bod y gofynion yn fwy rhagnodol o'u cymharu â'r meini prawf trwyddedu cyfredol, ac y gallant arwain at ostwng ymreolaeth a hyblygrwydd yr Asiantaethau DMiAU. Awgrymodd un o'r ymatebwyr nad oedd fawr ddim newid rhwng y Meini Prawf Trwyddedu a'r Amodau arfaethedig a bod yr Amodau newydd yn parhau i gynrychioli system sydd wedi ei seilio ar reolau.

101 Awgrymwyd bod yr Amodau'n cynnwys gormod o ailadrodd drwy gydol y ddogfen, ac mewn perthynas â dogfennau eraill sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod, megis y safonau graddio a Manyleb y Diploma. Nodwyd y byddai ailadrodd o'r fath yn achosi i Asiantaethau DMiAU dreulio amser dianghenraid yn croesgyfeirio er mwyn sicrhau bod pob un o'r gofynion wedi eu bodloni.

102 Roedd un o'r sylwadau'n lleisio pryder bod yr Amodau'n awgrymu y byddai Asiantaethau DMiAU yn gyfrifol am ddigwyddiadau ar safleoedd darparwyr mewn perthynas â'u safleoedd ffisegol, gan nodi 'y lifft ddim yn gweithio' fel esiampl.

103 Awgrymwyd hefyd y dylai Rhan 3 yr Amodau gymryd y *Ddeddf Cydraddoldeb* i ystyriaeth, a chyfeirio ati.

#### Ein hymateb

104 Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r Asiantaethau DMiAU, os ydynt yn gallu cydymffurfio â gofynion y Meini Prawf trwyddedu, yn parhau i gydymffurfio â'r Amodau arfaethedig heb fawr ddim costau ychwanegol. Yr unig eithriad yw y bydd nifer fechan o ofynion ychwanegol (er enghraifft, y gofyniad am ddatganiad strategol). Mae hynny'n golygu y bydd baich y trosglwyddiad wedi ei leihau i'r Asiantaethau DMiAU sy'n fodlon gyda'u gweithrediad cyfredol mewn perthynas â Diplomâu Mynediad i AU. Fodd bynnag, os bydd Asiantaeth DMiAU eisiau gwneud newidiadau, maen nhw'n rhydd i wneud hynny ar yr amod bod y canlyniad yn parhau i fodloni'r gofynion.

105 Nid ydym yn ystyried bod yr Amodau'n fwy rhagnodol na'r Meini Prawf trwyddedu. Lle rhoddir manylion mewn perthynas ag, er enghraifft, amseriadau ar gyfer darparu gwybodaeth, gwnawn hynny gyda'r nod o osod disgwyliadau clir ar gyfer QAA a'r Asiantaethau DMiAU er mwyn sicrhau bod yr adrodd yn effeithiol ac amserol. Nid rheoleiddio ar sail rheolau yw gosod dyddiadau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud â materion megis diogelu myfyrwyr, er enghraifft, fel y disgrifir o dan Amod A4.

106 I egluro, mae'r term 'diwrnodau gwaith' yn yr Amodau'n cyfeirio at y diffiniad a dderbynnir fel arfer, sef wythnos waith rhwng dydd Llun a dydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus a dyddiadau eraill pan fydd y swyddfa ar gau y bydd QAA yn rhoi gwybod amdanynt.

107 Mae QAA yn cydnabod y sylwadau gan ymatebwyr ynglŷn â'r diffyg canllawiau cysylltiedig oedd ar gael ar adeg yr ymgynghori, ar ôl ymdrin â'r pryder yn y gweminarau a gynhaliwyd gennym yn ystod y cyfnod ymgynghori. Pan mae ymatebwyr yn nodi eu bod yn methu rhoi sylwadau'n llawn am nad oes canllawiau ychwanegol, rydym yn dehongli hyn fel camddealltwriaeth am natur yr Amodau sy'n rhan gyfansoddiadol o'r gofynion sylfaenol sy'n creu'r Cynllun Cydnabod, ac y gellir gwneud unrhyw benderfyniad am drwydded yr Asiantaeth DMiAU yn eu herbyn. Oherwydd eu harwyddocâd yn y cyswllt hwn, o dan drefniadau llywodraethu QAA mae angen i unrhyw newidiadau i fframwaith y Cynllun Cydnabod gael eu cymeradwyo gan Fwrdd QAA. Yn hytrach nag ychwanegu gofynion pellach, mae'r canllawiau'n rhoi rhagor o gyngor ac arweiniad ar sut i ddehongli a bodloni'r gofynion hyn neu'n nodi pa ofynion penodol allai fod yn atebol i newid o bryd i'w gilydd, ond nid ydynt ynddynt eu hunain yn gofyn cymeradwyaeth gan Fwrdd QAA (er enghraifft, manyleb data neu ddyddiadau cwblhau). Am y rheswm hwn, rydym yn ymgynghori ar yr Amodau ac ni fyddai'n ymarferol nac yn briodol i gyhoeddi canllawiau drafft sy'n tybio o flaen llaw beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad.

108 Ein bwriad yw rhoi rhagor o wybodaeth eglur ynglŷn â chydymffurfiad yn y canllawiau, er mwyn cefnogi Asiantaethau DMiAU a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cynnwys ystod ehangach o bynciau yn ymwneud â chydymffurfiad nad ydynt ar gael ar hyn o bryd o dan y trefniadau cyfredol, a gobeithiwn y bydd hyn yn lleihau'r baich ar Asiantaethau DMiAU.

109 Mewn mannau amrywiol, mae'r Amodau arfaethedig yn efelychu rhai darnau o wybodaeth sydd wedi eu lleoli mewn rhannau eraill o'r Cynllun Cydnabod ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny yw ein bod yn barnu ei fod yn well ei gael yn yr Amodau ac, fel addasiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad, bydd y gofynion hyn yn cael eu tynnu o ddogfennau eraill unwaith y bydd y fframwaith cyflawn yn cael ei ail-gyhoeddi. Er enghraifft, ni fydd y gofynion yn ymwneud â chofrestru myfyrwyr ym Manyleb y Diploma bellach ac, yn lle hynny, byddent yn ffurfio Amod A7. Yn ymarferol, ni fydd hyn yn effeithio ar barhad y gofynion sydd wedi eu nodi ar hyn o bryd mewn dogfennau eraill sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod. Mewn achosion eraill lle gallai rhywfaint o ailadrodd ddigwydd o ran mynegiant, awgrymwn mai'r rheswm am wneud hyn yw er mwyn bod yn eglur ac i roi'r naws cywir, yn hytrach na bod yn ailadroddiad dim ond er mwyn ailadrodd, ac i sicrhau bod modd cymhwyso a gorfodi'r gofynion yn ymarferol.

110 Mewn perthynas â'r pryder bod yr Amodau'n rhoi'r cyfrifoldeb am safleoedd eu darparwyr ar ysgwyddau'r Asiantaeth DMiAU, nid yw'n amlwg sut mae pobl wedi dehongli'r ystyr hwnnw o'n Hamodau, ac nid dyma'r bwriad. Yn ogystal, mae Amod D1.2 (Hygyrchedd y ddarpariaeth Diplomâu Mynediad i AU) yn Rhan 3 yr Amodau'n nodi'n eglur bod gofyn rhoi sylw i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Mae'r Amod hwn yn ymwneud â'r cyfle cyfartal a sicrheir yng nghynllun a darpariaeth y dysgu, yr addysgu a'r asesu yn hytrach na'r amgylchedd ffisegol (gwelwch yr adran am Amod D1.2 isod i gael eglurhad ac i weld yr addasiadau i'r gofyniad hwn). Er hynny, rydym yn cydnabod y gallai'r olaf gael effaith ddirfawr ar allu'r myfyriwr i lwyddo yn eu haddysg. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr Diplomâu Mynediad i AU gyflawni eu dyletswyddau statudol drwy ddefnyddio dull strategol i reoli eu hystadau a'u cadw mewn cyflwr diogel a defnyddiol, a rhoi ystyriaeth ddyledus i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* wrth wneud hynny. Fodd bynnag, mewn perthynas â chydnabod darparwyr a chyrsiau, nid ydym yn gofyn i Asiantaethau DMiAU roi unrhyw feirniadaeth benodol am y ffordd y mae'r darparwyr yn rheoli eu hystadau y tu hwnt

i sicrhau bod ganddynt strwythurau llywodraethu i wneud yn siŵr bod eu cyfrifoldebau fel darparwyr cymeradwy'n cael eu cyflawni'n effeithiol (Amod C1.1).

## Y cylch gwaith

111 Nododd rhai o'r Asiantaethau DMiAU ofynion yn yr Amodau yr oeddent yn teimlo eu bod y tu allan i'r cylch gwaith rheoleiddio. Nodwyd gofynion penodol yma, megis y datganiad strategol a'r datganiad am hyfywedd ariannol, yn ogystal â'r gofyniad mwy cyffredinol i gyflwyno gwybodaeth i QAA ei chymeradwyo. Ystyriwyd bod hyn yn arwydd y byddai QAA yn mynd y tu hwnt i'w hawdurdod a'i harbenigedd.

**Ein hymateb**

112 Nid yw, ac ni fydd QAA yn cymeradwyo sefyllfa ariannol yr Asiantaeth DMiAU, ac nid yw'r Amodau y mae'n eu cynnig yn nodi ei bod yn bwriadu gwneud hynny. Lle'r ydym wedi defnyddio'r gair 'cymeradwyo', mae hynny'n ymwneud â'r pethau yr ydym i fod i'w cymeradwyo yn rhan o'n cylch gwaith, sy'n cynrychioli sut y mae'r Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod. Mae hyn yn ymddangos ar hyn o bryd yn y gofynion arfaethedig o dan Amod A2 ac mae'n derbyn sylw manylach o dan yr adran 'Sylwadau am Amodau Penodol'.

## Terminoleg

113 Cwestiynodd nifer o'r ymatebwyr y termau a ddefnyddir yn yr Amodau arfaethedig. Er enghraifft, nodwyd bod y term 'disgrifwyr gradd' yn cael ei ddefnyddio yn lle'r term 'safonau graddio', yn ogystal â'r ffaith fod y termau 'dysgwyr' a 'myfyrwyr' yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiadwy drwy'r ddogfen gyfan. Hefyd, awgrymodd un o'r ymatebwyr bod problem gyda defnyddio'r gair 'rhesymol' drwy'r Amodau i gyd am ei fod yn oddrychol ac yn agored i gael ei herio.

**Ein hymateb**

114 Aethom ati i ddiwygio'r Amodau i sicrhau y defnyddir y termau 'safonau graddio' a 'myfyrwyr' mewn ffordd gyson. Rydym wedi dewis y term 'y myfyrwyr' ar gyfer yr Amodau eu hunain am ein bod yn ystyried bod hyn yn cyfeirio'n benodol at ddysgwyr sy'n ymwneud â chofrestriad ar gwrs astudio penodol, ond mae 'dysgwyr' yn derm ehangach a mwy hollgynhwysol. Am y rheswm hwn, rydym wedi dewis cadw'r term 'dysgwyr' yn ein diffiniad o'r Diploma. I egluro, mae pob un o'r diffiniadau wedi cael eu hadolygu ac mae diffiniadau ychwanegol wedi eu cynnwys yn y ddogfen 'Amodau'.

115 Rydym yn anghytuno â'r awgrym bod 'rhesymol' yn derm anaddas i'w ddefnyddio yn yr Amodau lle mae'r gallu i fod rhesymol yn ystyriaeth allweddol wrth wneud beirniadaeth gymesur am y dystiolaeth sy'n dangos bod Asiantaeth DMiAU wedi cyflawni'r gofynion. Mae'r term hwn hefyd yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i Asiantaethau DMiAU am ei fod yn cynnig seiliau pellach ar gyfer herio beirniadaethau QAA. Am ein bod yn nodi bod y term yn briodol yn ei gyd-destun ac yn nodwedd gyffredin o'r gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol, nid yw QAA yn ystyried bod angen ei newid.

## Cymhwysedd i ddod yn Asiantaeth DMiAU

116 Roedd nifer fechan o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y dylid cyflwyno amod ychwanegol sy'n rhwystro prifysgolion yn eglur rhag cael eu trwyddedu fel Asiantaeth DMiAU. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys barnu bod diffyg tegwch mewn sefyllfa lle na allai Asiantaeth DMiAU ei hun fod yn ddarparwr sy'n darparu cyrsiau Diplomâu, ond y dehonglwyd bod modd i ddarparwr addysg uwch ddarparu cyrsiau Diploma a dyfarnu Diplomâu.

**Ein hymateb**

117 Mae'r gofyniad na "chaiff yr Asiantaeth DMiAU ei hun ddarparu Diplomâu Mynediad i AU na derbyn myfyrwyr Mynediad i AU" yn berthnasol i bob sefydliad a drwyddedir fel Asiantaeth DMiAU, a bydd yn parhau i fod yn berthnasol yn ôl paragraff 12 y Telerau Safonol newydd arfaethedig (sef 'Y Cytundeb Trwyddedu' gynt). Nid ydym yn cynnig caniatáu i bob math o sefydliad ddarparu cyrsiau Diploma a dyfarnu Diplomâu, neu ddyfarnu Diplomâu i fyfyrwyr y gallai wedyn roi lle iddynt ar y cyrsiau y mae'n eu darparu ei hun. Gall unrhyw sefydliad wneud cais i ddod yn Asiantaeth DMiAU ar yr amod ei fod yn gallu dangos ei allu i gydymffurfio â'r Cynllun Cydnabod a'r Amodau. Wrth adolygu'r term hwn, roeddem yn barnu y gallai'r term 'derbyn myfyrwyr' achosi dryswch, felly rydym yn bwriadu addasu'r cymal fel a ganlyn:

- "Ni chaiff yr Asiantaeth DMiAU ei hun ddarparu Diplomâu Mynediad i AU na bod yn ddarparwr addysg sy'n cynnig cyrsiau y gallai'r Diploma Mynediad i AU fodloni eu gofynion mynediad."

## Yr effaith ar y darparwyr

118 Nodwyd yn yr ymatebion y gallai rhai o'r Amodau gael effaith anuniongyrchol ar ddarparwyr, er nad oedd gan yr ymatebydd bryderon penodol. Gofynnodd yr ymatebydd a fyddai'r Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad (Amod A2.3) yn cael ei rannu gyda darparwyr; a fyddai darparwyr yn cael gwybod am bryderon ynglŷn â chydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU, gan nodi Amod A6; ac a fyddai angen rhoi gwybod i ddarparwr am ddigwyddiad a adroddwyd i QAA o dan Amod B6 (Rhoi gwybod i QAA am ddigwyddiadau penodol).

**Ein hymateb**

119 Gallwn gadarnhau na chaiff Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU ei gyhoeddi. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ymyriad rheoleiddio'n digwydd ar sail datganiad o ddiffyg cydymffurfiad, byddai hyn yn cael ei gyhoeddi yn unol â beirniadaethau rheoleiddio eraill (gallwch weld rhagor o wybodaeth ym mharagraff 59). Mewn perthynas â rhoi gwybod i QAA, bydd canllawiau ar gael i'r cyhoedd ynglŷn â'r digwyddiadau y mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU roi gwybod amdanynt. Disgwyliwn y bydd Asiantaethau DMiAU yn parhau i roi gwybod i'w darparwyr am faterion lle mae rheswm dilys dros wneud hynny, ac y mae'n briodol neu'n angenrheidiol gwneud hynny.

## Sylwadau am Amodau penodol

**Cyflwyniad**

120 Cwestiynodd un o'r ymatebwyr y disgrifiad o'r Amodau a roddwyd yn yr adran hon, yn benodol lle mae'n nodi bod yn rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni 'nifer' o'r Amodau (paragraff 2.2 yr Amodau).

121 Mewn perthynas ag egwyddorion ein dull rheoleiddio, yn enwedig fel y mae wedi ei ddisgrifio ym mharagraff 5.2 "cefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn", gofynnodd un o'r ymatebwyr ymhle mae goruchwyliaeth dros ddilysrwydd y prosesau recriwtio a derbyn myfyrwyr yn perthyn o fewn y gofynion. Tynnwyd sylw at bryder am sefyllfaoedd lle gallai cyngor ac arweiniad amhriodol beri anfantais i'r myfyrwyr ac achosi canlyniadau sy'n mynd yn groes i'r egwyddor hon.

**Ein hymateb**

122 Yn ein disgrifiad o'r Amodau, roeddem yn bwriadu cofnodi nad yw'n bosibl efallai i ddangos fod pob un o'r Amodau wedi eu bodloni ar adeg yr asesiad cychwynnol ar gyfer trwydded (er enghraifft, yr amodau sydd wedi eu nodi yn Adran B). Mewn rhai achosion, efallai y byddem yn disgwyl i ddarpar Asiantaeth DMiAU allu dangos cynllun credadwy ar adeg trwyddedu ar gyfer bodloni gofynion o'r fath yn barhaus os byddwn yn ystyried y byddai'n gymesur ac yn

rhesymol gwneud hynny, a bydd hyn wedi ei ddisgrifio yn y canllawiau. Cytunwn y gallai cynnwys y geiriau 'nifer o' achosi dryswch ac rydym wedi ei dynnu o'r Amodau.

123 Nid ydym wedi ymdrin yn eglur â recriwtio a derbyn myfyrwyr o fewn fframwaith y Cynllun Cydnabod yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae QAA wedi cyhoeddi canllawiau am y pwnc i'w ddefnyddio gan ddarparwyr. Y rheswm am hynny yw mai'r darparwyr Mynediad i AU sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â derbyn myfyrwyr, ac nid oes gan QAA gylch gwaith rheoleiddio uniongyrchol yn y cyswllt hwn. Mae rhai gofynion penodol o ran cofrestru myfyrwyr gan Asiantaeth DMiAU wedi eu cynnwys yn yr Amodau - er enghraifft, Amod A7, a'r gofyniad yn Amod C1.1 i sicrhau mai dim ond myfyrwyr sydd â chyfeiriad yn y DU sy'n cofrestru ar gyfer cwrs. Hefyd, mae'r Amodau a gynigiwn yn cynnwys gofynion i Asiantaethau DMiAU ofyn i'w darparwyr farchnata Diplomâu a chyrsiau Diploma mewn ffordd agored ac eglur (Amod C1.2). Rydym yn parhau i deimlo'n fodlon mai'r darparwyr sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad i'w myfyrwyr. I egluro, a dyma'r sefyllfa lle mae pryderon mawr ac amlwg ynglŷn â'r wybodaeth sydd ar gael am y gofynion mynediad, rydym wedi diwygio paragraff 40.2 Amod C1.2 (Gofyniad am gytundeb rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwr), fel a ganlyn:

- "[dylai'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n] gofyn i'r darparwr farchnata Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU cydnabyddedig mewn ffordd agored ac eglur - gan gynnwys (ond nid yn unig) darparu gwybodaeth am y gofynion mynediad a'r statws cyllido, fel y bo'n briodol".

## Amod A: Trefnau rheoli, llywodraethu a strategaeth

### Amod A1: Trefniadau llywodraethu

124 Roedd y sylwadau penodol am Amod A1 yn rhai cadarnhaol ac yn nodi bod y gofyniad yn glir ac y bydd yn galluogi i Asiantaethau DMiAU weithredu mewn ffordd gadarn a chymesur. Croesawyd y gostyngiad mewn rhagnodi a'r symud tuag at fwy o hyblygrwydd.

### Amod A2: Atebolrwydd

125 Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r hyblygrwydd a ganiateir gan yr amod arfaethedig i alluogi i Asiantaethau DMiAU gyflawni eu cyfrifoldebau mewn ffordd briodol. Mewn perthynas â pharagraff 8.6, dywedodd un o'r ymatebwyr ei fod yn croesawu'r ffaith y byddai QAA yn lledaenu'r wybodaeth sy'n deillio o'i gwaith monitro ac awgrymodd y dylid cyhoeddi adroddiad.

*A2.1 - Y Swyddog Cyfrifol*

126 Cododd un o'r ymatebwyr nifer o bryderon am y gofyniad i gael Swyddog Cyfrifol. Roedd yn awgrymu nad oedd gan QAA yr hawl yn rhan o'i chylch gwaith i ofyn bod yr Asiantaethau DMiAU yn sicrhau mai'r swyddog uchaf yn eu sefydliad fyddai'r Swyddog Cyfrifol hwn fel arfer, a dywedodd bod y cyfnod amser i roi gwybod am Swyddog Cyfrifol newydd yn rhy fyr. Awgrymwyd y byddai defnyddio'r Swyddog Cyfrifol fel y prif gyswllt rheoleiddiol yn achosi oedi yn yr adrodd ac y dylid defnyddio nifer o bersonau cyswllt strategol yn ychwanegol at Swyddog Cyfrifol. Awgrymwyd hefyd y gallai'r gofyniad i'r Swyddog Cyfrifol wneud datganiadau y bydd gan QAA hawl i ddibynnu arnynt fel rhai cywir olygu, yn y pen draw, y bydd unrhyw adroddiadau nad ydynt yn dod oddi wrth y Swyddog Cyfrifol yn cael eu caniatáu er nad ydynt efallai'n gywir. Holodd yr ymatebydd a fyddai gofyn i'r Swyddog Cyfrifol gyflwyno'r wybodaeth i gyd eu hunain, neu fod yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau.

*A2.2 - Y Datganiad Strategol*

127 Er bod un o'r ymatebwyr yn barnu bod y gofyniad am ddatganiad yn ymddangos yn ffordd gadarnhaol ac effeithiol o ddangos ymgysylltiad gan randdeiliaid allweddol, roedd y sylwadau am y gofyniad hwn yn feirniadol i raddau mawr.

128 Roedd ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r gofyniad yn awgrymu y dylid ei dynnu a rhoi gofynion eraill yn ei le, er enghraifft gofyniad i weithredu prosesau cynllunio strategol, cynnwys Mynediad i AU mewn cynllun strategol, neu bod yr Asiantaethau DMiAU yn llunio datganiad strategol ar y cyd â QAA. Un peth oedd yn achosi pryder arbennig oedd y gofyniad i'r datganiad gael ei 'gymeradwyo' gan QAA a nodwyd bod y gofyniad hwn yn wahanol i ofynion cyrff rheoleiddio eraill. Nododd yr ymatebwyr hefyd bryder am amseriadau, baich, gwrthdaro buddiannau masnachol a diffyg manteision amlwg i fyfyrwyr. Holodd dau o'r ymatebwyr pa mor aml yr oedd QAA yn disgwyl i Asiantaethau DMiAU gyflwyno neu ddiweddaru eu datganiad.

*A2.3 - Y Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad*

129 Awgrymodd un o'r ymatebwyr addasiad i'r geiriad ym mharagraff 15.1 fel ei fod yn darllen fel hyn: "ei wneud yn y fformat a ddisgrifir *ar, neu cyn, unrhyw ddyddiad gosodedig* y mae QAA yn rhoi gwybod amdano". Gofynnodd yr ymatebydd hefyd am sicrhad y byddai'r gofyniad ar gyfer y Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad yn parhau heb ei newid o'r gofyniad cyfredol i'w gynnwys yn yr adroddiad monitro blynyddol.

**Ein hymateb**

130 Yn ôl paragraff 8.6 Amod A2, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU rannu deilliannau perthnasol y prosesau monitro gyda'r darparwyr lle bydd hynny'n gwella'r ddarpariaeth Mynediad i AU, gan gynnwys deilliannau prosesau monitro QAA a phrosesau'r Asiantaeth DMiAU ei hun. Un enghraifft o broses fonitro QAA lle gallai hyn fod yn berthnasol yw pan fydd argymhellion wedi eu gwneud yn dilyn ymchwiliad o'r Asiantaeth DMiAU. Efallai y bydd achosion ehangach lle gwelwn dueddiadau ar draws Asiantaethau DMiAU yn rhan o'n gwaith monitro, ac y teimlwn y byddai'n fanteisiol rhoi gwybod am y rhain i bob Asiantaeth DMiAU. Bydd y canllawiau'n cynnwys rhagor o fanylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r amod hwn.

*A2.1 - Y Swyddog Cyfrifol*

131 Trwy ofyn bod swyddog uchaf yr Asiantaeth DMiAU yn gweithredu fel ei Swyddog Cyfrifol yn ddiofyn, mae QAA yn ceisio sicrhau bod y cyfrifoldeb am weithrediad Diploma Mynediad i AU yr Asiantaeth DMiAU yn sefyll gyda pherson atebol addas o fewn y sefydliad. Mae darpariaeth yn yr Amod sy'n nodi y gall y cyfrifoldeb hwn, lle bo'n addas, gael ei aseinio'n rhesymol i unigolyn arall yn yr Asiantaeth DMiAU. Mae hyn digwydd drwy eithriad yn hytrach nag yn ddiofyn, felly os bydd Asiantaeth DMiAU yn dewis enwebu swyddog arall bydd QAA yn gwybod yn sicr bod y person yn addas a bod y cais yn rhesymol ac yn gymesur i gyd-destun yr Asiantaeth DMiAU. Mewn ymateb i'r pryder a godwyd am yr amseriad ar gyfer rhoi gwybod i QAA am newidiadau i'r Swyddog Cyfrifol, byddwn yn diwygio'r Amod er mwyn tynnu'r geiriau 'dau ddiwrnod gwaith' a rhoi'r geiriau hyn yn eu lle: 'yn unol â'r amserlenni adrodd sydd wedi eu nodi yn y canllawiau'. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl parhau i ddefnyddio system o bersonau cyswllt strategol enwebedig er mwyn sicrhau bod y cyfathrebu rhwng yr Asiantaeth DMiAU a QAA mor effeithiol ag y bo modd, ond mae'r cyfrifoldeb pennaf am y fath gyfathrebu'n sefyll gyda'r Swyddog Cyfrifol fel y prif gyswllt, ac mae'n rhaid cael trefniadau clir i'w gweithredu yn absenoldeb y Swyddog Cyfrifol. Bydd rhagor o ganllawiau'n dilyn ynglŷn â phwy sy'n gorfod arwyddo a chadarnhau cyflwyniadau penodol i QAA.

*A2.2 - Y Datganiad Strategol*

132 Yn dilyn ein hymateb sydd wedi ei nodi uchod (paragraffau 34 i 37) i'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 1 am y datganiad strategol, mae QAA yn dal i ystyried bod y gofyniad yn briodol yn y ffurf a gynigiwyd. Y rheswm am hynny yw bod perthynas QAA gyda'r cymhwyster yn wahanol i berthynas cyrff rheoleiddio eraill a chymwysterau eraill a gynigir ar hyn o bryd yn y DU. Fel ceidwad yr enw a'r nod masnach Mynediad i AU, mae gan QAA ddiddordeb yn ei gyfeiriad strategol a'i enw da. Yn yr un modd, mae parhad yn llwyddiant ac ystyriaeth strategol y Diploma Mynediad i AU yn ganolog i werthoedd QAA a'i hymrwymiad i sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad addysg o'r ansawdd gorau posibl, a bod addysg o safon

uchel, a mynediad iddi, yn elfen sylfaenol dda. Wrth gyflawni ein nod elusennol o roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r Mynediad i AU, ystyriwn y bydd y gofyniad am ddatganiad strategol yn ein helpu i wneud hynny, gan ddarparu trosolwg allweddol o'r strategaeth sy'n ymwneud â'r Diploma ar draws yr Asiantaethau DMiAU i gyd.

133 Mae paragraffau 65 i 67 y ddogfen ymgynghori'n ymwneud â diben a bwriad y datganiad strategol, a bydd yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl wedi ei gynnwys mewn datganiad, ynghyd â'r rhesymau pham. Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'r ffordd y cymeradwyir hyn drwy brosesau mewnol yr Asiantaeth DMiAU benodol yn fater i'w benderfynu gan yr Asiantaeth DMiAU unigol; mae cymeradwyaeth QAA yn ymwneud â sut yr ydym yn barnu ei fod yn bodloni gofynion yr Amod. Mae'n gywir nad ydym wedi honni y bydd y myfyrwyr yn cael budd uniongyrchol o'r datganiad strategol. Fodd bynnag, ystyriwn y bydd cael geiriad eglur a chyson i strategaeth yr Asiantaeth DMiAU mewn perthynas â Mynediad i AU o fudd i gyfeiriad strategol y Diploma gan y cyrff i gyd.

134 Mae QAA yn disgwyl i'r Asiantaethau DMiAU gyflwyno datganiad strategol sydd i gael ei adolygu, ochr yn ochr â chais am drwyddedu neu ail-drwyddedu, neu unrhyw bryd rhwng y ddau os gwneir newid arwyddocaol. Er ein bod yn ystyried bod achos i bryderu os nad yw'n ymddangos bod datganiad wedi ei ddiweddaru mewn ffordd effeithiol neu gywir, nid ydym yn bwriadu gofyn i Asiantaethau DMiAU wneud gwaith sylweddol ychwanegol y tu allan i'w prosesau arferol er mwyn bodloni'r amod hwn. Am fod yr Amod hwn yn disodli nifer o'r Meini Prawf Trwyddedu sy'n gwneud gofyniad am gynllunio strategol mewn perthynas â Mynediad i AU, rydym yn disgwyl bod Asiantaethau DMiAU yn gwneud gweithgareddau eisoes a fydd yn eu helpu i fodloni'r amod newydd. Yn ogystal, er ein bod yn disgwyl i ddatganiad yr Asiantaeth DMiAU gael ei gyflwyno ar adeg trwyddedu, nid yw'n angenrheidiol i'r Asiantaeth DMiAU alinio ei chylchoedd adolygu strategol ei hun â'r broses drwyddedu ac mae'n rhydd i ddiweddaru'r datganiad a rhoi gwybod i QAA am y newid unrhyw bryd.

*A2.3 - Y Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad*

135 Nid ydym yn gweld digon o gyfiawnhad i ddiwygio geiriad Amod A2.3 yn yr achos hwn. Er bod yr amod ei hun yn nodi'r gofyniad sylfaenol y mae angen ei gyflawni, bydd y trefniadau ar gyfer y datganiad am gydymffurfiad wedi eu nodi mewn canllawiau. Mae hyn yn cynnwys manylion megis y dyddiad cyflwyno, a allai gael ei newid o bryd i'w gilydd, ond ni fydd gofyniad yr Amod yn newid. Ein bwriad ar hyn o bryd yw y bydd hyn yn parhau i gael ei gyflwyno gydag adroddiad monitro blynyddol, er y bydd agweddau o'r fformat yn cael eu haddasu mae'n debyg i adlewyrchu'r newidiadau i'r Cynllun Cydnabod, h.y. yr hyn y mae'r Asiantaeth DMiAU yn cadarnhau cydymffurfiad ag o. Yn yr un modd, gallai amseriad yr adroddiad monitro blynyddol gael ei newid yn y dyfodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y wybodaeth y gofynnwn amdani a phryd y byddwn yn gofyn amdani. Er enghraifft, ar hyn o bryd rydym yn bwriadu symud i gyflwyno gwybodaeth unwaith y flwyddyn a rhagwelwn y byddwn yn addasu amseriad hyn i sicrhau bod digon o amser ar gael i Asiantaethau DMiAU gasglu'r wybodaeth berthnasol.

### Amod A3: Hyfywedd ariannol ac adnoddau

136 Rhoddodd dau o'r ymatebwyr sylwadau manwl am Amod A3. Dywedodd un o'r ymatebwyr bod yr Amod yn fwy rhagnodol na'r gofynion cyfredol, gan nodi bod gofynion tebyg gan gyrff rheoleiddio eraill wedi eu seilio fwy ar egwyddorion. Rhoddodd yr ymatebydd arall sylwadau manwl am ddwy elfen o'r Amod. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys cyfeiriad at y defnydd a wneir o'r gair 'rhesymol' (gwelwch hefyd baragraff 115 uchod).

*A3.1 - Sicrhau'r gallu i ddatblygu a dyfarnu'r cymhwyster*

137 Gofynnodd un o'r ymatebwyr am eglurhad ynghylch y term 'adnoddau' ac awgrymodd bod defnyddio'r gair 'rhesymol' yn dod ag elfen o oddrychedd i feirniadaethau rheoleiddio a bod hynny'n eu gwneud yn agored i gael eu herio (gwelwch hefyd baragraffau 115 a 139).

*A3.2 - Sicrhau hyfywedd ariannol*

138 Holodd yr un ymatebydd a oedd yr Amod hwn yn angenrheidiol, gan awgrymu ei fod yn dyblygu Amod A3.1 - "sicrhau'r gallu i ddatblygu a dyfarnu'r cymhwyster". Roedd hefyd yn nodi heriau i Asiantaethau DMiAU wrth iddynt geisio ymrwymo i sicrhau fod ganddynt adnoddau ariannol digonol o leiaf nes byddai pob un o'r dysgwyr cofrestredig wedi cael cyfle i gwblhau. Mae'r ymatebydd yn awgrymu ei fod yn ymateb anghymesur pan fydd Asiantaeth DMiAU wedi ymadael â'r farchnad ac mae'n nodi mai'r peth pwysig yw bod gan yr Asiantaethau DMiAU gynlluniau yn eu lle i ganiatáu i'r myfyrwyr gael eu trosglwyddo mewn ffordd amserol ac effeithiol os bydd y ddarpariaeth yn dod i ben.

**Ein hymateb**

139 Nid ydym yn barnu bod yr amod hwn yn fwy rhagnodol na'r meini prawf trwyddedu cyfredol a theimlwn ei fod yn alinio â gofynion cyrff rheoleiddio eraill. Mae dwy elfen yr Amod hwn yn cyfeirio at adnoddau cyffredinol megis staff neu adeiladau, er enghraifft, (y gallu i ddatblygu a dyfarnu'r cymhwyster), a chyllid (hyfywedd ariannol). Felly, nid ydym yn barnu bod yma ddyblygiad. Fel y nodwn ym mharagraff 115 uchod, rydym yn anghytuno â'r awgrym nad yw'n briodol defnyddio'r term 'rhesymol' yn yr amodau lle mae'r elfen o fod yn rhesymol yn ystyriaeth allweddol wrth wneud beirniadaeth gymesur ar sail y dystiolaeth sydd ar gael am gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r gofynion. Nodwn fod y gair hwn yn briodol yn ei gyd-destun ac yn nodwedd gyffredin o ofynion rheoleiddiol a ddeddfwriaethol. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r Amod hwn mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Bydd y canllawiau'n cynnwys rhagor o fanylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r amod hwn.

**Amod A4: Canfod a rheoli risgiau**

140 Derbyniwyd ymatebion manwl gan dri o'r ymatebwyr. Cafwyd sylw gan ymatebwyr am y posibilrwydd y bydd y cynlluniau wrth gefn rhwng Asiantaethau DMiAU yn amrywio, gan awgrymu y gallai rhai cynlluniau wrth gefn fod yn aneglur wrth eu defnyddio mewn argyfwng. Roedden nhw'n gofyn a fyddai canllawiau ychwanegol ar gael gan QAA. Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr eraill am y gofynion o ran rhoi gwybod i QAA, ac awgrymodd un ymatebydd bod y gofyniad wedi ei wneud o dan Amod B2 (Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i QAA), ac awgrymodd y llall y dylid newid y gofyniad i adrodd o fewn pum diwrnod gwaith i 10 diwrnod gwaith.

**Ein hymateb**

141 Nid ydym yn ystyried bod dyblygiad yma ag Amod B2. Y rheswm am hynny yw bod Amod A4 yn ymwneud yn benodol â gweithgareddau'r Asiantaeth DMiAU ar gyfer asesu risgiau, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â diogelu buddiannau'r myfyrwyr os bydd y busnes yn methu, neu os bydd y gymeradwyaeth i'r darparwr neu'r cwrs yn cael ei thynnu yn ei hôl. Yn ôl Amod B2 ar y llaw arall, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU ymateb i hysbysiad ysgrifenedig gan QAA er mwyn cyflawni gweithgareddau monitro, yn benodol unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Cydnabod. Bydd y canllawiau'n cynnwys rhagor o fanylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r amod hwn.

142 Elfen a ystyriwn yn hynod bwysig yw bod QAA yn derbyn y wybodaeth a geisir mewn da bryd mewn perthynas â gweithgareddau asesu risgiau a wneir gan Asiantaethau DMiAU er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr. Os bydd QAA yn derbyn y wybodaeth hon o fewn pum diwrnod gwaith, mae hyn yn caniatáu iddi wneud ei hasesiad ei hun o'r sefyllfa a hysbysu penderfyniadau am unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i gefnogi Asiantaeth DMiAU a'r myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau sy'n arwain at ei dyfarniadau (gwelwch hefyd baragraff 106 uchod am ddiffiniad o'r term 'diwrnod gwaith'). Felly, ni fyddwn yn diwygio'r Amod hwn yn unol â'r awgrymiadau a roddwyd.

**Amod A5: Cwyno ac apelio**

143 Rhoddodd un o'r ymatebwyr sylwadau manwl am Amod A5. Awgrymodd yr ymatebydd y dylid cynnwys datganiad ychwanegol yn yr Amod i ofyn i ddogfennaeth yr Asiantaeth DMiAU nodi y dylai'r myfyrwyr fod wedi gweithredu prosesau apelio a chwyno cyflawn eu darparwr cyn

iddyn nhw gysylltu â'u Hasiantaeth DMiAU. Hefyd, ceisiodd yr ymatebydd eglurhad ynglŷn â phwy yw'r 'sefydliadau perthnasol' sydd wedi eu nodi yn yr amod. Mae'r sylwadau'n nodi hefyd bod cynnwys y geiriau 'darpariaethau deddfwriaethol' yn rhy fras a bod angen rhoi enghreifftiau.

**Ein hymateb**

144 O dan y dull o reoleiddio ar sail egwyddorion, lle rhoddir cyfleoedd i Asiantaethau DMiAU weithredu mewn ffordd hyblyg ac mewn ffordd sydd o fudd i'w cyd-destunau unigol eu hunain fel busnesau, ystyriwn fod Asiantaethau DMiAU yn y lle gorau i benderfynu sut yw'r ffordd orau o reoli cwynion ac apeliadau er mwyn ateb anghenion eu darparwyr a'u myfyrwyr. Yn ein barn ni, yr Asiantaeth DMiAU ddylai benderfynu beth i'w gynnwys yn ei dogfennaeth gwyno ac apelio, ac ni ddylai hyn gael ei fanylu yn yr Amodau.

145 Mewn ymateb i'r cais am roi enghreifftiau o ddarpariaethau deddfwriaethol rydym yn anghytuno â'r awgrym ac felly ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Amod hwn. Y rheswm am hynny yw y gallai darpariaethau deddfwriaethol mewn perthynas â'r mater hwn ddibynnu ar y cyd-destun felly ni fyddai'n ymarferol eu rhestru nhw yn yr Amod. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod yn eglur am yr Amodau yn y Cynllun Cydnabod a bydd rhagor o esboniad yn y canllawiau ynghyd â manylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r Amod hwn.

**Amod A6: Cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol**

146 Derbyniwyd ymatebion gan ddau o'r ymatebwyr mewn perthynas ag Amod A6.1 yn benodol. Croesawodd un o'r ymatebwyr yr eglurhad sydd yn Amod A6.1 o beth ydyw Dogfen Reoleiddiol. Fodd bynnag, nododd un arall y gallai cynnwys y geiriau "[unrhyw ganllawiau] a gynhyrchir ac a gyhoeddir gan QAA ac a nodir fel Dogfen Reoleiddiol" yn Amod A6.1 wneud yr ystyr yn llai eglur.

147 Ni chofnodwyd unrhyw sylwadau am Amod A6.2 (Y nodau masnach Mynediad i AU).

148 Derbyniwyd sylw cyffredinol ynglŷn â chydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r gofynion rheoleiddiol, gan nodi y byddai angen rhoi gwybod i ddarparwyr am bryderon o'r fath. Mae hyn wedi ei drafod hefyd ym mharagraffau 49, 59 a 89 uchod.

**Ein hymateb**

149 Croesawyd y sylwadau ac, mewn ymateb i'r pryder a godwyd yn ymwneud ag eglurder i ddefnyddwyr y Dogfennau Rheoleiddiol a chanllawiau QAA, rydym yn cadarnhau y bydd unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â'r Cynllun Cydnabod a gynhyrchir ac a gyhoeddir gan QAA wedi eu nodi'n eglur ar ddechrau pob dogfen.

150 Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i Amod A6.1 mewn ymateb i'r sylwadau hyn. Fodd bynnag, er na dderbyniwyd unrhyw sylwadau am Amod A6.2, wrth ei adolygu rydym o'r farn bod angen newid geiriad yr amod hwn. Bydd y newid hwn yn cynnwys defnyddio nodau cydymffurfiad QAA ac adlewyrchu newidiadau i enw'r Ddogfen Reoleiddiol sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o'r nodau cydymffurfiad a'r nodau masnach Mynediad i AU sydd gan QAA. Dyma fydd geiriad diwygiedig Amod A6.2:

- "Mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU sicrhau ei bod yn defnyddio'r nodau cydymffurfiad a'r nodau masnach Mynediad i AU (y logo, y nod adnabod a'r nodau geiriau Mynediad i AU) yn unol â'r ddogfen reoleiddiol sy'n nodi'r gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU ar gyfer defnyddio'r nod cydymffurfiad a'r nodau masnach Mynediad i AU."

151 Mewn ymateb i'r cais am rannu gwybodaeth am unrhyw bryderon ynglŷn â chydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â gofynion rheoleiddiol QAA, fel sydd wedi ei nodi ym mharagraffau 49 a 50, rydym yn cadarnhau y bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyhoeddi ac y bydd ar gael i'r cyhoedd.

**Amod A7: cofrestru myfyrwyr**

152 Derbyniwyd pedwar sylw am Amod A7 gan dri o'r ymatebwyr. Soniodd dau o'r ymatebwyr hynny yn benodol am symud y gofynion cofrestru o *Fanyleb y Diploma Mynediad i AU* i'r Amodau; nodwyd hefyd sylwadau ynglŷn â dyblygiad rhwng yr Amodau ac elfennau eraill o'r Cynllun

Cydnabod (ystyriwyd hyn hefyd ym mharagraff 108 y ddogfen hon). Mae un o'r ddau sylw penodol yn croesawu'r newid, tra bo eraill yn nodi bod yr amod yn ailadrodd Manyleb y Diploma ac yn nodi bod Manyleb y Diploma yn haws ei newid na'r Amodau.

153 Mae un ymateb yn ymwneud â'r gwahaniaethau mewn trefniadau cyllido i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru gyda darparwyr yng Nghymru ac sy'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ymatebydd yn nodi bod myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru'n cael eu dosbarthu'n fyfyrwyr 'heb gychwyn yn swyddogol' o fewn wyth wythnos (56 diwrnod) ar ôl iddyn nhw gychwyn ar y cwrs, a hynny at ddibenion cyllido. Mae Amod A7 yn gofyn fod pob myfyriwr wedi eu cofrestru gydag Asiantaeth DMiAU cyn pen chwe wythnos (42 diwrnod) ar ôl i'r myfyriwr gychwyn ar y cwrs, ac mae hynny'n alinio â'r dosbarthiadau 'heb gychwyn yn swyddogol' yn Lloegr. Mae'r ymatebydd yn nodi bod y gwahaniaeth yn cael effaith negyddol ar ddibynadwyedd y data sy'n ymwneud â chyrsiau Mynediad i AU a ddarperir gan ddarparwyr yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â chadwraeth a chyflawniad myfyrwyr. Nodwyd bod gan hyn y potensial i effeithio ar berfformiad ymddangosiadol yr Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â'r Cynllun Cydnabod, eu gweithgareddau sicrhau ansawdd a'u gwaith o asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r darparwyr unigol.

154 Dywedodd un o'r ymatebwyr bod posibilrwydd yma i'r myfyriwr astudio ar gyfer mwy nag un Diploma ac felly ennill cyfanswm o fwy na 60 credyd. Maen nhw'n awgrymu diwygio'r amod i nodi bod y gofynion yn ymwneud ag uchafswm fesul Diploma.

### Ein hymateb

155 Gallwn gadarnhau na fydd unrhyw ddyblygiad gyda *Manyleb y Diploma Mynediad i AU* oherwydd bydd y gofynion unigol wedi eu tynnu o Fanyleb y Diploma a byddent yn ymddangos yn yr Amodau yn unig, ac yn benodol:

- y dyddiad cau ar gyfer cofrestru myfyrwyr gydag Asiantaeth DMiAU (gwelwch hefyd y testun diwygiedig ym mharagraff 157 isod)
- y dyddiad cau ar gyfer cofrestru myfyrwyr unigol gydag Asiantaeth DMiAU ar gyfer unedau
- gall myfyrwyr gael eu cofrestru a'u hardystio hyd at uchafswm o 60 credyd
- gall myfyrwyr gael eu cofrestru ar gyfer uchafswm o 30 credyd a all gynnwys unedau o 6 neu 9 credyd; mae unedau graddedig neu anraddedig o 6 neu 9 credyd yn cyfri tuag at yr uchafswm hwn.

156 Ystyriwn y bydd y newidiadau hyn yn cefnogi defnyddwyr y Dogfennau Rheoleiddiol; cefnogwyd y newid hwn gan un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

157 Wedi i ni ystyried y sylwadau'n ofalus sy'n ymwneud â dyddiadau cau ar gyfer cofrestru myfyrwyr sy'n astudio gyda darparwyr yng Nghymru, cytunwn i ddiwygio Amod A7 i adlewyrchu gwahanol ofynion y cyrff cyllido yng Nghymru a Lloegr o ran cofrestru myfyrwyr. Bydd yr Amod diwygiedig yn nodi'r canlynol:

- "[Mae Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr wedi eu] cofrestru gydag Asiantaeth DMiAU ar gyfer Diploma a gydnabyddir gan QAA cyn pen chwe wythnos (42 diwrnod) ar ôl i'r myfyriwr gychwyn ar y cwrs Mynediad i AU, neu wyth wythnos (56 diwrnod) mewn perthynas â myfyrwyr sy'n astudio gyda darparwr sydd wedi ei seilio yng Nghymru neu sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru".

158 Er ein bod yn cydnabod y gallai rhai unigolion gychwyn mwy nag un Diploma Mynediad i AU, ystyriwn fod geiriad Amod A7 yn dangos yn glir bod yr uchafswm o 60 credyd yn ymwneud ag un iteriad o'r Diploma. Yn ogystal, rydym yn cadarnhau nad yw'r Amod yn atal myfyrwyr rhag cychwyn mwy nag un Diploma neu drosglwyddo rhwng Diplomâu. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r elfen hon o'r Amod.

## Amod B: Monitro a darparu gwybodaeth

### Amod B1: Rhoi gwybod i QAA am ddigwyddiadau penodol

159 Ar y cyfan, roedd yr Asiantaethau DMiAU'n nodi y byddai'n ddefnyddiol gweld enghreifftiau o ddigwyddiadau y mae QAA yn ystyried y dylid rhoi gwybod amdanynt, er mwyn iddynt allu penderfynu pa bethau y dylent, a pha bethau na ddylent, roi gwybod amdanynt. Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU bod yr Amod yn ymddangos yn glir iddynt ac eithrio'r ffaith bod angen rhoi enghreifftiau. Dywedodd un arall y byddai angen i'r canllawiau arfaethedig eu hunain fod yn eglur iawn. Ehangodd un o'r Asiantaethau DMiAU ar hynny drwy ddweud y dylai'r diffiniad sydd ym mharagraff 68 y ddogfen ymgynghori gael ei gynnwys o fewn yr Amod. Roedden nhw'n nodi bwriad QAA i ddarparu rhagor o ganllawiau a defnyddio'r rheiny i helpu'r holl Asiantaethau DMiAU i ddehongli'r gofynion ac adrodd mewn ffordd gyson, ond roeddent yn cydnabod na allai QAA roi esiamplau ar gyfer pob sefyllfa bosibl. Nodwyd ganddynt y gallai Amod Cydnabod Cyffredinol B3 Ofqual (Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau Penodol) fod yn esiampl ddefnyddiol. Roedd un o'r Asiantaethau DMiAU eisiau esboniad mwy eglur a fyddai angen gwneud darparwyr yn ymwybodol o ddigwyddiadau hysbysadwy hefyd.

160 Codwyd pryder eto am y diffyg canllawiau ac esiamplau penodol o fewn yr ymgynghoriad, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r term 'rhesymol'.

### Ein hymateb

161 Fel yr esboniwyd o'r blaen, am ein bod yn ymgynghori ar yr Amodau eu hunain, ni fyddai'n ymarferol nac yn briodol i gyhoeddi canllawiau drafft sy'n tybio o flaen llaw beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad (gwelwch baragraff 107). Ein bwriad yw y bydd y canllawiau'n cynnwys nifer o esiamplau o'r mathau o ymddygiad sy'n debygol o gydymffurfio a'r rhai sy'n debygol o beidio cydymffurfio, yn cynnwys digwyddiadau yr ystyriwn yn ddigwyddiadau y bydd yn rhaid rhoi gwybodaeth amdanynt bob tro.

162 Byddwn yn cadw'r term 'beirniadaeth resymol' ar gyfer yr ymresymu sydd wedi ei nodi mewn mannau eraill (gwelwch baragraff 115) ac, o ystyried cyd-destun yr amod hwn, sy'n gofyn asesu'r risg cyfredol i gydymffurfiad a hefyd yr effaith bosibl a'r risg i gydymffurfiad wrth symud ymlaen. Roedd geiriad paragraff 68 y ddogfen ymgynghori'n rhoi diffiniad o'r term 'digwyddiad hysbysadwy'. Roedd hwn yn ddyfyniad gair-am-air bron iawn o Amod B1 yr Amodau Mynediad i AU felly nid ydym yn barnu bod angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y cyswllt hwn.

163 Bydd unrhyw ganllawiau ynghylch diffinio beth sy'n ddigwyddiad hysbysadwy ar gael i'r cyhoedd. Ni fydd unrhyw ofyniad ar ran QAA neu'r Asiantaethau DMiAU i rannu gwybodaeth gyda'u darparwyr oni bai pan fydd effaith uniongyrchol ac y mae angen cymryd camau lliniaru.

### Amod B2: Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i QAA

164 Ni roddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau penodol am Amod B2. Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU ei bod hi'n bosibl y bydd angen diweddaru gwybodaeth sy'n ymwneud â phroblemau cymhleth nad ydynt yn hawdd eu datrys. Aethant ymlaen hefyd i awgrymu, os cedwir y term 'rhesymol' o fewn yr Amodau, efallai bod hwn yn faes lle mae'n cael ei ddefnyddio i ganiatáu cyfnod rhesymol o amser i gasglu a rhannu gwybodaeth. Roedden nhw'n teimlo y dylid gofyn i QAA roi rheswm am geisio gwybodaeth a nodi sut y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio.

### Ein hymateb

165 Bydd geiriad arfaethedig Amod B2 yn cael ei gadw fel y mae. Dylai'r cytundebau rhwng Asiantaethau DMiAU a darparwyr gynnwys darpariaethau i graffu'n effeithiol a dylai fod yn bosibl felly i Asiantaethau DMiAU ddychwelyd gwybodaeth berthnasol a chywir ar gais. Rydym yn derbyn y gall digwyddiadau ddod i'r amlwg dros amser, neu efallai y bydd angen

gwneud gwiriadau pellach a dadansoddiad i sicrhau bod y wybodaeth a'r dehongliadau a'r casgliadau a gymerir ohoni'n ddilys ac yn ddibynadwy.

166 Mae'r defnydd a wneir o'r term 'rhesymol' wedi ei drafod eisoes. Nid yw'n cael ei ddefnyddio yn Amod B2 oherwydd, er mwyn ymateb i ddyletswyddau ac amseriadau allanol, efallai y bydd achlysuron yn codi pan fydd angen i QAA a'r Asiantaethau DMiAU gydweithio i gyflymu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol oherwydd dyletswyddau statudol neu ddyletswyddau eraill. Felly, nid yw mesur pa mor rhesymol ydyw yn ystyriaeth yn y cyswllt hwn, ac mai cymesuredd sy'n berthnasol yma, sef y gofyniad sy'n llywio ein dull yn gyffredinol yn hytrach na'r amod ei hun.

167 Pan roddir gwybod am unrhyw ddigwyddiad, bydd QAA yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i gymesuredd ei cheisiadau am ragor o wybodaeth a bydd QAA yn parhau i fod yn fodlon trafod y mater hwn gyda'r Asiantaeth DMiAU, lle bo'n briodol. Yn yr un modd, rydym yn ystyriol o'r llwyth gwaith gweinyddol y mae ceisiadau am wybodaeth yn ei achosi i Asiantaethau DMiAU, a dim ond lle mae rhesymeg eglur y bydd ceisiadau'n cael eu gwneud. Y bwriad cyffredinol yw cael cyswllt agos rhwng QAA a'r Asiantaethau DMiAU fel bod modd datrys unrhyw ddigwyddiadau'n effeithiol.

**Amod B3: Monitro Asiantaethau DMiAU gan QAA**

168 Ni roddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau penodol am Amod B3. Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU bod yr Amod yn ymddangos yn eglur ar y cyfan ond y byddai'n ddefnyddiol derbyn rhagor o wybodaeth am amseriadau a gofynion adrodd. Hefyd, gofynnodd Asiantaeth DMiAU arall am gael gweld y canllawiau ychwanegol arfaethedig er mwyn gallu rhoi ymateb gwybodus, yn arbennig mewn perthynas â goblygiadau'r RhDDC. Tynnodd y rhain sylw hefyd at yr angen am eglurder mewn perthynas â threfniadau cyfarfodydd - faint o rybudd fyddai'n cael ei roi, ac ymhle y byddent yn digwydd o ystyried y goblygiadau cost.

169 Roedd un o'r Asiantaethau DMiAU yn dadlau nad oedd Amod B3 yn ymddangos "fel petai'n cyd-fynd â'r amcan a nodwyd i leihau biwrocratiaeth" a bod y cynnig yn "teimlo'n ormodol i ni ac yn sicr nid yw'n cyfateb â hanfodion 'partneriaeth'".

**Ein hymateb**

170 Byddwn yn rhannu'r holl ganllawiau perthnasol ag Asiantaethau DMiAU erbyn dechrau haf 2025. Cyn rhannu fersiwn terfynol y canllawiau rydym yn bwriadu rhoi cyfle i'r Asiantaethau DMiAU ymwneud â fersiynau drafft i nodi unrhyw gwestiynau posibl sydd ganddynt, ond ni fydd hyn yn gyfle i newid unrhyw rai o'n dulliau y cytunwyd arnynt ar y pwynt hwnnw.

171 Er y byddwn yn defnyddio dull cydweithredol o lunio canllawiau ac yn gweithredu mewn partneriaeth ag Asiantaethau DMiAU ar brosiectau penodol eraill (yn enwedig, hyrwyddo Mynediad i AU, ymwneud â materion strategol y sector, ymgysylltu â'r sector, a datblygu'r cymhwyster), mae angen i ni gofio nad yw ein perthynas gyda'r Asiantaethau DMiAU yn bartneriaeth. QAA yw ceidwad y cymhwyster, sy'n golygu bod gennym ddiddordeb annatod mewn amddiffyn cynaliadwyedd a chymeriad y Diploma Mynediad i AU a'i ddatblygiad yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysicach fyth oherwydd ein henw da drwy'r byd i gyd fel corff o arbenigwyr ym maes sicrhau ansawdd addysg drydyddol. Ni hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r cymhwyster ac am sicrhau ansawdd a digonolrwydd safonau cyflawniad y myfyrwyr ar bob cwrs Mynediad i AU. Prif nod ein gwaith rheoleiddio yw diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cymhwyster ei hun. Rydym yn monitro Asiantaethau DMiAU yn rhan o'n cyfrifoldebau rheoleiddio am y Diploma.

172 O baragraff 38 ymlaen, ymdrinnir â materion baich a biwrocratiaeth, ac maen nhw'n derbyn sylw hefyd o fewn cyd-destun adran Trefniadau Monitro'r adroddiad hwn. Bydd rhai elfennau o'r trefniadau cyfredol yn parhau fel y maent, er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng monitro cylchol a monitro mwy eithriadol megis ymchwilio, ond mae elfennau eraill yn cynrychioli

dull monitro mwy penodol a phwrpasol o fonitro lle mae craffu ychwanegol wedi ei warantu er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cymhwyster ei hun.

173 Ers mis Mai 2018, mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) wedi gofyn i bob sefydliad sy'n prosesu data personol roi hysbysiad preifatrwydd i unigolyn sy'n wrthrych data. Dylai Asiantaethau DMiAU barhau i adolygu eu hysbysiadau preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i allu cyflawni eu dyletswyddau statudol eu hunain a'n prosesau sicrhau ansawdd ninnau.

**Amod B4: Gofynion o ran cyflwyno gwybodaeth a data**

174 Ni roddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau penodol am Amod B4. Manteisiodd un o'r ymatebwyr ar y cyfle i fyfyrio ar yr arferion cyfredol mewn perthynas â darparu gwybodaeth a phwysigrwydd deall patrymau yng nghofrestriad, cyflawniad a chynnydd y myfyrwyr. Roedden nhw'n gofyn ymhellach sut y byddai gweithgareddau monitro QAA yn cael eu defnyddio i benderfynu ar statws risg yr Asiantaeth DMiAU a'i chais am ail-drwyddedu. Holodd un Asiantaeth DMiAU sut y byddai data am gyrsiau a myfyrwyr yn galluogi i QAA gyflawni ei nod o sicrhau bod darpariaeth o safon uchel yn cael ei chynnig i'r holl fyfyrwyr Mynediad i AU a bod y ddarpariaeth honno'n eu cefnogi i fynd ymlaen i addysg uwch. Gofynnodd Asiantaeth DMiAU arall a oedd angen Amod B4, ac a oedd Amod B2 yn ymdrin â'r un gofynion.

175 Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU eu bod yn eithaf croesawu dull arloesol QAA o reoleiddio ar sail egwyddorion, ond bod ganddynt hefyd bryderon ynglŷn â sut y byddent yn dangos cydymffurfiad ac ymhle y bydd y broses o wneud beirniadaeth yn perthyn. Yn benodol, roedden nhw'n awgrymu bod rhai Amodau'n oddrychol ac yn agored i gael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Rhoddwyd Amod B4 fel esiampl.

176 Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU bod Amod B4 yn ymddangos yn glir, ond y byddent yn croesawu rhagor o wybodaeth am ofynion adrodd penodol. Cafwyd sylw gan asiantaeth arall yn dweud y byddai angen canllawiau arnynt os oeddent yn mynd i ymateb mewn ffordd adeiladol. Daeth sylw arall gan yr un Asiantaeth DMiAU am y defnydd a wneir o'r gair 'rhesymol'. Tynnodd un Asiantaeth DMiAU sylw at yr angen am gywirdeb, o ystyried bod angen i ddata am y myfyrwyr wahaniaethu rhwng 'Anhysbys' a 'Heb ei ddarparu' er mwyn diogelu hawl gyfreithiol y myfyrwyr i beidio datgelu.

**Ein hymateb**

177 Safbwynt QAA yw mai'r cwbl yw data yw gwybodaeth ffeithiol a ddarperir mewn fformat sy'n addas i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cymhlethdodau wrth gasglu a phrosesu data'n gyfreithiol, ac wrth ddefnyddio data i wneud beirniadaethau a phenderfyniadau sy'n rhesymol ac yn gymesur. Byddwn yn parhau i gyflwyno canllawiau i Asiantaethau DMiAU o bryd i'w gilydd i'w helpu i gynllunio ymlaen ac integreiddio ein gofynion i mewn i'w llifoedd gwaith a'u strwythurau TG.

178 Rydym yn cydnabod y bydd rhai elfennau penodol o'r dull rheoleiddio ar sail egwyddorion yn newydd i rai o'r Asiantaethau DMiAU, a bydd angen i'n canllawiau eu helpu drwy roi nifer o esiamplau i ddangos sefyllfaoedd sy'n cydymffurfio a rhai sydd ddim. Bydd ein dull yn rhoi cyfleoedd i Asiantaethau DMiAU ddangos cydymffurfiad mewn ffyrdd sy'n addas i'w sefydliad, eu darparwyr a'u myfyrwyr. Ond, mae'n rhaid i ni hefyd weld metrigau cymaradwy sy'n galluogi i ni ganfod meysydd o arfer da a meysydd sy'n achosi pryder. Mae'r data a gyflwynir gan yr Asiantaethau DMiAU yn gadael i ni osod meincnodau cenedlaethol penodol ar gyfer darpariaeth Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraddau cyflawniad cenedlaethol a beth yw'r gyfran o fyfyrwyr sy'n cyflawni proffil gradd Rhagorol, a rhennir y rhain gydag Asiantaethau DMiAU i'w helpu i werthuso eu darpariaeth. Mae hefyd yn caniatáu i ni adnabod meysydd lle mae gofyn cael cwestiynau gan Asiantaethau DMiAU, fel grŵp neu'n unigol, am eu gwaith o fonitro eu darpariaeth yn unol â'r Cynllun Cydnabod. Mae darparu'r data hefyd

yn rhoi tystiolaeth i ddangos llwyddiant y Diploma i'r llywodraethau ac eraill, er enghraifft, mewn perthynas â chynnydd y myfyrwyr a chefnogi meysydd lle mae angen sgiliau.

179 Bydd Amod B2 ac Amod B4 yn parhau fel y cynigiwyd am fod ganddynt wahanol ddibenion i'w gilydd. Mae Amod B4 yn ymwneud ag adroddiadau data rheolaidd sy'n rhoi trosolwg meintiol i QAA ac asiantaethau'r llywodraethau am y nifer o fyfyrwyr cofrestredig a'u cyfraddau cynnydd a chyflawniad ar draws Asiantaeth DMiAU, meysydd astudio a disgyblaethau, grwpiau demograffig a newidynnau eraill. Yn gyffredinol, mae'r data hwn yn cefnogi parhad y Diploma Mynediad i AU o fewn y tirlun Lefel 3, ac mewn rhai achosion mae'n ofyniad statudol ei ddarparu. Mae Amod B2 yn galluogi gwneud ceisiadau mwy ymatebol am wybodaeth sy'n caniatáu data mwy cyd-destunol am brosiectau, gwelliannau neu weithgareddau monitro penodol a yrrir gan ymrwymiad QAA i gynnal a datblygu'r cymhwyster.

180 Byddwn yn parhau i gyflwyno canllawiau o bryd i'w gilydd am gasglu a chyflwyno data'n rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanylebau data, er enghraifft, newidynnau penodol megis data am nodweddion.

**Amod B5: Gwaith yr Asiantaeth DMiAU o fonitro ei chofnodion**

181 Derbyniwyd un ymateb yn unig am Amod B5 a oedd yn ymwneud â nifer o faterion. Awgrymodd yr ymatebydd na fydd hi'n bosibl bob tro i ddiweddaru'r gronfa ddata o gyrsiau Mynediad i AU ar unwaith os bydd y gymeradwyaeth i'r darparwr yn cael ei thynnu yn ei hôl, a gallai fod yn fwy rhesymol disgwyl y diweddariadau eraill o fewn 10 diwrnod gwaith yn hytrach na'r pump a nodwyd. Roedden nhw hefyd yn gofyn am eglurhad i esbonio a yw'r amserlen yn cychwyn ar y pwynt pan gymeradwyir newid i gwrs, neu pan fydd y newid hwnnw'n dod yn weithredol.

**Ein hymateb**

182 Y gronfa ddata o gyrsiau Mynediad i AU yw'r rhestr derfynol o'r Diplomâu a gydnabyddir gan QAA sy'n cael ei defnyddio at ddibenion cyllido, ac felly, mae'n hanfodol i alluogi i QAA gyflawni'r amcanion sydd ganddi o dan ei Herthyglau Cymdeithasu i roi gwybodaeth i'r llywodraethau am gymwysterau Mynediad i AU. Dyma brif erfyn QAA hefyd i farchnata'r cymhwyster Mynediad i AU drwy ei wefan. Mae'n hanfodol bwysig ei fod yn adlewyrchu'r cynnig Mynediad i AU cyfredol yn gywir bob amser ac yn ystyried y ffaith bod gwallau yn y parth cyhoeddus yn tanseilio hygrededd y Diploma Mynediad i AU, ac yn fwy na hynny, yn achosi pryderon ynglŷn â diogelu defnyddwyr. Felly, nid ydym am newid y gofynion sy'n ymwneud â pha mor gyflym y mae'n rhaid diweddaru'r gronfa ddata. Fodd bynnag, rydym wedi egluro bod modd gwneud diweddariadau yn y mwyafrif o sefyllfaoedd ar adeg y gweithredu, fel a ganlyn:

- "[Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am…] sicrhau y cedwir cronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU yn gyfoes yn unol â gofynion QAA, ac y gwneir unrhyw addasiadau angenrheidiol cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r newid ddigwydd, neu ar unwaith os bydd y newid yn ymwneud â thynnu cymeradwyaeth i un o'i darparwyr yn ei hôl".

Bydd hyn yn caniatáu amser rhwng y cymeradwyo a'r gweithredu i Asiantaethau DMiAU gynllunio ar gyfer diweddaru'r gronfa ddata gan staff priodol.

## Amod C: Cydnabod darparwyr a chyrsiau

183 Roedd un sylw, a nodir ym mharagraffau 101 a 109 uchod, yn cyfeirio at Amod C wrth sôn am ailadrodd dianghenraid y dywedodd yr ymatebydd ei fod yn ychwanegu at y baich rheoleiddiol sy'n cael ei greu. Roedd y sylwadau am Amod C yn cyfeirio'n benodol at nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'r prosesau ar gyfer cydnabod canolfannau, cymeradwyo, ac ati, y byddai Asiantaethau DMiAU yn croesgyfeirio â nhw. Awgrymodd yr ymatebydd y byddai'n fwy effeithiol gofyn bod Asiantaethau DMiAU yn cyflwyno polisïau perthnasol, gan felly ddarparu rhestr wirio o'r hyn sy'n ofynnol eu cael.

**Ein hymateb**

184 Fel y nodwyd ym mharagraff 109 uchod ac mewn mannau amrywiol, mae'r Amodau arfaethedig yn efelychu rhai darnau o wybodaeth sydd wedi eu lleoli mewn rhannau eraill o'r Cynllun Cydnabod ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny yw ein bod yn barnu ei fod yn well ei gael yn yr Amodau ac, fel addasiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad, bydd y gofynion hyn yn cael eu tynnu o ddogfennau eraill unwaith y bydd y fframwaith cyflawn yn cael ei ail-gyhoeddi. Er enghraifft, ni fydd y gofynion yn ymwneud â chofrestru myfyrwyr ym Manyleb y Diploma bellach ac, yn lle hynny, byddent yn ffurfio Amod A7. Yn ymarferol, ni fydd hyn yn effeithio ar barhad y gofynion sydd wedi eu nodi ar hyn o bryd mewn dogfennau eraill sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod. Mewn achosion eraill lle gallai rhywfaint o ailadrodd ddigwydd o ran mynegiant, awgrymwn mai'r rheswm am wneud hyn yw er mwyn bod yn eglur ac i roi'r naws cywir, yn hytrach na bod yn ailadroddiad dim ond er mwyn ailadrodd, ac i sicrhau bod modd cymhwyso a gorfodi'r gofynion yn ymarferol.

**Amod C1: Cymeradwyo darparwyr**

185 Derbyniwyd sylwadau manwl am elfennau unigol o'r Amod sydd wedi eu nodi isod. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn ymwneud â cheisiadau am arweiniad a meysydd sydd angen eu hegluro, fel a ganlyn:

*Y broses gymeradwyo*

186 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol am Amod C1.1.

*C1.2 - Gofyniad am gytundeb rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwr*

187 Derbyniwyd chwe sylw gan bedwar ymatebydd. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r elfennau a ganlyn o Amod 1.2:

- cytundeb ysgrifenedig y gellir ei orfodi rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwyr sydd wedi eu cymeradwyo ganddi
- gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer cwyno ac apelio
- tynnu'r gymeradwyaeth oddi ar un o'r darparwyr
- trosglwyddo Diplomâu a ddatblygir gan ddarparwyr.

188 Sylwodd un o'r ymatebwyr bod y gofyniad am gytundeb ysgrifenedig y gellir ei orfodi rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwyr sydd wedi eu cymeradwyo ganddi'n amrywio o'r gofynion trwyddedu cyfredol, a gofynnodd am ragor o arweiniad er mwyn hwyluso cydymffurfiad yr Asiantaethau DMiAU.

189 Awgrymwyd y dylai'r gofyniad i ddarparwyr weithredu gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag apeliadau a chwynion er budd myfyrwyr gael ei dynnu allan am ei fod yn edrych fel petai'n ailadrodd Amod arall.

190 Mewn perthynas â'r gofynion i nodi manylion proses i'w dilyn pan fydd darparwr yn tynnu'n ôl (boed yn wirfoddol ai peidio) o'i rôl o ddarparu'r Diplomâu Mynediad i AU, dywedodd un o'r ymatebwyr y dylid ychwanegu 'ar gyfer pob Asiantaeth DMiAU' at yr Amod. Nododd ymatebydd arall fod yr Amod yn rhoi'r cyfle i gryfhau cydymffurfiad drwy'r sector cyfan trwy ganiatáu rhannu gwybodaeth rhwng Asiantaethau DMiAU.

191 Cafwyd dau sylw gwrthgyferbyniol ynglŷn â throsglwyddo Diplomâu Mynediad i AU neu gyrsiau a ddatblygir gan ddarparwyr. Roedd un sylw'n croesawu'r gofyniad bod y darparwr, drwy gyfrwng un o amodau'r gymeradwyaeth i'r darparwr, yn cytuno na ellir trosglwyddo unrhyw Ddiploma neu gwrs y mae'n eu datblygu o un Asiantaeth DMiAU i un arall. Roedd y sylw arall yn anghytuno ac yn awgrymu y dylid ei dynnu allan; mae'r ymatebydd yn esbonio y gallai ei gynnwys rwystro trosglwyddiad y ddarpariaeth, er enghraifft, os byddai un o'r Asiantaethau DMiAU yn rhoi'r gorau i fasnachu, gan beri anfantais i'r myfyrwyr. Roeddent yn teimlo hefyd

ei bod hi'n aneglur sut y gellid gorfodi'r elfen hon o Amod 1.2, a gofynnwyd a allai Asiantaeth DMiAU hawlio teitl Diploma penodol fel eu teitl nhw eu hunain ac felly atal ei drosglwyddiad.

*C1.3 - Cadarnhau'r gymeradwyaeth i'r darparwr*

192 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol am Amod C1.3.

**Ein hymateb**

193 Mae'r gofyniad am gytundeb ysgrifenedig y gellir ei orfodi rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwr sydd wedi ei gymeradwyo ganddi i'w gael yn y Meini Prawf trwyddedu cyfredol ac felly mae'n adlewyrchu'r arferion cyfredol yn yr Asiantaethau DMiAU. Mae'r holl Asiantaethau DMiAU yn gweithredu prosesau o gydnabod a chymeradwyo darparwyr a bydd ganddynt fathau o gytundebau yn eu lle sy'n cadarnhau caniatâd i ddarparu'r Diplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA gyda'u darparwyr sydd wedi eu cymeradwyo ganddynt. Nid ydym yn cynnig wneud unrhyw newidiadau i'r elfen hon o'r Amod. Bydd rhagor o eglurhad yn y canllawiau, ynghyd â manylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r Amod hwn.

194 Wedi i ni ystyried sylwadau'r ymatebwyr, nid ydym yn ystyried bod yma ailadrodd mewn perthynas â gofynion i ddarparwyr o ran gweithredu trefn ar gyfer ymdrin ag apeliadau a chwynion er budd y myfyrwyr. Y rheswm am hynny yw bod Amod C1.2 yn gofyn i Asiantaethau DMiAU sicrhau, drwy'r broses o gymeradwyo darparwyr a pharhau cydymffurfiad â'r gymeradwyaeth honno, bod prosesau darparwyr cymeradwy ar gyfer rheoli cwynion ac apeliadau'n cael eu gweithredu er budd y myfyrwyr. Fodd bynnag, mae Amod A2 (Atebolrwydd) ac Amod A5 (Cwyno ac apelio), yn ymwneud â threfniadau'r Asiantaeth DMiAU ar gyfer goruchwylio a gweithredu ei phrosesau wedi'u dogfennu i reoli cwynion ac apeliadau.

195 Rydym yn cydnabod y bydd rhai darparwyr cymeradwy'n gweithio gyda mwy nag un Asiantaeth DMiAU. Fodd bynnag, dim ond i Asiantaethau DMiAU y mae cylch gwaith rheoleiddio QAA yn berthnasol, a dim ond i un Asiantaeth DMiAU ar y tro y bydd unrhyw ymyriadau a gweithgareddau rheoleiddio penodol yn berthnasol. Wedi i ni ystyried y sylwadau a wnaed, ni theimlwn ei bod hi'n angenrheidiol newid geiriad yr elfen hon o Amod 1.2. Fodd bynnag, rydym yn derbyn yr awgrym y gellir cryfhau cydymffurfiad ar draws y sector drwy ganiatáu rhannu gwybodaeth. Felly, rydym yn cynnig yr addasiad a ganlyn i destun yr elfen hon o'r Amod.

- "[Dylai'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n…] sefydlu polisi sancsiynau sydd i gael ei weithredu os bydd y darparwr yn methu cydymffurfio â'r gofynion hyn, yn cynnwys bod â threfniadau yn eu lle a fyddai'n caniatáu i wybodaeth am unrhyw sancsiynau a orfodir gael ei rhannu gyda phartïon eraill".

196 Rydym yn deall y pryderon a godwyd gan un o'r ymatebwyr ynglŷn â gwahardd trosglwyddo Diplomâu neu gyrsiau Mynediad i AU a ddatblygir gan ddarparwr. Fodd bynnag, o dan y darpariaethau a amlinellir yn Amod D4, nodwn fod caniatâd i drosglwyddo Diplomâu a chyrsiau a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU, ac mae hyn felly'n hwyluso trosglwyddo'r ddarpariaeth os bydd Asiantaeth DMiAU yn peidio masnachu, fel y nodwyd gan yr ymatebydd.

197 Nodwn fod y gofynion yn ymwneud â theitlau Diploma wedi eu nodi yn Atodiad A *Manyleb y Diploma Mynediad i AU*. Roedd y fersiwn drafft o'r Amodau Mynediad i AU a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad yn cynnwys diffiniadau ar gyfer cwrs a Diploma Mynediad i AU fel y trafodwyd uchod.

198 Ni esboniwyd y rhesymeg am ymholi a allai Asiantaeth DMiAU hawlio teitl Diploma yn deitl sy'n eiddo iddi hi, ac felly atal ei drosglwyddo. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau nad ydym am wneud unrhyw newidiadau i'r gofynion enwi ac, yn debyg i'r sefyllfa ar hyn o bryd, efallai na fydd teitlau Diploma Mynediad i AU yn unigryw i ddarparwr penodol ac/neu Asiantaeth DMiAU benodol. Roedd yr esiampl a roddwyd gan yr ymatebydd yn ymwneud â Meddygaeth.

Nodwn fod Diploma Mynediad i AU (Meddygaeth) yn deitl a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o'r Asiantaethau DMiAU. Mae hefyd yn amodol ar gydymffurfio â'r *Disgrifwyr Pwnc ar gyfer Meddygaeth* gan olygu bod yn rhaid i'r cynnwys fodloni gofynion y ddogfen Disgrifydd Pwnc. Rydym yn cadarnhau y gallai Asiantaeth DMiAU sydd wedi datblygu Diploma neu gwrs sydd â'r teitl hwn drosglwyddo'r Diploma a/neu'r cwrs/cyrsiau i Asiantaeth DMiAU arall os yw'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, os bydd darparwr cwrs wedi datblygu Diploma neu gwrs sydd â'r un enw, ni chaniateir iddo drosglwyddo'r Diploma neu'r cwrs i Asiantaeth DMiAU arall. Os bydd unrhyw drosglwyddiad yn digwydd, ac fel sy'n ofynnol gan yr Amod D4 arfaethedig, rhaid rhoi ystyriaeth ddigonol i hawliau eiddo deallusol. Ni fydd unrhyw newid i eiriad Amod C1.2 mewn perthynas â throsglwyddo Diplomâu.

199 Cynigir rhai newidiadau hefyd i elfennau o Amod C1.2 er mwyn gwella eglurder mewn ymateb i sylwadau cyffredinol, fel a ganlyn:

- "gofyn i'r darparwr farchnata cyrsiau Mynediad i AU cydnabyddedig mewn ffordd agored ac eglur - gan gynnwys (ond nid yn unig) darparu gwybodaeth am y gofynion mynediad a'r statws cyllido, fel y bo'n briodol"
- "disgrifio'r gofynion y mae'n rhaid i'r Darparwr gydymffurfio â nhw, *a pharhau i gydymffurfio* â nhw, er mwyn darparu cyrsiau Mynediad i AU".

200 Bydd rhagor o eglurhad yn y canllawiau, ynghyd â manylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r amod hwn.

**Amod C2: Monitro darparwyr yn barhaus**

201 Derbyniwyd tri sylw am yr Amod hwn gan un o'r ymatebwyr.

202 Gofynnodd yr ymatebydd am eglurhad ynghylch y gair 'perfformiad' fel y mae wedi ei nodi yn yr Amod ("Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am lunio a gweithredu gweithdrefnau wedi eu dogfennu ar gyfer monitro perfformiad pob un o'i darparwyr…"), gan esbonio nad yw man cychwyn pob darparwr a phob myfyriwr yr un fath.

203 Awgrymwyd hefyd y dylid newid geiriad yr Amod, yn arbennig baragraff 44 i orffen ar y geiriau 'amodau addysg uwch'.

204 Mae'r ymatebydd yn awgrymu bod geiriad yr elfen o'r amod sy'n ymwneud â diogelu myfyrwyr yn rhy feichus, gan nodi "…ni all Asiantaethau DMiAU ond lleihau unrhyw effeithiau posibl os bydd busnes un o'r darparwyr yn methu". Yn ogystal, maen nhw'n awgrymu bod gan yr Amod fel y mae wedi ei ysgrifennu ar hyn o bryd y potensial i niweidio buddiannau'r myfyrwyr.

**Ein hymateb**

205 Wedi i ni ystyried y sylwadau'n fanwl rydym yn ystyried ei bod hi'n bwysig i Asiantaeth DMiAU allu dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae darparwr yn cydymffurfio â gofynion cytundeb canolfan yr Asiantaeth DMiAU. Yn y cyd-destun hwn, gallai'r 'gofynion' sydd wedi eu disgrifio'n fanwl ym mharagraff 44 gael eu dehongli fel gofynion sy'n cyfeirio at y meysydd hynny sydd wedi eu nodi ym mharagraff 43, gan alluogi i'r Asiantaeth DMiAU ddangos sut y mae'n gorfodi'r gofynion yn weithredol. I'r perwyl hwn, diwygiwyd paragraff 40.3 Amod C1.2 i egluro bod gofynion y cytundeb canolfan yn cael eu gorfodi'n ymarferol ac yn barhaus gan yr Asiantaeth DMiAU, fel sydd wedi ei nodi uchod.

206 Rydym wedi ystyried y cais i aralleirio paragraff 44 ac rydym yn cynnig yr aralleiriad a ganlyn:

- "Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU allu dangos i QAA yn effeithiol sut mae'n gwneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â'r Amodau Mynediad i Addysg Uwch drwy ddefnyddio a gweithredu proses o gymeradwyo darparwyr *a gweithdrefnau monitro*."

207 Mewn perthynas â'r pryderon a godwyd ynglŷn â gallu cyfyngedig yr Asiantaeth DMiAU i leihau unrhyw effeithiau posibl os bydd busnes un o'i darparwyr yn methu, rydym yn derbyn bod cyfyngiadau rhesymol ar y trefniadau diogelu myfyrwyr y gellir eu rhoi ar waith mewn unrhyw sefyllfa. Rydym yn cydnabod y bydd angen rhoi ystyriaeth i bethau fel prosesau a gofynion y cyrff cyllido ar gyfer darparwyr a gyllidir yn gyhoeddus. Er hynny, gellir disgwyl i Asiantaethau DMiAU fod â threfniadau ar waith i leihau unrhyw effeithiau posibl ar y myfyrwyr os bydd yr angen yn codi. Rydym yn nodi mai lleihau yn hytrach na diddymu risgiau yw ystyriaeth allweddol rheoli risgiau'n effeithiol.

208 Yn ogystal, nid ydym yn gweld bod gan y gofyniad i fonitro darparwyr yn barhaus, yn cynnwys ystyried trefniadau diogelu myfyrwyr, y potensial i niweidio buddiannau'r myfyrwyr, ac felly rydym yn anghytuno â'r awgrym hwn. Dylid monitro cytundebau â darparwyr yn barhaus a'u gorfodi lle bo'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod buddiannau pob parti perthnasol, gan gynnwys buddiannau'r myfyrwyr, yn cael eu diogelu.

209 Mewn ymateb i'r awgrym y gellid cryfhau cydymffurfiad ar draws y sector drwy ganiatáu rhannu gwybodaeth, gwnaed ychwanegiad i Amod C2 fel a ganlyn:

- "Os bydd Asiantaeth DMiAU yn gorfodi sancsiwn yn unol â'r Amod uchod, mae'n rhaid iddi roi gwybod am hynny ar unwaith i unrhyw Asiantaeth DMiAU arall sy'n cynnig cyrsiau Mynediad i AU gyda'r darparwr hwnnw."

**Amod D1: Datblygu Diplomâu Mynediad i AU**

*D1.1 - Cydymffurfio â'r Cynllun Cydnabod*

210 Derbyniwyd un sylw yn unig am Amod D1.1. Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU yn ei hymateb "Nid ydym yn gweld yr Amodau hyn yn angenrheidiol a byddem yn awgrymu bod y Fanyleb yn ddigonol". Yna ychwanegodd yr asiantaeth y byddai tynnu'r Amod hwn yn ôl yn golygu y byddai iteriadau'r dyfodol yn haws i'w gweithredu heb adolygiad llawn. Roedden nhw'n teimlo bod cynnwys Amod D1.1 yn ddyblygiad.

**Ein hymateb**

211 Rydym yn anghytuno â'r safbwynt hwn. Yr Amodau Mynediad i AU yw'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU. Mae Manyleb y Diploma, y Cynllun Graddio a'r Disgrifwyr Pwnc yn nodi gofynion QAA o ran cynllunio, darparu, asesu a dyfarnu'r Diploma. Mae Amod D1 yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth DMiAU i sicrhau fod pob darparwr y mae'n ei gymeradwyo a phob Diploma y mae'n ei ddilysu'n cydymffurfio â'r gofynion o ran y cymhwyster.

*D1.2 - Hygyrchedd y ddarpariaeth Diplomâu Mynediad i AU*

212 Derbyniwyd ymatebion gan ddwy Asiantaeth mewn perthynas benodol ag Amod D1.2. Yn yr ymateb cyntaf, gofynnwyd am ragor o arweiniad gan QAA ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng rolau'r Asiantaethau DMiAU a rolau'r darparwyr i sicrhau fod pob ochr yn monitro'r prosesau'n briodol, ac yn eu haddasu mewn ffordd resymol ar draws y trefniadau ar gyfer cynllunio, darparu ac asesu'r cymhwyster. Dywedodd yr ail y gallai fod yn syniad da i dynnu'r cyfeiriad at ddeddfwriaeth benodol er mwyn rhoi cyfeiriad mwy generig at 'ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol'. Aethant ymlaen i nodi na chesglir pob data am nodweddion gwarchodedig ac y byddai'n rhoi baich ychwanegol sylweddol ar Asiantaethau DMiAU a darparwyr os byddai hyn yn dod yn ofyniad.

**Ein hymateb**

213 Bydd ein canllawiau'n dangos yn glir bod angen i Asiantaethau DMiAU fonitro eu Diplomâu er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgu, addysgu ac asesu'n hygyrch ac nad ydynt yn peri anfantais i'r dysgwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig. I wneud hyn yn fwy eglur, byddwn yn ychwanegu at yr Amod fel a ganlyn:

- "Am eu bod yn gyrff dyfarnu, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys, strwythur a darpariaeth pob cwrs Diploma Mynediad i AU, cyn belled ag y bo'n gyfrifol am ei ddarparu, yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol *Deddf Cydraddoldeb 2010*.[1]"

214 Fel y nodwyd uchod, mae ein Hamodau'n ymwneud â'r cyfle cyfartal a sicrheir yng nghynllun a darpariaeth y dysgu, yr addysgu a'r asesu yn hytrach na'r amgylchedd ffisegol. Er hynny, rydym yn cydnabod y gallai'r olaf gael effaith ddirfawr ar allu'r myfyriwr i lwyddo yn eu haddysg. Rydym yn disgwyl i'r darparwyr gyflawni eu dyletswyddau statudol drwy ddefnyddio dull strategol i reoli eu hystadau a'u cadw mewn cyflwr diogel a defnyddiol, a rhoi ystyriaeth ddyledus i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* wrth wneud hynny.

215 Rydym eisiau bod yn glir am y fframweithiau cyfeirio yr ydym yn eu defnyddio yn yr achos hwn, ac i'r perwyl hwnnw rydym yn bwriadu cyfeirio'n benodol at y ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol. Byddai gwneud newidiadau dilyffethair i ystyr a swyddogaeth y Cynllun Cydnabod yn gofyn cael cymeradwyaeth gan Fwrdd QAA, ond ni fyddai angen y gymeradwyaeth hon ar gyfer diweddariadau llai i gynnal cywirdeb y dogfennau os byddai'r ddeddfwriaeth hon yn newid yn arwyddocaol.

_D1.3 - Addasu unedau a Diplomâu_

216 Rhoddodd pedair Asiantaeth DMiAU sylwadau am y darpariaethau a wneir gan Amod D1.3. Roedd un yn teimlo nac oes angen cyfeirio at y *Ddeddf Hawliau Defnyddwyr.* Roedd un arall eisiau eglurhad am y ffordd y dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr am addasiadau a wneir i unedau a Diplomâu (yn benodol, a ddylid rhoi gwybod i fyfyrwyr cofrestredig yn unig, neu i'r myfyrwyr yn gyffredinol). Roedd trydydd eisiau eglurhad am newidiadau i'r cyfathrebu, o ystyried y ffaith bod Asiantaethau DMiAU yn cyfathrebu'n uniongyrchol â'u darparwyr, a pherthynas y myfyrwyr â'u darparwr. Gofynnodd pedwaredd Asiantaeth DMiAU gwestiwn sy'n berthnasol yma mewn darn arall o'u hymateb i'r ymgynghoriad: roedden nhw'n awyddus ein bod ni'n cadw'r diffiniadau cyfredol o addasiadau mawr a bach oherwydd byddai hyn yn hwyluso cysondeb ar draws Asiantaethau DMiAU.

**Ein hymateb**

217 Mae *Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015* yn ymwneud â hawliau defnyddwyr yn y DU, yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi prynu gwasanaeth (sef y ddarpariaeth addysg) o dan gytundeb. O dan y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gall myfyrwyr, er enghraifft, ddisgwyl gwybodaeth glir ac amserol am eu cwrs, a thelerau ac amodau teg a chytbwys. Mae dyletswydd statudol ar ddarparwyr i lynu at ddarpariaethau'r *Ddeddf*, felly rydym yn barnu y dylai gweithdrefnau'r Asiantaethau DMiAU gymryd hyn i ystyriaeth a sicrhau bod eu gweithdrefnau'n rheoli newid ynghyd â'r llif gwybodaeth i fyfyrwyr yn y ffordd gywir. Mae'n bwysig bod gweithdrefnau'r Asiantaeth DMiAU ar gyfer addasu unedau a chyrsiau Diploma'n sicrhau bod y darparwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau tuag at eu myfyrwyr mewn perthynas â'u hymrwymiadau cytundebol a darpariaethau'r *Ddeddf*.

218 Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 42, mae llai o gyfleoedd i fyfyrwyr Lefel 3 sy'n oedolion gael cymorth na myfyrwyr iau neu fyfyrwyr addysg uwch. Am mai hi yw'r corff sy'n rheoleiddio'r Diploma, mae'n ddyletswydd ar QAA felly i sicrhau lefel uchel o hyder yn y safonau Mynediad i AU.

219 Nid yw ein diffiniadau o addasiadau mawr a bach wedi newid, a byddwn yn cynnwys y rhain yn y canllawiau, y mae eu cynnwys yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Yn y canllawiau hyn, byddwn hefyd yn cynnwys arweiniad ynglŷn â sut a phryd i rannu gwybodaeth

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

gyda'r myfyrwyr. Cytunwn â sentiment cyffredinol ymatebion yr Asiantaeth DMiAU, a oedd yn ymwneud â chysondeb ar draws yr Asiantaethau DMiAU a'r ddarpariaeth.

**Amod D2: Cymeradwyo Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a'u dilysu'n barhaus**

220 Cyflwynodd pum Asiantaeth DMiAU sylwadau am Amod D2. Er nad ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r gofynion a'r diffiniadau yn ymwneud â dilysu a chymeradwyo, roedd hi'n amlwg o'r sylwadau hyn bod y ffordd yr ydym yn geirio'r gofynion wedi newid. Mae hyn wedi achosi i Asiantaethau DMiAU gwestiynu eu dulliau cyfredol a pha mor addas ydynt wrth symud ymlaen.

*D2.1 - Cymeradwyo a dilysu Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU ar y cychwyn*

221 Derbyniwyd sylwadau am Amod D2.1 gan dair Asiantaeth DMiAU. Roedd dwy Asiantaeth yn gofyn eglurhad am y broses ar gyfer darparwr sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i ddarparu cwrs sydd wedi ei seilio ar Ddiploma a ddatblygir gan Asiantaeth DMiAU. Roedd un o'r Asiantaethau DMiAU yn pryderu bod yr Amod fel petai'n nodi bod yn rhaid cynnal panel dilysu i gymeradwyo cwrs, gan nodi y gallai hyn fod yn 'hynod feichus' i'r Asiantaeth DMiAU ac i'r darparwr. Dyma ddywedodd yr Asiantaeth DMiAU arall: "trwy'r amodau i gyd, mae'n ymddangos bod y broses o ddilysu a chymeradwyo 'Diplomâu' a 'Chyrsiau' wedi eu trin yn gyfartal ac fel petai'r ddau yn un weithgaredd. Nid ydym yn sicr sut y bydd hyn yn gweithio". Yn ogystal, gofynnodd un o'r Asiantaethau DMiAU am y rhesymau dros gynnwys D2.1 yn yr Amodau.

222 Gofynnodd un o'r Asiantaethau DMiAU i ni ail ystyried y defnydd a wnawn o'r gair 'aelodau' o gofio ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun penodol, amherthnasol mewn nifer o'r Asiantaethau DMiAU. Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU bod paragraffau 55 i 57.2 yn ymddangos fel pe baent yn gwrth-ddweud y diffiniadau a amlinellwyd mewn adrannau cynharach o Amod D2.1.

*D2.2 - Ail-ddilysu Diploma Mynediad i AU*

223 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol gennym am Amod D2.2 ac felly ni chynigir unrhyw newidiadau.

*D2.3 - Sicrhau ansawdd*

224 Derbyniwyd tri sylw am Amod D2.3. Gofynnodd un o'r ymatebwyr am esboniad i ddangos a oedd yn ymwneud ag ansawdd y darparwr neu ansawdd y Diploma. Gofynnodd un Asiantaeth DMiAU a fyddai angen gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi eu dogfennu arnynt ar gyfer darparwyr nad ydynt yn atebol i gael eu harolygu'n allanol, hyd yn oed os nad oes ganddynt ddarparwyr o'r fath. Gofynnodd Asiantaeth DMiAU arall a oedd yr Amod yn berthnasol hefyd i ddarparwyr rhyngwladol.

**Ein hymateb**

*D2.1 - Cymeradwyo a dilysu Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU ar y cychwyn*

225 Mewn ymateb i sylwadau a roddwyd gan yr Asiantaethau DMiAU, bydd Amod D2.1 yn cael ei ddiwygio mewn nifer o ffyrdd i sicrhau ei fod yn fwy eglur.

226 Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar baragraff 58 y ddogfen ymgynghori: "Lle mae darparwr cymeradwy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i ddarparu cwrs Mynediad i AU sydd wedi ei seilio ar Ddiploma a ddatblygir gan Asiantaeth DMiAU, mae'r un gweithdrefnau a meini prawf dilysu sy'n berthnasol i gymeradwyo'r cwrs yn cael eu defnyddio ar gyfer y Diploma hwnnw." Rydym yn cydnabod bod y geiriad gwreiddiol hwn fel petai'n cyfuno'r prosesau dilysu a chymeradwyo ar gyfer Diplomâu a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU, ac y bydd yn ceisio ymdrin â hyn am eu bod yn brosesau gwahanol, a bod y broses o gymeradwyo cyrsiau (ar lefel y darparwr) yn digwydd ar ôl dilysu Diploma neu gwrs. Mae angen gwneud y gwahaniaeth yn eglur er mwyn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y cymal hwn a chymalau eraill sy'n canolbwyntio ar Ddiplomâu a ddatblygir gan ddarparwr. Felly, byddwn yn diwygio'r Amod fel a ganlyn:

- "Lle mae darparwr cymeradwy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i ddarparu cwrs Mynediad i AU sydd wedi ei seilio ar Ddiploma a ddatblygir gan Asiantaeth DMiAU, mae'n rhaid i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer dilysu'r cwrs sicrhau bod y darparwr yn gallu darparu cwrs o'r fath yn unol â manylebau a gofynion y Diploma a ddilysir."

227 Mae newid bach ond pwysig yn cynnwys newid 'panel o aelodau' i 'aelodau o banel'. Mae hyn yn gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng aelodau'r Asiantaeth DMiAU a'r bobl hynny sy'n cyfarfod fel aelodau o banel dilysu.

228 Rydym hefyd wedi adolygu paragraffau 55 i 57.2 ac rydym yn hyderus nad oes unrhyw wrth-ddweud yma. Mae'r cymalau hyn yn Amod D2.1 yn gofyn bod gan Asiantaethau DMiAU feini prawf a gweithdrefnau wedi eu dogfennu ar gyfer dilysu Diplomâu trwy banel o arbenigwyr profiadol. Mae hyn yn digwydd cyn cymeradwyo cwrs i gael ei ddarparu gan un darparwr, neu gymeradwyo cyrsiau i'w darparu gan nifer o ddarparwyr. Mae'r defnydd a wneir o'r derminoleg yma'n gymesur â'r diffiniadau a ddarperir.

<u>*D2.3 - Sicrhau ansawdd*</u>

229 Os nad oes gan Asiantaeth DMiAU gytundebau â darparwyr nad ydynt yn atebol i gael eu harolygu'n allanol, ni fydd gofyn i Asiantaethau DMiAU gael gweithdrefn sicrhau ansawdd wedi ei dogfennu am nad ydym yn ystyried y byddai hyn yn gymesur. Pe baent yn dechrau gweithio gyda darparwyr o'r fath, byddem yn disgwyl iddynt ddatblygu gweithdrefn.

230 Byddem yn disgwyl i weithdrefnau sicrhau ansawdd gwmpasu taith astudio gyfan y myfyriwr Mynediad i AU, o'r camau marchnata a recriwtio hyd at ddyfarnu Diploma a symud ymlaen. Mae'r gofyniad hwn yn ymwneud â'r ffordd y mae darparwyr yn darparu Diplomâu yn unol â'u dilysiad parhaus. Er enghraifft, un rhan o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd y dylai pob Asiantaeth DMiAU fod â nhw yn eu lle yw'r gweithgareddau safoni. Bydd beirniadaethau yn y cyswllt hwn yn canolbwyntio fel arfer ar ansawdd y Diploma ei hun, er ei bod hi'n anochel y bydd ansawdd y darparwr yn effeithio ar hyn.

231 Rydym hefyd wedi diwygio geiriad yr Amod er mwyn tynnu 'y ddau' o'r amod. Dyma'r geiriad diwygiedig:

- "Dylai pob Asiantaeth DMiAU fod â threfniant sicrhau ansawdd wedi ei ddogfennu'n glir sy'n caniatáu iddi gymeradwyo a monitro darpariaeth ac ansawdd cyrsiau Diplomâu Mynediad i AU a gynigir gan[…]".

232 Dim ond y darparwyr sydd â phrif safle yn y DU all ddarparu cymwysterau Mynediad i AU ar hyn o bryd, a dim ond myfyrwyr sydd â chyfeiriad yn y DU sy'n gallu cofrestru i astudio ar gyfer Diploma Mynediad i AU. Mae hyn yn wir am y meini prawf sydd ar waith ar hyn o bryd a hefyd am y trefniadau a gynigiwn ar gyfer y cymhwyster ar gyfer y DU o dan Amod C1.1. Byddai gofyniad ar wahân i sicrhau ansawdd yn berthnasol i ddarparwr rhyngwladol sydd wedi derbyn cymeradwyaeth yr Asiantaeth DMiAU i ddarparu'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol. Er y bydd y manylion wedi eu nodi mewn ymgynghoriad pellach, byddem yn disgwyl yn yr achos hwn i drefnau sicrhau ansawdd roi cyfrif hefyd am yr angen i wneud profion sicrwydd ychwanegol os nad oes arolygiad allanol, lle bo'n briodol.

### Amod D3: Terfyniad y Diploma ac ymadawiad y darparwr

<u>*D3.1 - Terfyniad y Diploma Mynediad i AU*</u>

233 Derbyniwyd un ymateb yn unig am Amod D3.1. Yn ôl un Asiantaeth DMiAU: "Mae'n ymddangos bod hyn yn gwrth-ddweud Amodau blaenorol. Nid ydym yn sicr sut y gallem gyflawni'r Amod hwn os na allwn rannu gydag Asiantaethau DMiAU eraill."

<u>*D3.2 - Ymadawiad y darparwr*</u>

234 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol am Amod D3.2.

**Ein hymateb**

235 Heb wybodaeth fanwl nid yw'n eglur pam fod yr Asiantaeth DMiAU yn teimlo bod hwn yn gwrth-ddweud Amodau blaenorol. Ni fyddem yn disgwyl i Asiantaeth DMiAU fod angen rhoi gwybod i Asiantaethau DMiAU eraill fel arfer ei bod yn tynnu Diploma yn ei ôl, er nad yw ein gofynion yn ei hatal rhag gwneud hynny os yw'n teimlo y byddai hynny'n beth addas i'w wneud. Pan fydd Diploma'n cael ei dynnu yn ei ôl neu ei addysgu hyd ei ddiwedd ac yna'i ddirwyn i ben, yn arbennig pan fydd trosglwyddiad darparwr, mae'r gofynion ynglŷn â hyn wedi eu nodi ar wahân.

**Amod D4: Trosglwyddo Diplomâu a chyrsiau**

236 Rhoddodd pedair Asiantaeth DMiAU sylwadau am yr Amod hwn.

237 Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU fod Amod D4 yn cynrychioli newid sylweddol o'r Meini Prawf Trwyddedu blaenorol a bydd yn gofyn i Asiantaethau DMiAU weithredu'n wahanol. Dywedodd Asiantaeth DMiAU arall eu bod yn "croesawu'r geiriau ychwanegol sy'n nodi na ellir trosglwyddo unrhyw Ddiploma neu gwrs a ddatblygir gan ddarparwr i Asiantaeth DMiAU arall". Fodd bynnag, dywedodd trydedd Asiantaeth DMiAU y gallai Amod D4, yn eu barn hwy, gyflwyno rhwystrau i symudedd darparwr rhwng Asiantaethau DMiAU. Nodwyd ganddynt fod y trefniadau cyfredol yn caniatáu i ddarparwyr symud yn hawdd rhwng Asiantaethau DMiAU, a bod hyn yn hyrwyddo cystadleuaeth ac yn cynyddu ansawdd. Roedden nhw'n dadlau y gallai 'cyfyngu' ar drosglwyddiad Diplomâu a luniwyd gan y darparwr achosi i ddarparwyr newid eu meddyliau oherwydd y llwyth gwaith a'r amser gofynnol. Yn ogystal â hynny, roedden nhw'n credu y byddai gofyn i Asiantaethau DMiAU roi caniatâd i drosglwyddo Diplomâu'n arwain at "ymddygiad dialgar, lle mae Asiantaethau DMiAU yn rhwystro neu'n rhoi gormod o faich ar ddarparwyr sy'n chwilio am wasanaethau eraill". Roedd y bedwaredd Asiantaeth DMiAU yn teimlo na fyddai'r Amod newydd yn annog cydweithrediad rhwng Asiantaethau DMiAU ac y gallai arwain at weithredu cyfreithiol rhwng Asiantaethau DMiAU.

238 Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU nad oedd gan eiriad paragraff 70 ('ystyriaeth ddigonol i'r ddeddfwriaeth eiddo deallusol') gyfarwyddyd clir am weithrediad teg ac roedd yn gofyn am fwy o arweiniad er mwyn atal ymddygiad negyddol. Gofynnodd Asiantaeth DMiAU arall am wybodaeth gyd-destunol a rhesymeg ar gyfer yr Amod newydd, gan awgrymu mai QAA sy'n berchen ar holl eiddo deallusol y Diplomâu a'r cyrsiau Mynediad i AU beth bynnag.

239 Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU nad oedden ni wedi esbonio'n eglur yn ein cynigion pam mae cyfrifoldebau'r darparwr wedi eu cynnwys yn yr Amodau ar gyfer Asiantaethau DMiAU (paragraff 69 'Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a ddatblygir gan ddarparwyr'). Gofynnodd un arall i ni sicrhau ein bod yn darparu canllawiau yn ymwneud â pharagraff 70 (Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU) i egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau'r Asiantaeth DMiAU a chyfrifoldebau'r darparwr. Aethant ymlaen i ddweud bod canlyniadau anfwriadol yr Amodau hyn, fel y maent wedi eu drafftio ar hyn o bryd, yn golygu y bydd dysgwyr dan anfantais, yn enwedig os bydd Asiantaeth DMiAU yn diflannu'n gyflym, naill ai drwy beidio â bodoli mwyach neu drwy ymadael â'r ddarpariaeth.

**Ein hymateb**

240 Mae QAA yn berchen ar y Cynllun Cydnabod ar gyfer y Diploma Mynediad i AU, gan gynnwys Manyleb y Diploma a'r nodau masnach cysylltiedig. Lle defnyddir ein Manyleb i ddatblygu Diploma neu gwrs, mae'r hawliau eiddo deallusol ar gyfer y Diploma hwnnw neu'r cwrs hwnnw a'i unedau cyfansoddol yn eiddo i bwy bynnag â'u datblygwyd - boed yn Asiantaeth DMiAU neu'n ddarparwr. Mae eiddo deallusol sy'n ymwneud â deunyddiau cwrs a ddyfeisiwyd i gefnogi darpariaeth cwrs yn perthyn i'r darparwr, heblaw bod cytundebau eraill yn eu lle.

241 Mae rhoi ystyriaeth a hefyd sylw digonol i'r gofynion cyfreithiol ynglŷn ag eiddo deallusol yn bwysig wrth drosglwyddo darparwyr a Diplomâu. Y diben wrth gynnwys Amod D4 yw ymdrin â hyn, er nad yw ymgyfreitha rhwng Asiantaethau DMiAU yn rhywbeth i QAA na'r Cynllun

Cydnabod bryderu yn ei gylch ar yr amod bod yr Asiantaethau DMiAU unigol yn cydymffurfio â'r Cynllun Cydnabod. Fodd bynnag, gallai rhoi ystyriaeth a sylw cywir i'r ddeddfwriaeth eiddo deallusol gael yr effaith o ostwng yr angen am ymgyfreitha rhwng Asiantaethau DMiAU. Yn yr un modd, nid yw'n nod nac yn rhan o gwmpas swyddogol yr Amodau i annog Asiantaethau DMiAU i gydweithio.

242 Rydym yn anghytuno y bydd y darpariaethau newydd yn creu rhwystrau i symudedd darparwr rhwng Asiantaethau DMiAU. Rydym yn dadlau bod gofyn i ddarparwr fynd ati i dynnu Diploma o'i Asiantaeth DMiAU flaenorol a'i ddilysu gyda'u Hasiantaeth DMiAU newydd greu mwy o sefydlogrwydd i fyfyrwyr ac ni fydd yn atal darparwyr rhag newid Asiantaethau DMiAU. Nid oes gofyniad i ddarparwr ddarparu ei holl ddarpariaeth Mynediad i AU gydag un Asiantaeth DMiAU yn unig, felly ni fydd rhwystr i drefniadau effeithiol ar gyfer cau cyrsiau a'u 'haddysgu allan'. Mae'r Amod newydd yn caniatáu trefniadau mwy eglur.

243 Yn olaf, rydym wedi cymryd adborth i ystyriaeth ynghylch y ffordd yr ydym wedi egluro cyfrifoldebau'r Asiantaeth DMiAU, ac rydym wedi addasu geiriad paragraff 69 i esbonio mai'r Asiantaethau DMiAU sy'n gyfrifol am sicrhau bod darparwyr yn mynd ati i dynnu allan yn gywir o un o'r Asiantaethau DMiAU a dilysu gydag un arall. Hefyd, ychwanegwyd gofyniad i'r amod hwn ynglŷn â rhoi gwybod i'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyrwyr am unrhyw sancsiynau perthnasol sydd ar y darparwr, ar adeg trosglwyddo (gwelwch hefyd Amod C1):

- "Os bydd un o'r darparwyr eisiau symud ei ddarpariaeth Mynediad i AU o un Asiantaeth DMiAU i un arall, [mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y darparwr yn gwneud] trefniadau i dynnu ei ddarpariaeth yn ei hôl oddi wrth yr Asiantaeth DMiAU bresennol a mynd drwy broses yr Asiantaeth DMiAU newydd o gymeradwyo a dilysu darparwyr."
- "Ar adeg trosglwyddo cwrs, os bydd Asiantaeth DMiAU wedi gorfodi sancsiwn ar Ddarparwr yn unol ag Amod C2, mae'n rhaid iddi roi gwybod am y sancsiwn hwnnw i'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y cwrs."

244 Ein nod cyffredinol yw egluro i bob parti beth yw'r dulliau o drosglwyddo Diplomâu a chyrsiau ac ymraniad y cyfrifoldebau fel bod y broses briodol yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, waeth beth yw'r sefyllfa, yn cynnwys ymadawiad annisgwyl â'r farchnad, lle mae profiad y dysgwyr cofrestredig yn hollbwysig.

## Amod E: Gosod, darparu a safoni asesiadau

245 Rhoddodd chwech o'r ymatebwyr nifer o sylwadau am yr adran hon. Roedd rhai o'r sylwadau'n sôn eto bod angen arweiniad a'u bod yn gweld achosion o ailadrodd. Mae'r sylwadau wedi eu hystyried yn fanwl o dan yr Amodau unigol.

### Amod E1: Gweithredu trefniadau safoni a sicrhau cydraddoldeb

246 Gofynnodd un o'r ymatebwyr am fanylion y dull penodol y bydd QAA yn ei ddefnyddio i fonitro'r gofyniad i Asiantaethau DMiAU sicrhau bod safonwyr yn ymgysylltu â phenderfyniadau asesu a graddio cyn i'r myfyriwr gwblhau 30 credyd o astudio. Maen nhw'n nodi'r angen am gynllunio'n ofalus er mwyn helpu i gynnal safonau heb gynyddu'r costau, yn enwedig lle cynigir darpariaeth gyda phatrymau cofrestru hyblyg.

### Amod E2: Cynllunio asesiadau

247 Derbyniwyd sylwadau gan bedwar ymatebydd mewn perthynas â rolau'r Asiantaethau DMiAU a'r darparwyr mewn cynllunio asesiadau. Nododd y sylwadau ddiffyg eglurder ynglŷn â rôl yr Asiantaethau DMiAU yn y gwaith o gynllunio a gosod asesiadau. Awgrymodd un o'r ymatebwyr ychwanegiad i'r Amod er mwyn gwella dealltwriaeth. Fodd bynnag, cyfeiriodd bob ymatebydd at bwysigrwydd rôl yr Asiantaeth DMiAU, drwy ei phrosesau sicrhau ansawdd, i sicrhau cynnwys yr asesiadau a safonau'r Diploma. Rhoddodd un arall o'r ymatebwyr sylw am yr

'ailadrodd diangen', trwy gyfeirio at y Cynllun Graddio a'r baich rheoleiddiol ychwanegol roedden nhw'n ei weld ar Asiantaethau DMiAU wrth fonitro eu cydymffurfiad â'r Amodau.

248 Mewn perthynas â hygyrchedd yr asesiadau a'r gofyniad sy'n rhan o'r Amod i gydymffurfio â darpariaethau perthnasol *Deddf Cydraddoldeb 2010*, argymhellodd un o'r ymatebwyr y dylid tynnu'r cyfeiriad at y Ddeddf benodol. Hefyd, awgrymodd yr ymatebydd bod angen amod ychwanegol sy'n gofyn i Asiantaethau DMiAU sicrhau bod eu darparwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn y cyswllt hwn.

**Ein hymateb**

249 Fel y nodwyd ym mharagraff 109 uchod ac mewn mannau amrywiol, mae'r Amodau arfaethedig yn efelychu rhai darnau o wybodaeth sydd wedi eu lleoli mewn rhannau eraill o'r Cynllun Cydnabod ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny yw ein bod yn barnu ei fod yn well ei gael yn yr Amodau ac, fel addasiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad, bydd y gofynion hyn yn cael eu tynnu o ddogfennau eraill unwaith y bydd y fframwaith cyflawn yn cael ei ail-gyhoeddi. Mewn achosion eraill lle gallai rhywfaint o ailadrodd ddigwydd o ran mynegiant, awgrymwn mai'r rheswm am wneud hyn yw er mwyn bod yn eglur ac i roi'r naws cywir, yn hytrach na bod yn ailadroddiad dim ond er mwyn ailadrodd, ac i sicrhau bod modd cymhwyso a gorfodi'r gofynion yn ymarferol.

250 Wedi i ni ystyried y sylwadau am Amod E2 (Cynllunio asesiadau), newidiwyd geiriad paragraffau 75 a 76 i ddarparu'r eglurhad y gofynnwyd amdano. Dyma'r geiriad diwygiedig ar gyfer paragraff 75:

- "[Dylai'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys pob asesiad…] yn cyfateb â gofynion y Cynllun Graddioar gyfer Mynediad i AU."

251 Ychwanegwyd cyfeiriad at y Cynllun Graddio ym mharagraff 76. Cafodd hyn ei gynnwys er mwyn eglurder ac, fel y nodwyd uchod, i sicrhau bod modd gosod y gofynion a'u gorfodi wrth weithredu.

252 Dyma eiriad diwygiedig paragraff 76:

- "Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr bod y prosesau o gynllunio a gosod asesiadau'n cydymffurfio â darpariaethau perthnasol *Deddf Cydraddoldeb 2010*, yn cynnwys y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol."

**Amod E3: Camymddwyn academaidd (gan gynnwys mewn perthynas ag offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol)**

253 Mae'r sylwadau a roddwyd am Amod E3 yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnwys deallusrwydd artiffisial, a nododd yr ymatebwyr bod hwn yn faes newydd i'w reoleiddio a fydd yn gofyn cydweithrediad parhaus â QAA a'r Asiantaethau DMiAU. Mae un o'r ymatebwyr yn nodi y byddai angen canllawiau i gefnogi Asiantaethau DMiAU i wybod beth fyddai'n ddefnydd derbyniol o offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae un sylw gan un o'r ymatebwyr yn awgrymu hefyd bod y ffocws a roddir ar addysg bellach yn y DU yn rhy eang mewn perthynas â'r gofynion i Asiantaethau DMiAU roi ystyriaeth i ganllawiau perthnasol QAA, y ddeddfwriaeth berthnasol a'r dulliau perthnasol a ddefnyddir ym maes addysg bellach. Roedd yr un ymatebydd eisiau eglurhad am ystyr y term 'twyll contract'.

**Ein hymateb**

254 Rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr am eu sylwadau ynglŷn ag Amod E3 ac, mewn ymateb i'r awgrym y bydd angen cydweithredu a thrafod parhaus rhwng QAA a'r Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â'r maes rheoleiddio newydd hwn, rydym yn cadarnhau ein bod yn fodlon hwyluso'r gwaith o rannu arferion yn y cyswllt hwn. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cais am ragor o ganllawiau ynglŷn â beth sy'n ddefnydd derbyniol o offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Rydym yn ystyried bod hwn yn faes lle mae angen gofyn barn yr Asiantaeth DMiAU

unigol er mwyn iddynt allu gweithredu mewn ffordd hyblyg ac mewn ffordd sydd o fudd i'w cyd-destunau unigol eu hunain. Fodd bynnag, i gydnabod effaith bosibl y technolegau hyn mewn camymddygiad academaidd, ynghyd â pha mor gyflym y maen nhw'n cael eu datblygu, rydym yn cynnig cyfeirio at ddogfennaeth berthnasol a ddatblygir gan QAA a sefydliadau eraill. Yn y cyswllt hwn, rydym wedi diwygio geiriad paragraff 80 Amod E3 i gyfeirio at 'addysg drydyddol' yn lle 'addysg bellach', er mwyn cydnabod y sylw a dderbyniwyd a'r amrywiaeth eang o arweiniad ac esiamplau o arfer da sydd ar gael ar draws y sector y bydd Asiantaethau DMiAU eisiau ystyried rhai ohonynt wrth ddatblygu a chynnal eu safbwynt polisi am ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn asesiadau. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw addasiadau eraill i'r Amod hwn.

**Amod E4: Safoni**

255 Nodwn y sylwadau a gafwyd gan un o'r ymatebwyr drwy ei ymatebion i gyd i'r ymgynghoriad mewn perthynas ag 'ailadrodd diangen'. Mae'r ymatebydd yn tynnu sylw'n benodol at y cyfeiriad at y Cynllun Graddio ym mharagraff 85 Amod E4, gan roi sylw am y baich rheoleiddiol ychwanegol y mae'n ei ragweld i Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â monitro eu cydymffurfiad â'r Amodau.

256 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol mewn perthynas â'r Amodau yn ymwneud â safoni mewnol. Holodd un o'r ymatebwyr pam nad oedd manylion yn yr Amodau am amseriad y gweithgareddau safoni allanol cyntaf, gan nodi mor bwysig yw cefnogi rhaglenni a darparwyr newydd, a buddiannau gorau'r myfyrwyr.

257 Gofynnodd un o'r ymatebwyr a yw geiriad paragraff 83.1 Amod E4.3 yn rhy gul, gan nodi ei fod yn rhoi'r argraff y byddai athrawon cyrsiau TGAU wedi eu rhwystro rhag bod yn safonwyr. Mae'r ymatebydd yn awgrymu diwygio geiriad yr Amod i ddiddymu'r gofyniad i safonwyr fod â phrofiad mewn addysgu ac asesu ym meysydd addysg i oedolion, addysg bellach neu addysg uwch. Gofynnodd ymatebydd arall beth oedd ystyr y gair 'cyfredol' mewn perthynas â'r gofyniad i feddu ar 'wybodaeth berthnasol a chyfredol mewn meysydd astudio'.

258 Nododd un o'r ymatebwyr bod diffyg eglurder ym mharagraff 84.2 Amod E4.4 "beirniadu pa mor gymaradwy yw'r safonau mewnbwn ac allbwn ar draws y ddarpariaeth sydd dan sylw yn eu gwaith safoni", a gofynnodd a fyddai modd diwygio geiriad yr Amod.

259 Dywedodd un o'r ymatebwyr bod y gofynion sydd wedi eu disgrifio ym mharagraff 87 Amod E4.5 yn rhy fanwl ac awgrymodd y byddai'n well eu rhoi mewn dogfennau arweiniad am fod y wybodaeth yn ymwneud â gwaith gweithrediadol.

**Ein hymateb**

260 Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sylwadau'r ddau ymatebydd am benodolrwydd yr Amodau; un yn gofyn am ragor o wybodaeth am amseriad yr ymweliad safoni cyntaf, y llall yn awgrymu bod gormod o fanylion ynddo am y camau y dylai'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd mewn perthynas ag adroddiadau safonwyr. Gan gydnabod y pryderon go iawn ynglŷn ag amseriad y gweithgareddau safoni allanol cyntaf, ni fwriadwn wneud unrhyw newidiadau i Amod E4.2 oherwydd ystyriwn fod lefel y penodolrwydd yn briodol mewn dull o reoleiddio ar sail egwyddorion. Bydd y dull hwn sydd wedi ei seilio ar egwyddorion yn caniatáu i Asiantaethau DMiAU ddangos cydymffurfiad mewn ffyrdd sy'n addas i'w sefydliad, eu darparwyr a'u myfyrwyr. Hefyd, rydym eisiau tynnu sylw at y gofyniad ym mharagraff 74.1 Amod E1 i ganiatáu i safonwyr ymwneud â phenderfyniadau asesu a graddio cyn i'r myfyriwr gwblhau 30 credyd o astudio a ddylai helpu i ryw raddau i dawelu pryderon yr ymatebydd ynglŷn â buddiannau'r myfyrwyr. Mewn perthynas â'r sylwadau ynglŷn â gormod o fanylion ym mharagraff 87 Amod E4.5, rydym wedi diwygio geiriad yr amod i ddisodli manylion gofynion penodol gyda gofyniad i Asiantaethau DMiAU fod â phrosesau ar waith i ymateb yn brydlon i adroddiadau safonwyr. Dyma'r geiriad diwygiedig:

- "Dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod ganddi brosesau i ymateb yn brydlon i bob adroddiad safonwr unigol a'i bod yn gweithredu'r prosesau hynny."

261 Fel yr awgrymwyd, rydym yn bwriadu cynnwys rhagor o fanylion yn y canllawiau perthnasol ynglŷn â pha ymddygiad allai gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n cydymffurfio, er enghraifft rhoi copïau o adroddiadau i aelodau priodol o staff a thynnu sylw at faterion penodol o fewn amseriadau priodol.

262 Wedi i ni ystyried y sylwadau am baragraff 83.1 Amod E4.3, rydym yn ystyried bod y gofyniad hwn yn briodol ac y byddai'r profiad perthnasol sy'n ofynnol i safonwyr ar gyrsiau Mynediad i AU Lefel 3 yn cynnwys profiadau safonwyr ym meysydd addysg i oedolion, addysg bellach ac/neu addysg uwch. Rydym yn cydnabod y gallai hyn hefyd gynnwys y rheiny sydd wedi addysgu ar gyrsiau Lefel 2 neu TGAU os yw'r profiad hwn yn berthnasol i'w gweithgareddau safoni ac os oes gan yr unigolyn hefyd brofiad mewn addysgu ac asesu'r cymwysterau eraill hyn ym meysydd addysg i oedolion ac addysg bellach. Ni fwriadwn wneud unrhyw addasiadau i baragraff 83.1 Amod E4.3.

263 Mewn ymateb i sylwadau bod paragraff 84.2 Amod E4.4 yn aneglur, rydym wedi diwygio'r testun i fod yn fwy eglur. Dyma'r testun diwygiedig:

- "beirniadu pa mor gymaradwy yw safonau mewnbwn ac allbwn asesiadau ar draws y ddarpariaeth sydd dan sylw yn eu gwaith safoni."

264 Bydd rhagor o eglurhad yn y canllawiau, ynghyd â manylion ymddygiad sy'n debygol, ac ymddygiad sy'n annhebygol, o gydymffurfio â'r amod hwn. Bydd y canllawiau hyn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y sylwadau am:

- reoli cyfranogaeth safonwyr cyn cwblhau 30 credyd
- sicrhau bod safonwyr yn meddu ar wybodaeth gyfredol mewn meysydd astudio (yn ein barn ni, mae hyn yn fater gweithredol).

## Amod F: Dyfarnu'r cymhwyster

### Amod F1: Cydnabod cymwysterau

265 Dim ond gan un o'r Asiantaethau DMiAU y cawsom sylwadau am yr amod hwn.

*F1.1 - Gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU*

266 Roedd yr Asiantaeth DMiAU yn teimlo bod rhai rhannau o Amod F1.1 wedi eu geirio'n wael a bod ganddynt y potensial i achosi oedi yn y gwaith o brosesu dyfarniadau terfynol. Aethant ymlaen i esbonio bod argymhellion a wneir gan ddarparwyr ar gyfer dyfarniadau, yn cael eu safoni gan yr Asiantaeth DMiAU ac yna eu cytuno'n ffurfiol gan y Bwrdd Dyfarnu Terfynol. Yn benodol, roeddent yn gofyn bod y gair 'argymhelliad' yn cael ei newid i 'cadarnhad'.

### Ein hymateb

267 Nid ydym wedi newid geiriad yr Amod am nad yw'n cynrychioli trefn i'r broses. Bwriad yr Amod yw hyrwyddo safoni amserol er mwyn sicrhau y cedwir y safonau. Er bod aelodaeth, gweithrediad a chyfrifoldebau Bwrdd Dyfarnu Terfynol wedi eu disgrifio yn Adran E y Cynllun Graddio Mynediad i AU cyfredol (Deilliannau Myfyrwyr a Byrddau Dyfarnu), mae'r broses o gynnal Bwrdd Dyfarnu Terfynol yn fater i'r Asiantaeth DMiAU ei ddiffinio. Nid ydym yn ystyried bod hyn yn ofyniad i Asiantaethau DMiAU newid eu trefniadau cyfredol.

*F1.2 - Ardystio*

268 Ni chawsom unrhyw sylwadau penodol am Amod F1.2. Er hynny, rydym wedi newid un o'r cymalau fel ei fod yn cyfeirio'n eglur at y Cynllun Graddio. Gwnaed yr addasiad hwn mewn ymateb i sylw a wnaed gan un o'r Asiantaethau DMiAU am Amod F1.3, fel y trafodir yn fanylach isod.

*F1.3 - Trawsgrifiad o gyflawniad*

269 Derbyniwyd un sylw am y gofyniad i gyflwyno trawsgrifiad o gyflawniad dim ond i'r myfyrwyr hynny sydd wedi cyflawni llai na 60 credyd. Mae'r ymatebydd yn nodi nad oes unrhyw sôn am ddyfarnu graddau aegrotat neu raddau ar ôl marwolaeth.

**Ein hymateb**

270 Ystyriwn mai'r lle gorau i gynnwys dyfarniadau graddau aegrotat a graddau ar ôl marwolaeth yw yn Amod F1.2 (Ardystio). Felly, rydym yn cynnig diwygio Amod F1.2 i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Graddio er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r trawsgrifiad cyflawniad a'r dyfarnu graddau aegrotat neu raddau ar ôl marwolaeth. Dyma'r geiriad diwygiedig ar gyfer Amod 1.2:

- "Dylai pob Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr ei bod yn cyflwyno tystysgrif Diploma Mynediad i AU i bob myfyriwr sydd wedi ennill y Diploma Mynediad i AU fel y'i cymeradwywyd gan *ei bwrdd dyfarnu terfynol ac yn unol â'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch*."

271 Mae hyn yn cynnwys dyfarnu graddau aegrotat, a allai gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Dyfarnu lle mae amgylchiadau meddygol eithriadol esgusodol ardystiedig yn bodoli sydd wedi golygu nad yw'r myfyriwr yn gallu cwblhau gofynion y cwrs a bod y myfyriwr wedi cyflawni o leiaf 30 o'r credydau sy'n ofynnol ar gyfer y Diploma Mynediad i AU. Mewn achosion o'r fath, gellir dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU heb y nifer gyflawn o gredydau a bydd y proffil graddio a'r proffil uned yn anghyflawn.

## Y trefniadau monitro

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y trefniadau monitro yr ydym yn bwriadu eu gweithredu yn rhan o'r Cynllun Cydnabod diwygiedig?**

### Sylwadau cyffredinol

272 Cafwyd nifer o ymatebion cadarnhaol i'r cynigion am y Trefniadau Monitro. Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn croesawu'n arbennig y cynnig i symleiddio'r trefniadau a hefyd y dull a awgrymwyd mewn perthynas â beirniadaethau rheoleiddio (am risg) ac ail gydbwyso dirprwyaethau rhwng y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU a'r tîm gweithredol Mynediad i AU. Nodwyd bod y cynigion ar gyfer monitro'n ymddangos yn gymesur a chytbwys, er y byddai eglurder ac amseroldeb canllawiau a phrosesau'n sicrhau bod y baich wedi ei gadw mor fach ag y bod modd. Er mwyn symleiddio'r trefniadau, awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylid cynnwys yr holl ganllawiau mewn un ddogfen yn hytrach nag ar draws nifer o ganllawiau fel y gwnawn yn awr.

273 Roedd rhai wedi ateb gyda'r geiriau 'dim sylw' neu wedi ateb i ddweud na allent roi sylwadau'n llawn am nad oedd digon o fanylion. Rhoddwyd esiampl trwy gyfeirio at Amod B4, a gofyn sut y gallai QAA asesu perfformiad yr Asiantaeth DMiAU mewn perthynas â chymeradwyo a dilysu cyrsiau Diploma. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai QAA gynnal cyfnod pellach o ymgynghori ar y cynigion, ac awgrymodd un arall nad oedd y dull cyffredinol wedi newid.

274 Mewn ymateb i'r datganiad ym mharagraff 64 yr ymgynghoriad am bwysigrwydd diben y Diploma, roedd un o'r ymatebwyr wedi tynnu sylw at gefnogaeth mewn perthynas ag ymdrechion QAA i egluro'r diben hwn, ond mynegwyd pryder y gallai'r diffiniad arfaethedig danseilio ei werth yn anfwriadol drwy ddefnyddio iaith negyddol, gan ddarlunio'r myfyrwyr fel rhai heb y cymwysterau gofynnol.

275 Lle nodir y *Cynllun Pryderon Mynediad i AU* (y 'Cynllun Pryderon') yn yr ymgynghoriad fel ffynhonnell arall o wybodaeth fonitro (paragraff 70), mynegodd un o'r ymatebwyr bryder ynglŷn ag eglurder QAA. Maen nhw'n nodi bod diffyg manylion am y Cynllun Pryderon, a'i fod wedi ei gyhoedd ym mis Chwefror 2024 heb gyfathrebiad ffurfiol i Asiantaethau DMiAU.

**Ein hymateb**

276 Rydym yn cytuno â'r awgrym y dylid nodi'r Trefniadau Monitro mewn un ddogfen, a byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen hon ochr yn ochr â dogfennaeth y Cynllun Cydnabod wedi'i chymeradwyo. Dyma fydd hon: '*Y Trefniadau Monitro Mynediad i AU*'. Byddwn yn parhau i gyflwyno canllawiau o bryd i'w gilydd am y wybodaeth benodol sy'n ofynnol i asesu cydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r Amodau, ac am y broses yr ydym yn bwriadu ei defnyddio i asesu Amodau penodol.

277 Rydym yn anghytuno, yn rhannol, gyda'r honiad nad yw ein cynigion yn cynrychioli unrhyw newid i'r Trefniadau Monitro. Mae'n wir nad yw QAA wedi ceisio gwneud newidiadau i'r trefniadau cyfredol dim ond er mwyn gwneud newid neu wedi ychwanegu nifer o brosesau neu ofynion ychwanegol. Felly, mae rhai elfennau o'r trefniadau cyfredol yn parhau i fod yn eu lle, er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng monitro cylchol a monitro mwy eithriadol megis ymchwilio. Ystyriwn fod y cynigion cyfredol yn mynd ati i geisio newid y ffordd y mae hyn wedi ei osod allan, hynny yw y bydd y prosesau wedi eu hesbonio'n glir yn y parth cyhoeddus ac yn nodi'r berthynas rhwng amrywiol elfennau'r fframwaith. Yn ogystal, ystyriwn fod y cynigion yn cynrychioli gwell esboniad o'r ffordd y mae QAA yn bwriadu ymdrin â materion rheoliadol ac mae'n nodi'n eglur gasgliad o gyfryngau ac ymyriadau rheoleiddio y gellir eu defnyddio mewn perthynas â chydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU.

278 Fel y dywedwyd yn gynharach yn ein hymateb, am mai'r dull yma sydd o dan sylw yn yr ymgynghoriad yn hytrach na'r gofynion i wneud cyflwyniadau unigol, nid oes arweiniad ar gael ar hyn o bryd am y gofynion hyn ac, yn wir, mae'n dibynnu ar gymeradwyo'r Cynllun Cydnabod. Tra byddwn yn cynnal ymgynghoriad ychwanegol ar ein cynigion am y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (gwelwch isod), ni fyddwn yn ymgynghori ymhellach am y trefniadau yn gyffredinol na'r canllawiau gweithredol. Fodd bynnag, bydd cyfle i Asiantaethau DMiAU ofyn cwestiynau am y canllawiau er mwyn sicrhau dealltwriaeth.

279 Mewn perthynas â'r diffiniad o'r Diploma, rydym wedi cytuno â rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd gennym ar y mater hwn ac rydym wedi nodi ein hadolygiad uchod (paragraff 23) mewn ymateb i adborth i Gwestiwn 1.

280 Ail-gyhoeddwyd y *Cynllun Pryderon Mynediad i AU* ym mis Chwefror 2024 ac mae'n fersiwn wedi ei ddiweddaru o weithdrefn oedd yn bodoli'n barod a'r enw blaenorol arno oedd y 'Cynllun ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Phryderon'. Adolygwyd hwn fel ei fod yn alinio'n gywir â pholisïau a gweithdrefnau ehangach QAA ac nid oedd angen gwneud ymgynghoriad arno. Er mai cyfrifoldeb yr Asiantaethau DMiAU eu hunain yw ymgyfarwyddo â dogfennaeth allweddol, derbyniwn fel un pwynt a godwyd mewn adborth ei bod hi'n ddefnyddiol cyfathrebu diweddariadau ar ddogfennaeth o'r fath yn uniongyrchol i'r Asiantaethau DMiAU a byddwn yn gwneud cynlluniau i sicrhau y cynhwysir hyn mewn cyfathrebu arferol.

## Baich

281 Lleisiwyd pryder ynghylch y ffaith y byddai effaith ar ddarparwyr os byddai Asiantaethau DMiAU yn gorfod defnyddio mwy o adnoddau er mwyn bodloni gofynion monitro.

282 Hefyd, gofynnodd un o'r ymatebwyr am ragor o eglurhad ynglŷn â sut y bydd y trefniadau monitro'n gostwng y llwyth gwaith gweinyddol, gan nodi eu bod yn teimlo bod angen cyflwyno mwy o ddata o dan y gofyniad cyfredol nag y maen nhw'n ei ddarparu i gyrff rheoleiddio eraill mewn perthynas â chymwysterau eraill.

**Ein hymateb**

283 Yn y fan yma, hoffem bwysleisio'r ffaith bod gwahaniaeth rhwng y gofyniad am gyflwyno data a'r fframwaith rheoleiddio lle gallai'r gofynion am ddata gael eu newid o bryd i'w gilydd mewn ymateb i angen. Mae'r trefniadau monitro, ar y llaw arall, yn nodi'r dull monitro nad oes modd ei newid unwaith y mae wedi ei gymeradwyo, heblaw os ymgynghorir arno. Rydym wedi nodi ein bod yn mynd i adolygu a diweddaru ein gofynion am gyflwyno data'n flynyddol, gan ystyried unrhyw newidiadau i drefniadau monitro'r Cynllun Cydnabod, er mwyn lleihau unrhyw ailadrodd dianghenraid a sicrhau bod yr holl geisiadau'n gymesur â'r angen. Byddem yn gobeithio y byddai hyn yn lleihau unrhyw faich ar Asiantaethau DMiAU a'r effaith ddilynol ar y darparwyr. Byddwn yn parhau i roi gwybodaeth am ofynion cyflwyno mewn canllawiau.

## Y datganiad strategol

284 Roedd y sylwadau oedd yn ymwneud â'r adran strategol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn sylwadau cymysg. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y byddai'r datganiad yn gyffredinol fuddiol ond gofynnodd am sicrhad na fyddai gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif yn cael ei rhannu'n gyhoeddus. Roedd y sylwadau a wnaed am y datganiad strategol mewn rhannau eraill o'r ymateb i'r ymgynghoriad wedi eu hailadrodd hefyd, er enghraifft teimlwyd ei fod yn amhriodol i QAA gymeradwyo'r datganiad. Gofynnwyd i QAA gadarnhau pryd y bydd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r datganiad strategol.

285 Awgrymwyd hefyd y dylai QAA gael ei datganiad strategol ei hun a'i rannu.

**Ein hymateb**

286 Yn ein hymateb uchod, rydym wedi mynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif a chymeradwyo'r datganiad. Rydym yn dweud eto na fydd QAA yn gofyn i Asiantaethau DMiAU rannu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol yn eu datganiadau strategol oherwydd rydym yn bwriadu iddo fod yn rhywbeth a allai gael ei gyhoeddi.

287 Fel y disgrifir ym mharagraff 66 y ddogfen ymgynghori, bydd QAA yn adolygu a chymeradwyo'r datganiad strategol:

- pryd bynnag y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn gwneud cais neu y bydd gofyn iddi wneud cais am gael ei hail-drwyddedu fel Asiantaeth DMiAU
- ar unrhyw adeg arall pan fydd yr Asiantaeth DMiAU yn gwneud unrhyw benderfyniad a allai effeithio ar gynnwys neu gywirdeb Datganiad Strategol sydd wedi ei gymeradwyo'n barod, neu
- ar unrhyw adeg benodol ar gais ysgrifenedig gan QAA i'r Asiantaeth DMiAU.

288 Er ein bod yn glir y bydd natur datganiad strategol QAA mewn perthynas â Mynediad i AU yn wahanol i ddatganiad strategol Asiantaethau DMiAU (ac felly, fel y nodir uchod, ni fyddai datganiad ar y cyd yn briodol), ein bwriad yw cymryd hyn yn ei flaen yn rhan o'r broses o weithredu'r trefniadau rheoleiddio newydd hyn.

## Trwyddedau cyfnod penodol

289 Awgrymwyd bod cyflwyno trwydded cyfnod penodol yn ymddangos yn fonitro dwysach 'drwy'r drws cefn' ac yn mynd yn groes yn ei hanfod i ddull o reoleiddio ar sail egwyddorion. Yn debyg i sylwadau ar bwnc trwyddedau cyfnod penodol mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, defnyddiodd nifer o'r Asiantaethau DMiAU eu hymatebion i'r cwestiwn hwn i gadarnhau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig hwn, ac i fynegi pryder am yr amserlen sydd wedi ei nodi eisoes yn yr ymgynghoriad.

**Ein hymateb**

290 Mae ymateb i'r pryderon hyn i'w gael mewn rhannau eraill o'r ymateb i'r ymgynghoriad ac mae QAA yn barnu eu bod yn fwy priodol yn y mannau hynny yn y mwyafrif o achosion (gwelwch yn arbennig yr adrannau am drwyddedau cyfnod penodol a threfniadau pontio a gweithredu).

291 Mewn perthynas â'i gynnwys yn y trefniadau monitro, nid ydym yn cytuno bod trwyddedau cyfnod penodol yn cynrychioli trefniant llechwraidd i gynyddu neu ddwysáu'r monitro. Bwriad y cynigion cyfredol yw sicrhau tryloywder cyflawn i'r rhanddeiliaid i gyd ac ystyriwn fod trwyddedau cyfnod penodol yn erfyn y gallwn ei ddefnyddio i gyflawni ein cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma yn y ffordd fwyaf effeithiol.

292 Ymhellach, nid ydym yn cytuno bod cyflwyno trwyddedau cyfnod penodol yn mynd yn groes i reoleiddio ar sail egwyddorion ac rydym yn dadlau yn hytrach ei bod yn ei gefnogi. O dan gynllun sydd wedi ei seilio ar reolau, fel yr un sydd ar waith ar hyn o bryd, gall fod yn heriol rheoli risgiau mewn ffordd fwy graddedig sy'n ystyried cyd-destun ac yn caniatáu ymddiriedaeth, ac ar hyn o bryd, yr unig sancsiwn ffurfiol sydd ar gael i QAA yw tynnu trwydded yn ei hôl. Bydd trwyddedau cyfnod penodol o fudd i Asiantaethau DMiAU oherwydd maen nhw'n caniatáu i bob parti ddeall yn glir pryd y mae agweddau penodol o Delerau eu trwydded a'r Amodau'n mynd i gael eu hystyried, ac mae'r trefniadau monitro'n darparu fframwaith eglur ar gyfer rheoli risgiau mewn ffordd gymesur os daw pryder i'r amlwg.

## Sgorau risg

Unwaith eto, roedd yr ymatebion mewn perthynas â sgorau risg yn gymysg ac roedd nifer o'r Asiantaethau DMiAU a ymatebodd yn bryderus am eu cyhoeddi. Awgrymwyd y gellid cynnal hyder y cyhoedd yn y Diploma'n well drwy gyhoeddi camau gweithredu rheoleiddiol, yn hytrach na sgorau risg ac mae hynny'n cyfateb yn well â dulliau cyrff rheoleiddio eraill. Awgrymodd un arall y dylai cadarnhau trwydded fod yn ddigonol ar ei ben ei hun, ac y dylai'r holl wybodaeth reoleiddiol arall fod yn breifat.

293 Gofynnwyd beth oedd gweithdrefnau QAA ar gyfer cyflwyno sgorau risg, a pha hyfforddiant fyddai'n cael ei roi i adolygwyr QAA i benderfynu ar y sgorau risg er mwyn sicrhau cysondeb.

**Ein hymateb**

294 Mae ymateb i'r pryderon a godwyd ynglŷn â chyhoeddi sgorau risg, a chynnig i gyhoeddi 'beirniadaethau rheoleiddio' wedi eu nodi uchod (gwelwch yr adran 'Elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod', paragraffau 20 i 23).

295 Mewn perthynas â'r ymholiadau am weithdrefnau a hyfforddiant, bwriad QAA yw y bydd yr holl weithgareddau rheoleiddio wedi eu gwneud gan swyddogion y tîm Mynediad i AU, ac eithrio cymeradwyo trwyddedau a'u tynnu yn eu hôl, a fydd yn gofyn goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Rheoleiddio a thrwyddedu Mynediad i AU a Bwrdd QAA. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond y rheiny sydd â gwybodaeth arbenigol am y Cynllun Cydnabod a'r Diploma fydd yn gwneud asesiadau ac argymhellion a phenderfyniadau penodol o dan awdurdod dirprwyedig. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol ac amserol, gan wneud pethau'n fwy sicr i Asiantaethau DMiAU, a gwneud yn siŵr y defnyddir goruchwyliaeth llywodraethu lle mae hynny fwyaf priodol wrth weithredu'r fframwaith.

## Cwestiynau

296 Gofynnwyd nifer o gwestiynau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- A fydd proses apelio ar gyfer sgorau risg a phenderfyniadau rheoleiddiol eraill a wneir gan QAA.
- A fydd QAA yn gallu darparu diffiniadau clir o beth yw risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad.
- Beth yw ystyr y gair 'amhriodol' yng nghyd-destun penderfynu a fydd QAA yn rhannu gwybodaeth am gamau gweithredu rheoleiddiol a gymerir, ac a yw QAA yn bwriadu rhannu manylion y darparwyr perthnasol gyda'r cyhoedd lle bo'n berthnasol.

**Ein hymateb**

297 Bydd proses apelio'n digwydd, sy'n ymwneud ag ymyriadau rheoleiddio a hyd cyfnod dilysrwydd y drwydded.

298 Bydd esboniadau am ein barn ni am risg wedi eu nodi yn y canllawiau. Yn gyffredinol, byddwn yn gweld bod Asiantaeth DMiAU dan risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad â Thelerau ei thrwydded a'r Amodau os oes tystiolaeth i ddangos ei bod, neu y bydd, yn methu bodloni gofynion unrhyw elfen o'r Cynllun Cydnabod. Bydd y dull o reoli'r risg hwn wedi ei hysbysu drwy ystyried ei natur, ei ddifrifoldeb, ei debygolrwydd a'i effaith, gan gymryd amrywiaeth o wybodaeth, cyd-destun a chymesuredd i ystyriaeth.

## Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio

**Dyma oedd ein cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bryderon am yr effaith y bydd y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cydnabod yn ei chael ar ofynion Manyleb y Diploma neu'r Cynllun Graddio wrth eu gweithredu?**

### Sylwadau cyffredinol

299 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r bwriad i symleiddio'r dogfennau rheoleiddiol.

300 Awgrymodd un o'r ymatebwyr eu bod yn barnu bod gofynion Manyleb y Diploma wedi eu dyblygu yn yr Amodau a bod ailadrodd diangen rhwng dogfennau arfaethedig y Cynllun Cydnabod.

301 Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am natur y newidiadau a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, lle mae QAA yn cynnig gwneud diweddariadau bach i Fanyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio. Mynegwyd pryder am effaith a chost posibl gwneud unrhyw newidiadau i'r dogfennau hyn.

302 Gofynnodd un o'r ymatebwyr sut y bydd yr Amodau newydd yn sicrhau y cynhelir egwyddorion craidd y Cynllun Graddio'n effeithiol, yn y ffaith ei fod yn bwriadu sicrhau bod graddau a dyfarniadau'n ddilys, yn ddibynadwy ac yn gyson. Yn benodol, maen nhw wedi gofyn a yw QAA yn disgwyl i Asiantaethau DMiAU gymryd unrhyw gamau i sicrhau bod dehongliad y Cynllun Graddio'n gymaradwy ar draws yr Asiantaethau DMiAU. Maen nhw'n nodi bod y termau 'dilys' a 'dibynadwy' wedi eu diffinio ar wahân o dan yr Amod E arfaethedig, ond bod y diffiniad o'r gair 'dibynadwy' yn berthnasol i ddibynadwyedd o fewn, ond nid rhwng, Asiantaethau DMiAU. Maen nhw'n tynnu sylw ymhellach at y ffaith bod hyn wedi derbyn sylw'n barod mewn digwyddiadau safoni, ac maen nhw'n awgrymu y gallai gofyniad i bob Asiantaeth DMiAU gymryd rhan mewn gweithgareddau megis digwyddiadau safoni, neu rannu esiamplau graddio ar gyfer eu safoni'n ganolog, ymdrin a chefnogi'r nod hwn yn y Cynllun Graddio. Fodd bynnag, maen nhw'n nodi y gallai fod yn feichus neu'n annheg ei gwneud hi'n ofynnol i Asiantaethau DMiAU drefnu'r gweithgareddau hyn ymysg eu hunain.

**Ein hymateb**

303 Mae QAA wedi nodi'n glir ei bod yn bwriadu gwneud diweddariadau angenrheidiol yn dilyn y broses ymgynghori er mwyn sicrhau bod holl ddogfennau'r Cynllun Cydnabod yn alinio, a thrwy wneud hynny, symleiddio'r ddogfennaeth. Bydd hyn yn cynnwys cysoni ymhle rydym wedi cynnig symud un o'r gofynion o Fanyleb y Diploma neu'r Cynllun Graddio i'r Amodau. Am nad ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion sydd ym Manyleb y Diploma neu'r Cynllun Graddio, gallai rhywfaint o ailadrodd ymddangos ar hyn o bryd rhwng ein dogfennau cyfredol a'n dogfennau arfaethedig oherwydd byddai'n amhriodol gwneud yr addasiadau canlyniadol cyn i'r broses ymgynghori ddod i ben.

304 Fel y nodir uchod, mae natur y newidiadau hyn yn golygu eu bod yn addasiadau canlyniadol ac yn 'tacluso' yn hytrach na newid unrhyw rai o'r gofynion. Felly, nid yw QAA yn rhagweld y bydd unrhyw addasiadau i ddogfennau eraill y Cynllun Cydnabod yn effeithio ar eu gweithrediad gan yr Asiantaethau DMiAU ar hyn o bryd.

305 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr awgrymiadau a godwyd am y gallu i gymharu'r graddau rhwng y gwahanol Asiantaethau DMiAU. Yn gyffredinol, ni ddarperir Diplomâu sydd â chynnwys unedau yn union yr un fath â'i gilydd ar draws yr Asiantaethau DMiAU, felly mae'n anoddach barnu pa mor ddibynadwy ydyn nhw ar y raddfa hon, a theimlwn y byddai'n broblemus dal Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau ei chysondeb gydag Asiantaeth DMiAU arall. Fodd bynnag, un o'r ffyrdd y gallai QAA adnabod rhywbeth sy'n achosi pryder yw drwy nodi anghysonderau mewn graddio a dyfarnu sy'n sefyll yn amlwg ar draws ein cyfresi data, yn cynnwys data am raddau a dyfarniadau gan Asiantaethau DMiAU ar y cyd. Os byddai pryder yn dod i'r amlwg drwy wneud hyn, mae'n debyg y byddwn yn ystyried hyn mewn perthynas â dilysrwydd yn hytrach na dibynadwyedd, oherwydd gallai Asiantaeth DMiAU fod yn defnyddio'r Cynllun Graddio'n ddibynadwy mewn ffordd nad yw'n ddilys.

306 Cytunwn fod gweithgareddau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pawb ar draws yr Asiantaethau DMiAU yn ymwneud â'r ffordd y gweithredir y Cynllun Graddio'n cefnogi cysondeb safonau, ac felly degwch ac ansawdd yn y ffordd y dyfernir Diplomâu Mynediad i AU, gyda gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi eu llunio i sicrhau safonau cyson. Bwriad QAA yw parhau i gynnig gweithgareddau o'r fath, ac annog Asiantaethau DMiAU a darparwyr i gymryd rhan ynddyn nhw lle bo modd. Felly, rydym yn cytuno â'r awgrym y dylid sicrhau cyfranogaeth yn y cyswllt hwn, ac rydym wedi cynnwys y gofyniad ychwanegol a ganlyn o dan Amod E1:

- "Dylai'r Asiantaeth DMiAU wneud pob ymdrech resymol i gymryd rhan, a sicrhau bod ei darparwyr yn cael cyfle i gymryd rhan lle bo'n berthnasol, mewn gweithgareddau y mae QAA yn gofyn iddynt eu gwneud sy'n weithgareddau sydd â'r nod o hyrwyddo safonau'r *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd ddilys, ddibynadwy a chyson."

## Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol: y dull a'r opsiynau

**Dyma oedd ein cwestiwn: Mewn perthynas â'r cynigion ynglŷn â thrwyddedu, ydych chi'n cytuno y dylem weithredu opsiwn 1 (byddai'n well gennym y dull hwn)? Os nad, pa ddull arall fyddech chi'n ei awgrymu?**

### Cefnogaeth i opsiwn 1

307 Roedd dwy o'r Asiantaethau DMiAU a ymatebodd yn cytuno ag opsiwn 1 (dyfarnu'r drwydded ar gyfer gwlad benodol). Roedd un yn cytuno'n llwyr a'r llall yn cytuno â'r dull hwn ar gyfer y cyfnod peilot yn unig. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hynny nad ydynt yn Asiantaethau DMiAU hefyd yn cytuno ag opsiwn 1.

308 Roedd y rhesymau a roddwyd am gytuno'n cynnwys cytuno mor bwysig yw dangos dull o ddarparu cymwysterau mewn gwlad benodol o ystyried yr amrywiol drefniadau tynn mewn perthynas â darparu cymwysterau rhyngwladol sy'n wahanol mewn gwahanol wledydd. Nodwyd mor bwysig yw 'gwneud pethau mewn ffordd briodol' a gwneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau llwyddiant pob Diploma rhyngwladol, gan nodi natur gystadleuol y farchnad hon. Hefyd, nodwyd nad yw trefniadau a fyddai'n galluogi i'r Asiantaeth DMiAU 'ymuno ar frys heb baratoi' yn drefniadau ymarferol bosibl fel arfer, a bod opsiwn 1 yn adlewyrchu'r gwaith paratoi sy'n ofynnol ar gyfer sefydlu cymwysterau mewn gwledydd tramor. Rhoddwyd Dubai fel esiampl o wlad lle mae angen trefniadau penodol ar gyfer gweithredu.

309 Tynnodd yr ymatebydd sylw at y ffaith bod angen gweithio'n agos ag Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU a thynnodd sylw at yr amrywiaeth o risgiau a phryderon sy'n bodoli mewn perthynas â chymwysterau rhyngwladol ac enw da addysg y DU. Awgrymwyd bod cymwysterau heb eu rheoleiddio oedd wedi eu seilio ar fodel y Diplomâu Mynediad i AU yn gwasanaethu'r farchnad hon yn barod, ac y gallai'r rhain gamarwain defnyddwyr a niweidio'r brand 'Mynediad i AU'. Gofynnwyd sut y mae QAA yn bwriadu ymdrin â sefyllfaoedd fel hyn yn y dyfodol.

310 Awgrymwyd y byddai angen cyfnod peilot ar QAA er mwyn iddi allu mireinio ei hymdriniaeth â'r trefniadau a chaniatáu hyblygrwydd yn unol â'r amrywiol ofynion ar draws y byd. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oeddent yn gallu gweld gwahaniaeth rhwng yr opsiynau a gynigiwyd, a gofynnwyd am ragor o eglurhad am y cynigion.

**Ein hymateb**

311 Cytunwn â'r rhesymau a roddwyd i gefnogi opsiwn 1 oherwydd mae'r rhain yn cyfateb â dealltwriaeth QAA o'r trefniadau ar gyfer cymwysterau rhyngwladol mewn gwledydd gwahanol. Rydym yn parhau i gytuno bod y gofyniad i Asiantaethau DMiAU ddangos cynllun credadwy ar gyfer pob gwlad yn cynrychioli arfer gorau ac yn lleihau nifer o risgiau difrifol i enwau da'r cymhwyster a QAA drwy'r byd i gyd. Nodwn yn arbennig mor bwysig yw prosesau diwydrwydd dyladwy a bod yn sensitif i ofynion pob gwlad unigol wrth ddarparu cymhwyster rhyngwladol.

312 Cytunwn ei bod hi'n bwysig gweithio'n agos â sefydliadau eraill yn y maes hwn, ac rydym yn cadarnhau bod QAA yn cydweithio â'r Adran Busnes a Masnach yn San Steffan mewn perthynas â chymwysterau rhyngwladol a threfniadau addysg drawswladol.

313 Mae QAA yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai cymwysterau'n cael eu cynnig o dan y faner 'rhyngwladol', sy'n debyg i'r Diploma Mynediad i AU Lefel 3, ond nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan QAA. Wrth ddatblygu'r trefniadau hyn, rydym yn ceisio diogelu'r brandiau 'Mynediad i AU' a 'QAA'. Mae rhai o'r trefniadau diogelu sydd gennym yn ein fframwaith yn cynnwys gofynion ynglŷn â defnyddio nodau masnach, a gofynion arfaethedig ynglŷn â gwybodaeth gyhoeddus glir a deunyddiau marchnata clir. Fodd bynnag, nodwn fod ein fframwaith yn caniatáu i ni weithredu o fewn y cylch gwaith hwn yn unig.

## Cefnogaeth i opsiwn 2

314 Mynegodd un o'r Asiantaethau DMiAU ei chefnogaeth i weithredu opsiwn 2 ar ôl cyfnod peilot, a nododd mai dyma fyddai'r dewis opsiwn os na fyddai QAA yn ystyried dewis un o'r awgrymiadau eraill a gynigiwyd.

**Ein hymateb**

315 Ar ôl dadansoddi'r sylwadau a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol (gwelwch feysydd eraill o'r ymateb), rydym yn cytuno â'r awgrym hwn, a byddwn, mewn ymgynghoriad arall, yn cynnig dull o drwyddedu mewn camau ar gyfer darpariaeth ryngwladol sy'n ymgorffori'r ddau. Cynigiwn weithredu opsiwn 1 am gyfnod peilot, ac yna gall Asiantaethau DMiAU drosglwyddo i opsiwn 2 ar ôl y cyfnod peilot. O dan y trefniant hwn, byddant yn gallu cyflwyno cynllun credadwy sy'n berthnasol i bob gwlad ychwanegol y maent yn bwriadu gweithredu ynddi a bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y drwydded. Bydd angen i unrhyw Asiantaeth DMiAU sy'n ymuno ar ôl y cyfnod peilot ddefnyddio'r un dull hwn. Byddwn yn cynnig bod y cyfnod peilot am ddwy flynedd er mwyn sicrhau ei bod yn para dros flwyddyn academaidd gyfan.

## Anghytundeb â'r ddau opsiwn

316 Mynegodd y rhan fwyaf o'r Asiantaethau DMiAU a ymatebodd anghytundeb cryf gyda'r ddau opsiwn. Awgrymodd nifer ohonynt fod diffyg manylion yn y cynigion ar y cam hwn yn golygu ei bod hi'n anodd rhoi sylwadau a nododd un ohonynt nad oedd y trefniadau ariannol wedi eu disgrifio a'i bod hi'n anodd felly i asesu hyfywedd ariannol pob opsiwn. Awgrymodd

rhai ohonynt nad oedd y gwahaniaeth rhwng opsiwn 1 ac opsiwn 2 yn ddigon clir a bod angen rhagor o fanylion ynglŷn â beth yw cynllun credadwy. Roedd pryder ynghylch y posibilrwydd y gallai'r ddau opsiwn a gynigiwyd fod yn eithriadol o feichus a biwrocrataidd.

317 Nododd rhai o'r Asiantaethau DMiAU nad oedd hi'n amlwg beth yw sail resymegol cynigion QAA, na pham na sut y bydden nhw'n ychwanegu budd neu werth i Asiantaethau DMiAU, gan nodi eu bod yn ystyried y gallai'r cynigion fod yn gostus ac y gallai hynny gael effaith ar y ddarpariaeth yn gyffredinol. Dywedodd nifer ohonynt eu bod yn credu mai gyda'r Asiantaethau DMiAU y mae'r holl risgiau'n bodoli sy'n gysylltiedig â Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol.

318 Nodwyd pryder penodol ynglŷn â'r dull a ddefnyddir gan QAA, gan awgrymu nad yw QAA mewn sefyllfa i gymeradwyo gwledydd eu hunain, na gwneud ceisiadau ar gyfer gwlad benodol. Unwaith eto, nodwyd y disgwylid i ddull o'r fath fod yn eithriadol o feichus.

319 Gwnaed nifer o awgrymiadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymu rhoi un drwydded ryngwladol ar gyfer pob gwaith rhyngwladol, ac y dylai'r asesiad ar gyfer y drwydded hon gael ei 'chyfyngu i feysydd generig' yn cynnwys: sicrhau ansawdd; ymdrin â gwahanol ofynion diwylliannol; ymgysylltu lleol; galluedd; diogelu enw da; a rheoli risgiau. Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU y byddai hyn yn adlewyrchu ymddiriedaeth QAA yn yr Asiantaethau DMiAU a'u gallu i weithredu'r meysydd a grybwyllwyd eisoes mewn ffordd briodol. Hefyd, nodwyd ganddynt bod yr awgrym hwn yn ddull sydd wedi ei seilio ar egwyddorion.

320 Awgrymwyd y dylai'r Asiantaethau DMiAU allu gweithredu mewn mwy nag un wlad wedi iddynt ddangos eu dull o weithredu'n rhyngwladol, ond nodwyd hefyd bod hyn y tu hwnt i ofynion cyrff rheoleiddio eraill, a hefyd y ffaith y gallai trefniadau o'r fath ofyn llawer iawn o adnoddau gan QAA.

321 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y ffaith y dylai'r drwydded ryngwladol fod ar wahân i'r drwydded ar gyfer y DU ac y dylai bod cymeradwyaeth i'r drwydded ryngwladol yn amodol ar feddu ar drwydded ar gyfer y DU. Awgrymodd un arall o'r ymatebwyr nad yw'n angenrheidiol cael trwydded ar wahân gydag amodau cysylltiedig ac y gallai'r Cynllun Cydnabod arfaethedig ar gyfer y DU weithio fel sail ar gyfer gweithredu'n rhyngwladol. Mae'r ymatebydd yn awgrymu hyn hefyd - os bydd angen trefnau rheoli ychwanegol, gallai QAA osod amodau sy'n benodol ar lefel y cymhwyster. Gellir gwneud y gwaith monitro drwy adroddiadau data neu adolygiadau thematig o ddarpariaeth ryngwladol.

**Ein hymateb**

322 Rydym yn derbyn nad oedd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn cynnwys manylion trefniadau ariannol a chymerwn fod hyn yn golygu ffioedd sy'n gysylltiedig â gweithredu trwydded ryngwladol. Mae QAA yn bwriadu talu am y buddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r cyfnod peilot, a bydd hyn yn gadael i ni hefyd weithio allan yn gywir faint o gostau y byddwn yn eu hwynebu. Bydd hyn yn ei dro'n galluogi i ni ddatblygu trefn ffioedd briodol. Nid ydym yn cytuno â'r farn y bydd gweithredu ein cynigion yn peri costau sylweddol neu ormodol, er ein bod yn cyfaddef y bydd cynnydd yn naturiol yn yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn gweithredu trefniadau ychwanegol - fel y nodir uchod, bydd y treialu'n caniatáu i ni weld faint yn union fydd y rhain.

323 Nid yw QAA yn ystyried mai nod cyflwyniad y Diploma MiAU Rhyngwladol yw lleihau biwrocratiaeth ynddo'i hun, ac mae'n dal i honni y bydd ymestyn y ddarpariaeth Mynediad i AU yn y ffordd hon yn debygol o gynyddu'r gofynion am adnoddau'n gyffredinol i QAA ac i'r Asiantaethau DMiAU. Er y byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y math hwn o faich yn cael ei gadw mor isel ag y bo modd yn ein dull, ni fyddwn yn gwneud hynny ar draul ymdrin â'r risgiau mewn ffordd drwyadl a phriodol. Rydym yn ystyried y byddai'r risg i'r myfyrwyr yn uchel os na fyddwn yn gwneud yn siŵr bod yr Asiantaethau DMiAU wedi gwneud y gwaith cynllunio a gwirio gofynnol a'n bod wedi ein sicrhau ein hunain o hynny.

324 Ymhellach, rydym yn anghytuno'n gryf â'r awgrym mai gyda'r Asiantaethau DMiAU y mae'r holl risgiau neu'r rhan fwyaf ohonynt sy'n gysylltiedig ag ehangu'r Diploma Mynediad i AU i farchnadoedd rhyngwladol. Mae risgiau rheoleiddiol sylweddol yn bodoli i QAA yn y maes hwn, yn ogystal â risgiau i'n gwaith rhyngwladol ehangach, ac i'r myfyrwyr. Byddwn yn parhau i gynnig dull sy'n rhoi digon o bwysau i'r risgiau hyn. Ystyriwn mai budd ein cynigion yw y byddant yn galluogi i Asiantaethau DMiAU weithredu'n rhyngwladol gyda'r Diploma Mynediad i AU, ond lle pob Asiantaeth DMiAU unigol yw ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn a gwneud penderfyniadau sy'n briodol yn eu cyd-destun gweithredol.

325 Nodwn ein bod wedi dod i'r farn hon am y risgiau oherwydd y profiad a'r wybodaeth sydd gan QAA mewn perthynas â darparu addysg ryngwladol a sicrhau ei hansawdd, ac mae'r ymatebion yn cydnabod hynny. Yn gyffredinol, lleihau risgiau yw'r elfen sy'n tanategu sail resymegol ein cynigion. Mewn perthynas â phryderon ynglŷn â'n dull asesu fesul gwlad benodol, mae'n bwysig deall yn glir nad asesu'r wlad ei hun y byddwn ond asesu'r Asiantaeth DMiAU a'i gallu i weithredu yn y wlad honno yn unol â'i gofynion.

326 Nid ydym yn cytuno â'r awgrym y dylid dyfarnu trwydded ryngwladol gyffredinol ar sail un asesiad generig. Y rheswm am hynny yw nad ydym yn ystyried bod dull generig o ymwneud â darpariaeth ryngwladol yn arfer da, ac nid yw hwn yn fodel cymeradwy na derbyniol ymhob gwlad ac ymhob achos. Yn ogystal, nid ydym yn cytuno bod hwn yn ddull sydd wedi ei seilio ar egwyddorion ac rydym yn nodi y dylid gwahaniaethu rhwng model a dull. Yn hytrach, rydym yn cynnal ein safbwynt y bydd angen i Asiantaethau DMiAU, beth bynnag yw'r trefniant, ddangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu'r Diploma mewn gwlad benodol. Yn yr un modd, nid ydym yn cytuno bod y drwydded ar gyfer y DU a'r amodau cysylltiedig yn ddigonol ar eu pennau eu hunain i reoli gweithrediad rhyngwladol, ac y bydd trwydded ychwanegol sydd ag amodau sy'n benodol berthnasol i weithredu'n rhyngwladol yn darparu rhagor o ddiogelwch lle mae cynnydd yn yr amrediad o risgiau, a'r siawns y gallai risgiau ddigwydd. Ystyriwn mai'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni hyn yw ehangu telerau'r drwydded, ac felly rydym yn cynnig y trefniant sydd wedi ei nodi uchod ym mharagraff 314. Ystyriwn fod y gwellant hwn i'r cynnig yr ydym yn bwriadu ymgynghori arno yn fanylach yn ystod 2025, yn cyfateb yn well â nifer o'r awgrymiadau eraill uchod.

327 Rydym yn cytuno â'r awgrym y dylai'r drwydded ryngwladol fod ar gael dim ond i'r Asiantaethau DMiAU hynny sydd â thrwydded gyfredol ar gyfer y DU ac rydym yn cadarnhau y bydd y cyfnod peilot ond ar gael i'r Asiantaethau DMiAU hynny sy'n dal trwydded ar gyfer y DU ar adeg yr ymgynghori. Fel y nodir uchod, rydym hefyd yn bwriadu cynnig y bydd yn rhaid i unrhyw Asiantaeth DMiAU sy'n bwriadu gwneud cais am drwydded ryngwladol am y tro cyntaf ar ôl y cyfnod peilot fynd drwy'r un broses dreialu ddwy flynedd.

### Sylwadau cyffredinol

328 Roedd yr ymatebion i gyd i'r cwestiwn hwn yn gofyn am ragor o fanylion.

329 Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r gofyniad i sicrhau fod pob myfyriwr yn addas ar gyfer mynediad i gyrsiau, gan nodi mai cyfrifoldeb darparwr yw hyn.

330 Awgrymodd un arall y dylid gofyn i bob Asiantaeth DMiAU fod â phrofiad blaenorol o weithredu mewn gwlad benodol i gael ei chymeradwyo i ddarparu'r Diploma yn y wlad honno.

331 Nodwyd pryder mai'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol oedd yr unig faes yn yr ymgynghoriad oedd yn cyfeirio at dwf, a gofynnodd Asiantaethau DMiAU am y wybodaeth ddiweddaraf am y cyllido ar gyfer y prosiect hwn, ac am y dull o fonitro boddhad yr Asiantaeth DMiAU gyda gwaith QAA. Maen nhw'n nodi bod cwmpasu'r Diploma MiAU Rhyngwladol wedi bod yn broses ynddi'i hun o dreialu prosiectau datblygu a ariennir ar y cyd, ac maen nhw'n awgrymu y dylai'r gwaith hwn gael ei werthuso a'i adolygu'n llawn.

332 Yn yr ymatebion, gofynnwyd rhai cwestiynau ychwanegol, fel a ganlyn:

- A fydd cyfyngiad ar y nifer o Asiantaethau DMiAU sy'n cael eu trwyddedu i weithredu mewn gwlad benodol?
- A fyddai'n bosibl i gyrsiau Diploma a ddilyswyd yn barod i'w darparu yn y DU gael eu cynnig yn rhyngwladol, ar ôl gwneud addasiadau bach angenrheidiol?
- A fydd QAA yn cynnig cymorth i Asiantaethau DMiAU, o ystyried ei harbenigedd ym maes darpariaeth ryngwladol?

**Ein hymateb**

333 Rydym yn cydnabod y ceisiadau am ragor o fanylion a gwybodaeth ac rydym yn bwriadu darparu hyn mewn cyfle ymgynghori pellach wrth i'r cynigion gael eu mireinio a'i datblygu.

334 Er nad yw cylch gwaith QAA yn cynnwys rheoleiddio darparwyr yn uniongyrchol - ac er mai'r darparwyr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â derbyn myfyrwyr - gyda'r Asiantaeth DMiAU yn y pen draw y mae'r cyfrifoldeb am roi'r cyfrifoldeb cytundebol i'r darparwr i wneud y penderfyniad mynediad priodol. Ein gofyniad i'r Asiantaeth DMiAU yw ei bod yn sicrhau bod cyfrifoldeb cytundebol yn ei le yn effeithiol.

335 Rydym yn anghytuno â'r awgrym y dylai'r Asiantaeth DMiAU feddu ar brofiad blaenorol o weithredu mewn gwlad benodol cyn iddi allu cael ei thrwyddedu i ddarparu'r Diploma yn y wlad honno. Y rheswm am hyn yw y byddai'n peri anfantais i Asiantaethau DMiAU sy'n ymwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl â darpariaeth Mynediad i AU.

336 Rydym yn anghytuno bod y Diploma MiAU Rhyngwladol yn cynrychioli'r unig faes yn yr ymgynghoriad lle sonnir am dwf, ac rydym yn tynnu sylw at gyflwyniad yr ymgynghoriad, a'r egwyddorion yr ydym wedi ymgynghori arnynt yng nghwestiwn 3 lle mae'n amlwg bod twf yn tanategu nodau'r diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Cydnabod.

337 Mae QAA wedi ei hymrwymo i gefnogi lansiad y Diploma MiAU Rhyngwladol ac mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwn. Mae hyn wedi cynnwys yr amser a gymerwyd i wneud y gwaith, er enghraifft, ar gyfer paratoi'r newidiadau cyfredol i'r Cynllun Cydnabod ac amser y staff sy'n ofynnol yn y cyswllt hwnnw. Nid ydym yn bwriadu monitro boddhad yr Asiantaeth DMiAU gyda'n gwaith, ac rydym yn ystyried y gallai hyn wrthdaro â'n bwriad i ddarparu'r trefniadau sy'n cynrychioli anghenion y rhanddeiliaid i gyd. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ymgysylltu ag unrhyw Asiantaeth DMiAU unigol sydd â phryder. Cytunwn y dylid ail ystyried priodoldeb y model partneriaeth ar gyfer prosiectau datblygu yn y dyfodol.

338 Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu rhoi cyfyngiad ar y nifer o Asiantaethau DMiAU sy'n cael eu trwyddedu i weithredu mewn gwlad benodol. Hefyd, nid ydym yn gweld unrhyw reswm mewn egwyddor pam na ellir addasu'r cyrsiau Diploma a ddilyswyd yn barod neu eu cynnig yn rhyngwladol yn rhan o gynllun credadwy sy'n cydnabod cyd-destun y wlad benodol a'i gofynion.

339 Er mwyn cefnogi Asiantaethau DMiAU, mae QAA wedi rhannu rhai darnau o wybodaeth mewn adroddiadau gwaith ymchwil i'r farchnad yn barod. Yn ein sefydliad ehangach, rydym yn gwneud gwaith helaeth yn y meysydd addysg ryngwladol, partneriaethau a threfniadau addysg drawswladol, ac rydym yn cynhyrchu adnoddau a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r pynciau hyn. Er bod yr Asiantaethau DMiAU yn gyfrifol yn y pen draw am eu gwaith ymchwil a'u datblygiad busnes eu hunain, mae QAA yn hapus i archwilio cynnwys digwyddiadau ac adnoddau gyda ffocws rhyngwladol ymhellach, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi eu cynnig i Asiantaethau DMiAU yn barod.

## Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol: sylwadau am y cynigion

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cynigion yr ydym wedi eu disgrifio ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol?**

### Gofynion o ran y Saesneg

340 Roedd yr ymatebwyr yn derbyn yn gyffredinol bod angen gofyniad o ran sgiliau Saesneg. Nodwyd bod y ffaith nad oedd cynnwys wedi'i ragnodi yn y cyswllt hwn yn rhoi'r cyfle i Asiantaethau DMiAU ddatblygu pecynnau astudio atodol priodol neu gydweithio â'u partneriaid. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi dull hyblyg yn y gofynion i alluogi i Asiantaethau DMiAU a darparwyr wneud beirniadaethau priodol yn rhan o'r broses o recriwtio a chofrestru myfyrwyr.

341 Awgrymodd rhai o'r Asiantaethau DMiAU na ddylai'r gofyniad am sgiliau Saesneg gael ei adlewyrchu yng ngofyniadau fisa myfyrwyr ac, os byddai hynny'n digwydd, ni fyddai'r Diploma'n gyfatebol â chymwysterau eraill a byddai dan anfantais mewn perthynas â mynediad i addysg uwch. Hefyd, awgrymwyd y gallai hyn fod yn gyfystyr â gwahaniaethu'n anghyfreithlon. Nododd un o'r ymatebwyr bod rhai cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh) yn gosod gofynion gwahanol ar gyfer hyfforddiant lefel gradd yn eu meysydd, ac yn arbennig bod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ymddangos fel petai ganddo ofyniad uwch nag yr ydym wedi ei awgrymu.

342 Roedd un aelod o staff mewn coleg yn anghytuno â'n cynnig y gellid cynnig addysg ychwanegol mewn Saesneg ochr yn ochr â'r Diploma ac awgrymodd y dylai pob myfyriwr allu dangos eu bod yn bodloni gofyniad sylfaenol y Swyddfa Gartref o ran astudiaeth sy'n is na lefel gradd cyn iddyn nhw ddechrau eu cyrsiau, neu fel arall mae'n awgrymu bod y bar isel iawn a gallai hynny niweidio enw da'r Diploma.

**Ein hymateb**

343 Cytunwn â sylwadau sy'n nodi bod lle i hyblygrwydd mewn Asiantaethau DMiAU i sefydlu'r ffordd fwyaf priodol o fodloni'r gofynion a gynigiwyd gan QAA bod myfyrwyr yn gallu cwblhau'r cwrs a'u bod yn gallu dangos o'i gwblhau bod ganddynt sgiliau Saesneg lefel B2 ar raddfa Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd [Common European Framework of Reference for Languages (CEFR)]. Lle'r Asiantaeth DMiAU ei hun yw hi i ddewis p'un a ydyn nhw'n teimlo bod gallu ac addasrwydd i fynd ar y cwrs yn gyfatebol â gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B1. Rydym yn dal i honni, ar yr amod y rheolir y prosesau asesu a dyfarnu mewn ffordd briodol, na fydd hyn peri unrhyw anfantais i'r myfyrwyr hynny sydd eisiau gwneud cais am fynediad i brifysgolion yn y DU oherwydd bydd dyfarniad y Diploma'n cynrychioli gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B2. Nodwn nad yw'r Diploma wedi ei fwriadu i ddisodli tystiolaeth o gyflawniad yn y cyswllt hwn ac, yn wir, nodwn y bydd gan ddarparwyr addysg uwch eu dulliau asesu a'u gofynion eu hunain. Nid ydym yn cytuno bod y gofynion arfaethedig yn rhoi myfyrwyr mewn perygl o ddioddef gwahaniaethu ac rydym wedi osgoi rhagnodi ar y pwynt yma oherwydd teimlwn y gallai ychwanegu baich. Mae caniatáu i Asiantaethau DMiAU benderfynu ar eu meini prawf eu hunain ar gyfer asesu gallu a phriodoldeb cyffredinol y myfyriwr i fynd i mewn i'r cwrs, a'r llwybrau i sicrhau bod y dysgwyr yn gallu dangos sgiliau Saesneg lefel B2 ar raddfa CEFR ar ddiwedd y cwrs, yn esiampl o ddull o reoleiddio ar sail egwyddorion.

344 Disgwyliwn mai cyfrifoldeb yr Asiantaeth DMiAU yw hi i sicrhau bod ei phroses o gofrestru myfyrwyr yn cydymffurfio yn y cyswllt hwn. O ran monitro, un ffordd y gallem adnabod pryder yw pan fydd nifer annisgwyl o uchel o fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru heb gwblhau cwrs neu dderbyn dyfarniad, a gallai hyn beri i ni ymgysylltu â'r Asiantaeth DMiAU i ganfod y rhesymau am hyn. Byddem yn disgwyl deall mwy am y gofyniad hwn wrth ein gwaith ar ôl cyfnod o dreialu'r rhaglen.

345 Unwaith eto, mae'r sylw bod gan gyrff PSRh eraill ofynion gwahanol yn un rhesymol. Ystyriwn ei bod hi'n briodol i'r gofyniad o ran gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B2 ar ôl cwblhau cwrs Diploma barhau'n isafswm yn ein gofynion, ond wrth ddatblygu Diplomâu, dylai'r Asiantaethau DMiAU fod yn ymwybodol o'r gofynion mynediad sy'n gyffredin i'r DU ac ymhle y gallai'r rhain wahaniaethu ar gyfer cyrsiau gradd penodol.

346 Rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad hwn fel y cynigir ar hyn o bryd; ond bydd cyfle arall ar gael yn 2025 i ymgynghori ar y Diploma MiAU Rhyngwladol.

## Un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad

347 Roedd pob un o'r chwe ymatebydd a roddodd sylwadau am y gofyniad arfaethedig i roi cyfyngiad ar Asiantaethau DMiAU i weithredu dim ond un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad, yn ei wrthwynebu. Awgrymwyd yn y cyswllt hwn, y dylai'r Diploma MiAU Rhyngwladol gael ei redeg mewn cyfatebiaeth â'r Diploma ar gyfer y DU. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn cynnwys y ffaith bod Diplomâu fel arfer wedi eu llunio o amgylch llwybrau cynnydd yn hytrach na meysydd astudio, a bod yn rhaid i hyn yn ei dro ymdrin ag amrywiol ofynion cymhleth. Nodwyd yn y sylwadau bod y gofyniad yn ymddangos yn ddianghenraid o gyfyngiadol ar Asiantaethau DMiAU, darparwyr a myfyrwyr, ac y dylid rhoi'r cyfrifoldeb ar yr Asiantaethau DMiAU i benderfynu ar y llwybrau priodol i gael eu datblygu. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai'r risg y mae'r gofyniad arfaethedig yn bwriadu ymdrin ag o gael ei leihau drwy ddiwydrwydd dyladwy'r Asiantaeth DMiAU yn lle hynny, yn rhan o'i phroses o gymeradwyo darparwyr. Roedd un arall yn cwestiynu ystyriaethau ymarferol sut y byddai cyfyngiad o'r fath yn cael ei reoli yn nhermau safoni a chydlynu ar draws Diplomâu ac Asiantaethau DMiAU.

### Ein hymateb

348 Yn y cynigion a gyflwynwyd gan QAA yn yr ymgynghoriad, cydnabuwyd bod y gofyniad hwn yn cyfyngu ar allu'r Asiantaeth DMiAU i ddatblygu gwahanol Ddiplomâu i wahanol ddarparwyr. Fodd bynnag, rydym wedi darllen a chydnabod y pryderon ynglŷn â'r gweithrediad ymarferol sydd gan yr Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â hyn. Yn yr ymgynghoriad pellach ar y Diploma MiAU Rhyngwladol, byddwn yn cynnig bod y gofyniad hwn, neu un tebyg, yn cael ei gadw am y cyfnod peilot o leiaf, ac yn ystyried y bydd hyn yn alinio gyda'n cynnig i roi cyfyngiadau ar drwyddedau rhyngwladol yn ystod y cyfnod peilot. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ochr yn ochr â hyn ar awgrymiadau ac atebion yn y tymor hwy.

## Dysgu cyfunol

349 Roedd chwech o'r saith ymatebydd a roddodd sylw am hyn yn gwrthwynebu'r cynnig y dylai'r Diploma MiAU Rhyngwladol gael ei ddarparu drwy ddull dysgu cyfunol. Roedd y rhai oedd yn ei wrthwynebu'n nodi eu bod yn ansicr o sail resymegol y cynnig, a bod ganddo'r potensial i effeithio'n negyddol ar y darparwyr a'r myfyrwyr fel ei gilydd ac nad yw'n gyfatebol â chymwysterau lefel 3 eraill a gynigir yn rhyngwladol. Nododd nifer o'r ymatebwyr nad oedd hi'n ymddangos bod y cynnig yn caniatáu ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb llwyr ac y gallai hyn beri anfantais i fyfyrwyr lle mae gwahaniaethau mewn argaeledd TGCh.

350 Awgrymwyd bod hwn yn agwedd o'r gwaith o ddatblygu cyrsiau ac mai lle'r Asiantaeth DMiAU yw penderfynu beth sydd fwyaf priodol yn y cyd-destun. Awgrymodd un o'r ymatebwyr bod angen mwy o fanylion yn yr achos hwn am y diffiniad o'r term 'dysgu cyfunol'. Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU y gallai'r cynnig hwn atal darparwyr yn y DU rhag cynnig Diploma MiAU Rhyngwladol i fyfyrwyr rhyngwladol sydd eisiau astudio ar gyfer cymhwyster Lefel 3 yn eu gwledydd cartref er mwyn cael lle ym mhrifysgolion yn y DU.

351 Roedd un o'r Asiantaethau DMiAU a ymatebodd o blaid y cynnig, gan ddweud y byddai'n creu cysondeb a thegwch, ei fod yn diogelu dysgwyr rhag cyrsiau o safon isel, a'i fod yn aml yn fwy priodol i fyfyrwyr Mynediad i AU. Am y rhesymau hyn, roedden nhw'n credu y dylid ei ddefnyddio hefyd gyda gofynion y Diploma ar gyfer y DU.

**Ein hymateb**

352 Bwriad QAA mewn perthynas â hyn yw cyfyngu ar gyrsiau Diploma a ddarperir yn gyfan gwbl ar-lein yn y farchnad ryngwladol. Rydym yn cydnabod nad ydym wedi gwneud hyn yn ddigon clir yn ein hymgynghoriad. I fod yn glir, nid ydym yn sôn am gyfyngu neu wahardd dysgu wyneb yn wyneb. Yn ein barn ni, mae dulliau 'wyneb yn wyneb' yn cynnwys presenoldeb corfforol y myfyrwyr a'u hathrawon yn yr un gofod dysgu (megis gofod a gynigir gan ddarparwr), yn ogystal â defnyddio cyfryngau gwe-gynadledda i gynnwys myfyrwyr sy'n dysgu o bell mewn amgylcheddau dysgu wyneb yn wyneb ar-lein, neu fyfyrwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd ar-lein mewn gweithgareddau datrys problemau / gweithgareddau grŵp. Mae hyn yn golygu bod modd darparu Diplomâu ar-lein os oes rhywfaint o ddarparu dysgu ac addysgu'n fyw. Byddwn yn sicrhau bod ymgynghoriadau, gofynion a chanllawiau'r dyfodol yn eglur ynghylch y pwynt hwn.

353 Er mwyn i ddarparwyr yn y DU ddarparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol i fyfyrwyr rhyngwladol, byddai'n rhaid i Asiantaethau DMiAU sicrhau bod modd cyflawni hyn yn rhan o gynllun credadwy ar gyfer gweithredu mewn gwlad benodol. Er enghraifft, mae nifer o ranbarthau lle na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn gredadwy oherwydd y gofynion yn y wlad benodol.

354 Ein rhesymeg ar gyfer gofynion mewn perthynas â dysgu cyfunol yw ein bod yn teimlo bod yma'r potensial i gyrsiau a ddarperir heb unrhyw gyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb o gwbl (p'un a ydyn nhw'n digwydd wyneb yn wyneb neu drwy blatfformau dysgu o bell) y gallai darpariaeth o safon is gael ei chynnig ac nad yw model o'r fath wedi ei gefnogi yn y gofynion mewn rhai gwledydd. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar ofynion penodol ynglŷn â'r gymhareb rhwng dysgu o bell/ar-lein ac wyneb yn wyneb, er enghraifft.

## Sylwadau cyffredinol

355 Cyflwynwyd amrywiaeth eang o sylwadau a chwestiynau eraill.

356 Nododd dwy o'r Asiantaethau DMiAU eu hanfoddhad gyda chynnydd datblygiad y Diploma Rhyngwladol a'r canfyddiad bod yma ddiffyg allbwn cyffyrddadwy. Awgrymodd un arall y dylid darparu manylion llawn y costau i Asiantaethau DMiAU ac y dylid cynnig ad-dalu unrhyw fuddsoddiad a wnaed i'r rheiny nad ydynt eisiau cyfranogi ymhellach. Awgrymodd un o'r ymatebwyr bod y cynigion yn arwydd unwaith eto o ddiffyg ymddiriedaeth a thynnwyd sylw at lwyddiant nifer o Asiantaethau DMiAU yn y farchnad ar gyfer cymwysterau rhyngwladol.

357 Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU bod y cynigion yn cyfyngu ar y cyfleoedd yn y farchnad, gan ddyfynnu gwaith ymchwil i'r farchnad a awgrymodd nad oes gan rai myfyrwyr yr adnoddau angenrheidiol yn aml iawn i astudio yn y DU am dair blynedd neu fwy. Roedden nhw hefyd yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng demograffeg y myfyrwyr y bwriadwyd y Diploma ar gyfer y DU a'r Diploma MiAU Rhyngwladol ar eu cyfer. Nodwyd mai un o oblygiadau'r Diploma MiAU Rhyngwladol yw mai dim ond y rheiny sy'n gallu fforddio astudio fyddai'n gallu manteisio ar y cymhwyster heblaw bod cymorth ariannol ar gael, yn wahanol i'r Diploma ar gyfer y DU.

358 Gofynnodd Asiantaeth DMiAU arall a oedd angen gofyn i'r Asiantaeth DMiAU fod â gweithdrefnau i sicrhau bod y Diploma MiAU Rhyngwladol yn parhau i fod yn gydradd â chymhwyster lefel 3 yn Lloegr, gan nodi nad yw'n ofyniad clir, ar wahân, i'r Diploma ar gyfer y DU a'i fod yn ymhlyg yn ei ddilysiad.

359 Gwnaed rhai sylwadau ac awgrymiadau am y cyfleoedd a gyflwynwyd gan estyniad y ddarpariaeth i mewn i farchnadoedd rhyngwladol, gan gynnwys y ffaith bod gan Fynediad i AU y potensial yn arbennig i weithredu mewn gwlad benodol er mwyn cyflenwi trefniadau addysg uwch drawswladol, ac ehangu'r dewis o gymwysterau mynediad i ddysgwyr mewn gwledydd lle mae'r trefniadau hyn wedi eu sefydlu. Rhybuddiodd yr ymatebydd hefyd bod angen i QAA a'r Asiantaethau DMiAU fod yn ymwybodol o wahaniaethau rhwng y cynulleidfaoedd targed

yn y DU a thramor ond y dylid croesawu'r rhain, gan nodi gwahaniaethau'n benodol yn oedran y dysgwyr sydd â diddordeb a chyfradd eu cynnydd drwy'r systemau addysg. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y dylai QAA adolygu ei gofynion monitro ac adrodd ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol, o ystyried y ffaith nad yw calendrau academaidd mewn gwledydd eraill bob amser yn alinio â'r rhai yn y DU.

360 Gofynnwyd nifer o gwestiynau, fel a ganlyn:

- Sut bydd y gwaith gwirio a safoni allanol yn digwydd?
- A fydd mesurau ychwanegol i egluro llwybrau cynnydd i addysg uwch yn y DU sydd ar gael i'r myfyrwyr?
- A allai myfyrwyr symud ymlaen at ddarparwyr addysg uwch penodol tramor?
- Sut fydd y Diploma MiAU Rhyngwladol yn cael ei hyrwyddo gan QAA, a beth fydd y paramedrau ar gyfer Asiantaethau DMiAU o ran hyrwyddo eu cynnig Diploma MiAU Rhyngwladol?

**Ein hymateb**

361 Yn rhan o'i gwaith o ddatblygu cynnig Diploma Rhyngwladol o dan ddarpariaethau'r Cynllun Cydnabod, mae QAA wedi gwneud gwaith ymchwil a rannwyd gydag Asiantaethau DMiAU ac mae wrthi ar hyn o bryd yn datblygu'r seilwaith rheoleiddio sy'n ofynnol i ehangu cynnig o'r fath yn hyderus. Fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen ymgynghori, er mwyn cymryd y Diploma MiAU Rhyngwladol yn ei flaen, mae QAA wedi penderfynu bod angen iddo flaenoriaethu gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer y DU. Ar ôl oedi o chwe mis mewn gweithgareddau ar y Diploma MiAU Rhyngwladol, ailddechreuodd QAA ddatblygiad ochr yn ochr â'r gwaith hwn, gan nodi bod datblygiad ac ystyriaeth y cynigion eu hunain yn costio amser ac arian. Mae QAA yn parhau'n ymroddedig i ddatblygu a gweithredu'r trefniadau ar gyfer Diploma MiAU Rhyngwladol a, lle mae pryderon, rydym ystyried ac yn ymdrin â'r rhain drwy brosesau ymgynghori. Ystyriwn fod darpariaeth addysg ryngwladol a thrawswladol yn gymhleth a'i bod hi'n bwysig ymdrin â'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau mewn ffordd ofalus a thrwyadl er mwyn diogelu'r cymhwyster a'i randdeiliaid. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ymgysylltu ag unrhyw Asiantaeth DMiAU unigol sydd â phryder neu sydd eisiau rhoi'r gorau i'w cefnogaeth a'u cyfranogaeth yn narpariaeth y Diploma MiAU Rhyngwladol.

362 Yn yr un modd, nid ydym yn cytuno bod ein cynigion wedi eu cymell gan ddiffyg ymddiriedaeth mewn Asiantaethau DMiAU. Rydym yn parhau i ymddiried yn yr Asiantaethau DMiAU i gyd ac yn nodi bod rhai ohonynt yn gweithredu'n llwyddiannus yn y farchnad ryngwladol ar gyfer cymwysterau eraill. Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r cymhwyster a chynnal y safonau. Yn union fel y mae trefniadau trwyddedu'n caniatáu i ni asesu gallu'r Asiantaeth DMiAU i weithredu yn y DU, ystyriwn ei bod hi'n bwysig i QAA allu ei sicrhau ei hun bod gan Asiantaethau DMiAU gynlluniau a threfniadau credadwy ar gyfer gweithredu ym mhob un o'r marchnadoedd y mae'n mynd i mewn iddynt.

363 Ystyriwn fod yn rhaid i'r angen i gefnogi cyfleoedd yn y farchnad fod yn gytbwys gydag ystyriaeth briodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfleoedd hynny. Er hynny, nid ydym yn cytuno bod ein cynigion yn cyfyngu ar gyfleoedd i Asiantaethau DMiAU ddatblygu cynigion i fyfyrwyr mewn gwledydd eraill sydd, am ba reswm bynnag, eisiau parhau yn y wlad honno at ddibenion cynnydd. Mae'r Diploma Mynediad i AU yn rhoi cyfleoedd yn aml i fyfyrwyr na fyddent yn gallu fforddio fel arall i ennill y cymwysterau sy'n ofynnol i fynd i'r brifysgol a hynny oherwydd y trefniadau cyllido sydd ar gael yn y DU. Credwn fod y cyfleoedd hyn yn bwysig iawn. Fodd bynnag, mae QAA yn nodi'r cymhlethdodau amrywiol yn y tirlun polisïau ynghylch cyllido addysg uwch a myfyrwyr rhyngwladol ac yn nodi nad yw cymorth ariannol penodol i fyfyrwyr rhyngwladol ar gael ar hyn o bryd. Rydym yn nodi hefyd gyfyngiad ein swyddogaeth a'n cylch gwaith o ran cynghori llywodraethau eraill y tu allan i'r DU am gyllido.

364 Rydym yn tynnu sylw at y trefniadau cyllido yn y DU cyn belled ag y bo'r rhain yn penderfynu at bwy mae'r Diploma Mynediad i AU wedi ei anelu'n bennaf. Nid yw myfyrwyr o dan 19 oed yn cael eu heithrio rhag astudio ar gyfer y Diploma. Fodd bynnag, am fod y cyllid cyhoeddus i'r myfyrwyr hyn drwy eithriad yn unig, efallai fod opsiynau mwy addas ar gael ar Lefel 3 ar gyfer yr oedran yma. Os nad yw hyn yn ystyriaeth, fel y gwelwn mewn marchnadoedd rhyngwladol, dim ond mewn perthynas â pharodrwydd am astudio addysg uwch y mae oedran yn ffactor.

365 Cytunwn â'r sylwadau a'r awgrymiadau a roddwyd mewn perthynas â'r cyfleoedd a'r gwahaniaethau mewn marchnadoedd rhyngwladol. Hefyd, rydym wedi nodi bod angen ystyried y gwahaniaethau mewn blynyddoedd academaidd mewn perthynas â monitro a chasglu data. Nid ydym yn ystyried y bydd hyn yn achosi gwrthdaro mawr gyda'n trefniadau monitro ar gyfer y DU sy'n caniatáu darpariaeth gyda phatrymau cofrestru hyblyg a chyfnodau astudio afreolaidd.

366 Bydd y gofynion a'r ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â gwirio a safoni allanol ar gyfer cyrsiau rhyngwladol wedi eu mireinio mewn ymgynghoriad arall yn y dyfodol. Mae hynny'n wir hefyd am faterion yn ymwneud â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am lwybrau cynnydd, ond mae hyn wedi ei gynnwys yn y cynigion am ofynion newydd y drwydded ar gyfer y DU a fyddai'n parhau i fod yn berthnasol i drwydded ryngwladol, heblaw ei fod yn nodi fel arall. Byddai unrhyw ofynion ychwanegol penodol i'w cael yn amodau trwydded ryngwladol.

367 Nid yw'r cynigion sydd wedi eu nodi ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol yn gofyn i gyrsiau roi cyfleoedd i symud ymlaen i addysg uwch mewn gwlad benodol. Felly, mae'n bosibl, ac yn cael ei annog, o dan y trefniadau hyn i greu Diplomâu sydd wedi eu llunio ar gyfer symud ymlaen at ddarparwyr addysg uwch mewn gwlad benodol. Bydd natur y trefniadau cynnydd hyn yn dibynnu ar y partneriaethau a'r cysylltiadau sydd gan yr Asiantaeth DMiAU mewn rhanbarth penodol. Yn yr un modd, nid oes gan QAA unrhyw gynlluniau penodol ar gyfer hyrwyddo'r Diploma MiAU Rhyngwladol mewn marchnadoedd tramor, ac mae'r cyfrifoldebau marchnata gan yr Asiantaeth DMiAU a'i darparwyr fel arfer. Fodd bynnag, partneriaethau QAA ei hun a'i phresenoldeb mewn marchnadoedd rhyngwladol penodol a fydd yn penderfynu pa gyfleoedd sydd ar gael i QAA hyrwyddo a dadlau dros y cymhwyster.

## Trefniadau pontio a gweithredu

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y dull o weithredu a gynigir ar gyfer y Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru?**

### Sylwadau cyffredinol

368 Derbyniwyd sylwadau manwl am nifer o themâu gan yr Asiantaethau DMiAU a ymatebodd, gan gynnwys amseriadau a ffioedd. Roedd nifer o'r sylwadau hyn yn cefnogi neu'n adlewyrchu sylwadau a roddwyd eisoes yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr eraill wedi nodi 'dim sylw' ac roedd un wedi nodi 'mae popeth yn iawn'.

369 Yn y rhan fwyaf o'r sylwadau ynglŷn ag amseriadau, mynegwyd pryderon bod yr amserlen a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori'n rhy dynn a nodwyd y byddai'n well ganddynt gael dull o ail-drwyddedu sy'n digwydd mewn camau. Esboniodd nifer o'r ymatebwyr bod gwneud gweithgareddau ail-drwyddedu yn ystod yr haf yn ychwanegu cymhlethdod a phwysau i Asiantaethau DMiAU yn ystod amser prysuraf y flwyddyn. Soniodd un o'r ymatebwyr hefyd am anghysondeb rhwng yr amseriadau sydd wedi eu nodi yn y ddogfen ymgynghori a'r rhai a gyflwynwyd yn ystod y sesiynau briffio i Asiantaethau DMiAU. Cafwyd cais gan un o'r ymatebwyr nad yw'n Asiantaeth DMiAU na ddylai unrhyw oedi mewn cymeradwyo trwyddedau Asiantaethau DMiAU gael effaith negyddol ar y darparwyr.

370 Defnyddiodd ymatebwyr eu hatebion i'r cwestiwn hwn i roi sylwadau am ffioedd oedd yn ymwneud â'r ffi flynyddol sy'n daladwy gan Asiantaethau DMiAU i QAA, a hefyd y costau eraill am weithgareddau datblygu, er enghraifft, i ddatblygu Diploma Rhyngwladol. Yn bennaf,

roedd yr ymatebwyr yn dweud yr hoffent dderbyn hysbysiad cynnar am y cyfraddau ffioedd blynyddol ynghyd â threfn ffioedd wedi'i chyhoeddi ar gyfer gweithgareddau â ffi. Gofynnodd un o'r ymatebwyr am ragor o eglurhad ynglŷn â sefyllfa lle gallai Asiantaeth DMiAU dynnu cymorth yn ei ôl am brosiectau datblygu a pha fecanweithiau fyddai yn eu lle i adael iddyn nhw sicrhau canlyniadau'r rhain os byddai hynny'n digwydd. Roedd sylw arall yn holi am y posibilrwydd o gael trefn ffioedd ffurfiol er mwyn lleihau achosion o roi gwybod yn hwyr am gynnydd mewn ffioedd.

371 Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at yr heriau i Asiantaethau DMiAU wrth geisio rheoli'r broses o roi fersiwn diwygiedig ar waith o Fanyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio gan hefyd baratoi ar gyfer gweithgareddau ail-drwyddedu. Nododd un Asiantaeth DMiAU hefyd y costau ariannol a grëwyd wrth roi datblygiadau'r cymhwyster ar waith.

372 Holwyd eto am yr angen i ail-drwyddedu, gan nodi bod y gwaith o gyflwyno dogfennaeth ar gyfer ail-drwyddedu'n feichus ac yn ddiangen. Roedden nhw'n cynnig, unwaith eto, y dylid trosglwyddo trwyddedau cyfredol yr Asiantaethau DMiAU i'r trefniadau newydd.

373 Derbyniwyd sylwadau gan un o'r Asiantaethau DMiAU a ymatebodd yn croesawu bwriad QAA i ddarparu strwythur clir yn y Cynllun Cydnabod diwygiedig. Roedden nhw'n awgrymu bod QAA yn nodi ei strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf er mwyn sicrhau cysondeb mewn achosion o newid i bersonél.

**Ein hymateb**

374 Mewn perthynas â'r ymatebion a dderbyniwyd am yr amseriadau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer ail-drwyddedu ac, fel sydd wedi ei nodi ym mharagraffau 26 ac 28 uchod, byddwn yn gweithredu dull o ail-drwyddedu mewn camau ac yn diwygio'r amseriadau i ganiatáu i'r holl waith ail-drwyddedu gael ei gwblhau erbyn mis Awst 2026. Hefyd, rydym wedi ymrwymo i rannu'r holl ganllawiau perthnasol ag Asiantaethau DMiAU erbyn dechrau haf 2025. Cyn rhannu fersiwn terfynol y canllawiau rydym yn bwriadu rhoi cyfle i'r Asiantaethau DMiAU ymwneud â fersiynau drafft i nodi unrhyw gwestiynau posibl sydd ganddynt, ond ni fydd hyn yn gyfle i newid unrhyw rai o'n dulliau y cytunwyd arnynt ar y pwynt hwnnw (gwelwch baragraff 28).

375 Wedi i ni ystyried y sylwadau am yr hyn a ystyrir yn faich ar Asiantaethau DMiAU, rydym yn ailadrodd y byddwn, drwy weithredu'r newidiadau a gynigiwyd gennym i'n dull rheoleiddio cyffredinol, a thrwy fireinio'r Amodau, yn sicrhau bod QAA yn gallu bod yn gymesur ac wedi ei thargedu yn ei gwaith o reoleiddio'r Diploma (gwelwch hefyd baragraff 44). Rydym yn rhagweld y bydd yr amodau sydd wedi eu seilio ar egwyddorion yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Asiantaethau DMiAU ac yn lleihau'r baich sydd arnynt drwy alluogi iddyn nhw addasu eu ffyrdd o weithio i ateb eu hanghenion busnes unigol - er enghraifft, tynnu gofynion llywodraethol penodol, sy'n rhywbeth a groesewir gan y rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad (gwelwch baragraff 124). Felly, fel sydd wedi ei nodi ym mharagraff 283, daethom i'r casgliad bod angen adolygu ein gofynion am gyflwyno data'n flynyddol i ostwng unrhyw ddyblygu dianghenraid. Rydym yn cydnabod y bydd dychwelyd i drwyddedau cyfnod penodol yn cyflwyno dull ffurfiol o ymgysylltu â QAA yn rheolaidd mewn perthynas ag adnewyddu trwyddedau. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y gellir cyflawni hyn yn effeithlon ac yn effeithiol yn y dull y byddwn wedi ei esbonio yn y canllawiau arweiniad sydd i ddilyn.

376 Fel y nodwyd ym mharagraffau 42 a 43, rydym o'r farn y bydd trwyddedau cyfnod penodol yn dod ag amrywiaeth o fanteision dros amser, yn enwedig i fyfyrwyr, ac y bydd asesu Asiantaethau DMiAU yn rheolaidd yn cyfrannu at ddiogelu sefydlogrwydd y cymhwyster drwy gryfhau hyder y defnyddiwr. Un o'r egwyddorion sydd wedi tywys ein gwaith o lunio'r fframwaith newydd hwn yw diogelu buddiannau'r myfyrwyr, ac rydym yn ystyried bod trwyddedau cyfnod penodol yn bwysig o ran cefnogi'r egwyddor hon. Am mai hi yw'r corff sy'n rheoleiddio'r Diploma, mae'n ddyletswydd ar QAA felly i sicrhau y cynhelir safonau dros amser i raddau sy'n ennyn lefel uchel o hyder. Yn ogystal, rydym yn rhagweld y bydd ail-drwyddedu'n ein galluogi ni i ail ystyried

cydbwysedd y gweithgareddau rheoleiddio a'r ceisiadau am gyflwyno gwybodaeth ar draws y cyfnod trwyddedu. Gallai hyn gael yr effaith o gryfhau ein gweithgareddau rheoleiddio mewn ffordd sy'n rheolaidd a rhagweladwy, a lleihau'r angen am wybodaeth ychwanegol yn y cyfamser.

377 Mewn perthynas â'r cais am i QAA nodi eglurder pwrpas drwy ei strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ystyried pa un yw'r ffordd orau o adlewyrchu ein gweithgareddau rheoleiddio mewn perthynas â Mynediad i AU drwy gyhoeddi cynllun a chyfeiriad strategol ochr yn ochr â'n dogfennau strategol arfaethedig, fel y disgrifir ym mharagraff 287.

378 Rydym wedi nodi o'r sylwadau a dderbyniwyd y byddai trefn ffioedd sydd wedi ei chyhoeddi o gymorth mawr i Asiantaethau DMiAU. Er y byddai'n bosibl cyhoeddi ffioedd ar gyfer ymyriadau, lle byddai'r rhain yn daladwy, mae cyfradd amrywiol y ffi fesul cofrestriad newydd yn cael ei phenderfynu'n flynyddol. Penderfynir ar y ffi amrywiol hon ar sail y nifer o sefydliadau a gofrestrodd am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn adrodd benodol a gofynion cyllido QAA ym mlwyddyn y ffi. Fel y trafodwyd gyda Phrif Weithredwyr Asiantaethau DMiAU, byddwn yn rhannu gwybodaeth am y nifer o gofrestriadau a'r ffioedd gynted ag y gallwn, gan hefyd gadw o fewn prosesau llywodraethu a chymeradwyo QAA.

## Trefniadau pontio a gweithredu: cyfnod peilot ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol

**Dyma oedd ein cwestiwn: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cyfnod peilot arfaethedig ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol?**

### Sylwadau cyffredinol

379 Derbyniwyd sylwadau gan 12 o'r rhanddeiliaid, yn cynnwys pob un o'r naw Asiantaeth DMiAU a hefyd rai o'r darparwyr. Roedd nifer fawr yn cefnogi'r syniad o gael cyfnod peilot mewn perthynas â'i ddiben hefyd - er enghraifft, i hwyluso "asesiad o hyfywedd [y Diploma] mewn gwahanol gyd-destunau rhyngwladol posibl a'i allu i ddarparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr rhyngwladol, darparwyr ac Asiantaethau DMiAU". Roedd cefnogaeth iddo hefyd yn nhermau ei ganlyniad, er enghraifft wrth ymdrin â "chanlyniadau annisgwyl ymestyn Mynediad i AU i'r farchnad ryngwladol".

380 Awgrymodd un o'r Asiantaethau DMiAU y gallai'r term 'cyfnod peilot' fod yn broblematig am ei fod yn awgrymu efallai na fydd y ddarpariaeth ryngwladol yn parhau, gan roi risg ariannol pellach ar bob Asiantaeth DMiAU. Yn lle cael cyfnod peilot, awgrymodd Asiantaeth DMiAU arall y byddai cael ffenestr adolygu yn well, sef cyfnod 'y byddai modd dysgu gwersi ynddo'. Crynhodd un o'r Asiantaethau DMiAU yn daclus iawn y pryderon cyffredinol y soniodd nifer o'r Asiantaethau DMiAU amdanynt o fewn eu hymatebion - "Mae angen rhagor o fanylion er mwyn deall y cyfnod peilot yn llawn a'r hyn sy'n weithrediad beichus i Asiantaethau DMiAU a fydd yn seilio eu penderfyniadau ar risg a mantais fasnachol".

**Ein hymateb**

381 Bwriad yr ymgynghoriad presennol yw gwneud prawf cychwynnol o gynigion lefel uchel cyn cael ymgynghoriad manwl llawn. Wedi i'r ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid ddod i ben, rydym yn bwriadu ymgynghori ymhellach â'r Asiantaethau DMiAU er mwyn penderfynu ar y trefniadau penodol ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol. Mae'r rhain yn amodol ar fersiwn derfynol y Cynllun Cydnabod ac felly ni ellir gwneud penderfyniad amdanynt cyn i'r cynllun hwnnw gael ei gymeradwyo. Bydd ymgynghoriad arall â'r Asiantaethau DMiAU yn ein galluogi i alinio disgwyliadau QAA â disgwyliadau'r Asiantaethau DMiAU mewn perthynas â diben a chanlyniad y cyfnod peilot a chynlluniau tymor hir. Mae'r cyfnod peilot yn cynnig cyfle i asesu'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r Diploma Mynediad i AU mewn marchnadoedd newydd yn ystod cyfnod ffenestr y cytunir arno. Rydym yn hyderus y bydd darparwyr newydd yn deall bod hwn yn gymhwyster newydd a gynigir i'w marchnad a'u bod

felly'n debygol o ddeall y ffaith y bydd elfennau penodol o gyflwyniad y cymhwyster o dan y cynllun peilot. Pan ddefnyddiwn y term 'cyfnod peilot', nid ydym yn bwriadu awgrymu y bydd y newid i ddarpariaeth ryngwladol yn newid tymor byr. Rydym yn ystyried y bydd y cyfnod peilot yn gyfle i adnabod ac ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg er mwyn cefnogi cymeradwyo trwyddedau sydd â chyfnodau dilysrwydd hirach, sy'n cynnwys gweithrediad rhyngwladol. Mae'r cyfnod peilot yn cydnabod hefyd y posibilrwydd y bydd addasiadau mewn ymateb i'r pennu a'r adolygiad hwn.

## Cynlluniau peilot yr Asiantaeth DMiAU unigol

382 Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU bod y cynigion yn awgrymu y bydd angen i bob Asiantaeth DMiAU fynd drwy gyfnod peilot, ac roedd hyn i'w weld yn ddianghenraid o feichus. Aethant ymlaen i ddadlau "mai'r Asiantaeth DMiAU sydd yn y lle gorau i wneud ei phenderfyniadau masnachol ei hun". Mynegwyd pryder y byddai hyn yn achosi i ddarparwyr beidio bod eisiau cymryd rhan. Gofynnodd dwy Asiantaeth faint o amser y byddai'r cyfnod peilot yn para, a gofynnodd un am ragor o eglurhad ynglŷn ag unrhyw gyfyngiadau a fyddai'n cael eu rhoi ar drwydded Asiantaeth DMiAU yn ystod y cyfnod hwn. Cyfeiriodd pedwerydd ymatebydd at yr awgrym a wnaed y bydd yr Asiantaeth DMiAU o bosib, ar ôl cwblhau'r cyfnod peilot yn llwyddiannus, yn gymwys i wneud cais am estyniad i'w thrwydded. Roedden nhw eisiau eglurhad a oedd hyn yn cyfeirio at yr amserlen ar gyfer y drwydded neu at Ddiplomâu penodol neu wledydd penodol.

### Ein hymateb

383 Ein dadl ni yw hyn: am fod pob Asiantaeth DMiAU yn endid ar wahân sy'n gwneud penderfyniadau strategol gwahanol ar sail gwahanol ofynion masnachol, ac yn debygol o fod yn gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau a marchnadoedd, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gymryd rhan yn y cyfnod peilot ar ei phen ei hun. Bydd gan Asiantaethau DMiAU wahanol brofiadau a gwahanol lefelau o lwyddiant o fewn eu marchnadoedd rhyngwladol, a bydd pob un yn wynebu risgiau, heriau a chredoau gwahanol. Bydd Asiantaethau DMiAU sydd eisiau cymryd rhan yn y cyfnod peilot wedi eu trwyddedu i ddechrau am gyfnod o ddwy flynedd o dan ein cynnig diwygiedig, tra bydd cyfyngiadau penodol eraill arnynt yn ystod y cyfnod peilot. Rydym yn bwriadu ymgynghori ymhellach ar y cynnig hwn, er enghraifft, mewn perthynas â'r nifer o wledydd y gall yr Asiantaeth DMiAU gael ei thrwyddedu i weithredu ynddynt. Mae'n bosib y bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu tynnu er mwyn galluogi i'r Asiantaethau DMiAU weithredu ar sail cynllun credadwy (gwelwch yr adran 'Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol'), ac rydym wedi awgrymu y gellir gwneud hyd cyfnod dilysrwydd y drwydded ryngwladol yn gyfatebol â'r drwydded ar gyfer y DU os bydd hynny'n briodol neu'n fanteisiol. Bydd yr ymgynghoriad pellach hefyd yn ystyried telerau'r drwydded ac unrhyw amodau ychwanegol a allai fod yn eu lle ar gyfer diogelu'r dysgwyr yn arbennig. Er y bydd cyfnodau peilot unigol yn digwydd ar gyfer Asiantaethau DMiAU, bydd cyfleoedd hefyd i wneud adolygiad ehangach fel bod modd ystyried profiad unigol a hefyd brofiad ar draws yr Asiantaethau DMiAU yn ystod y cyfnod peilot.

## Cydweithredu rhwng sefydliadau

384 Dywedodd un o'r ymatebwyr eto eu bod yn siomedig am eu bod yn creu bod y cynigion yn arwydd nad yw QAA yn ymddiried mewn Asiantaethau DMiAU i weithredu yn y farchnad ryngwladol, gan ailadrodd bod nifer o'r Asiantaethau DMiAU yn gweithredu'n 'hynod lwyddiannus' yn y farchnad ryngwladol ar gyfer cymwysterau'n barod. Roedden nhw'n pryderu nad oedd y cynigion yn creu argraff gadarnhaol neu gydweithredol. Nododd Asiantaeth DMiAU arall, er eu bod yn cydnabod y ffactorau masnachol a allai ei atal, y byddent yn awyddus i Asiantaethau DMiAU gydweithio â'i gilydd er mwyn "osgoi maglau a lledaenu model sy'n gweithio i osgoi unrhyw niwed i enwau da'r Asiantaethau DMiAU unigol, i'r cymhwyster ac i QAA".

**Ein hymateb**

385 QAA yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio a gofalu am y Diploma Mynediad i AU (gwelwch baragraff 170). Felly, mae gennym ddiddordeb annatod yn natblygiad a llwyddiant y cymhwyster. Ystyriwn fod cyflwyno'r Diploma MiAU Rhyngwladol yn elfen bwysig o dwf strategol Mynediad i AU a nodau elusennol QAA. Fodd bynnag, mae ein perthynas ddeuol gyda Mynediad i AU yn golygu na allwn weithredu fel y mae cyrff rheoleiddio eraill yn ei wneud, ac mae ein perthynas gyda'r Asiantaethau DMiAU a'r cymhwyster yn wahanol yn y cyswllt hwn. Mae QAA wedi ei hymrwymo i ddefnyddio dull sydd, yn fwy na dim arall, yn hybu ymddiriedaeth rhwng QAA a'i rhanddeiliaid, a hyder pobl yn y Diploma. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o, ac ymateb yn briodol i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymestyn y Diploma Mynediad i AU i farchnadoedd rhyngwladol ar gyfer QAA a'r Asiantaethau DMiAU (gwelwch baragraff 323) hyd yn oed pan fydd gan sefydliad brofiad blaenorol o weithredu yn y farchnad honno. Er ein bod yn gallu mabwysiadu dull cefnogol, mae ein swyddogaeth reoleiddio'n golygu na allwn flaenoriaethu cydweithio'n benodol dros ystyriaethau eraill. Fodd bynnag, nid yw ein gofynion yn atal Asiantaethau DMiAU rhag cydweithio os dymunant wneud hynny.

## Y berthynas rhwng trwyddedau ar gyfer y DU a thrwyddedau rhyngwladol

386 Roedd y berthynas rhwng trwyddedau ar gyfer y DU a thrwyddedau rhyngwladol yn thema oedd yn ailadrodd, a gofynnodd pedair o'r Asiantaethau DMiAU a ymatebodd am eglurhad. Awgrymwyd unwaith eto y dylai'r drwydded ryngwladol fod yn rhan o'r drwydded gyfredol (ar gyfer y DU), gan nodi ei bod yn ymddangos yn y cynigion am gael proses ar gyfer sicrhau trwydded ar gyfer y cyfnod peilot, ac yna ofyniad i wneud cais am drwydded cyfnod penodol. Nid oedd yr Asiantaeth DMiAU yn meddwl bod hyn yn cefnogi nod QAA i leihau'r baich rheoleiddiol. Holodd un arall o'r ymatebwyr a yw'r drwydded ryngwladol a'r drwydded ar gyfer y DU yn dibynnu ar ei gilydd. Eu dadl hwy oedd y byddai cyd-ddibyniaeth yn gostwng y tebygolrwydd y byddai Asiantaethau DMiAU yn symud ymlaen gyda thrwydded ryngwladol oherwydd byddai angen gwneud buddsoddiad sylweddol o flaen llaw, yn enwedig yn ystod dwy flynedd gyntaf cyfnod dilysrwydd y drwydded.

**Ein hymateb**

387 Fel sydd wedi ei nodi o baragraff 76 ymlaen, dyfernir y drwydded ryngwladol ar wahân, a bydd yn rhaid i Asiantaeth DMiAU gael trwydded ar gyfer y DU er mwyn gwneud cais am drwydded ryngwladol. Yn debyg i drwyddedau ar gyfer y DU, bydd y trwyddedau rhyngwladol yn rhai cyfnod penodol o hyd at bum mlynedd (ar ôl cwblhau'r cyfnod peilot). Ni fydd unrhyw ofyniad i drwyddedau ar gyfer y DU a thrwyddedau rhyngwladol redeg yn gyfamserol â'i gilydd, y tu hwnt i'r gofyniad am gael y drwydded ar gyfer y DU fel rhagflaenydd i drwydded ryngwladol, ond os byddwn yn ei ystyried yn gymesur, gellir ymestyn hyn yn ôl yr achos unigol er mwyn ei wneud yn gyfatebol â'r drwydded ar gyfer y DU. Nid ydym yn cytuno y byddai trwydded ar gyfer y DU sydd ag amodau ychwanegol yn ddigonol i reoli gweithrediad rhyngwladol oherwydd byddai hyn yn achosi llai o ddiogelwch lle mae'r ystod o risgiau a'r siawns o risg yn uwch (gwelwch baragraff 325). Rydym yn cydnabod y bydd y broses o wneud cais am drwydded ychwanegol yn achosi rhywfaint o faich ychwanegol yn naturiol. Lle'r Asiantaeth DMiAU yw ystyried a phenderfynu a yw trwydded i weithredu mewn gwledydd y tu allan i'r DU yn addas ar gyfer ei gweithredoedd hi.

## Yr amserlen

388 Roedd gan yr ymatebwyr farnau amgen a oedd ychydig yn wrthgyferbyniol am amserlen y cyfnod peilot a chyflwyniad y trwyddedau rhyngwladol. Dywedodd un o'r Asiantaethau DMiAU y byddai'r disgwyliad i gynllun peilot y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol gychwyn ym mlwyddyn academaidd 2025-26 yn gofyn i Asiantaethau DMiAU sefydlu cymwysterau, prosesau a phartneriaethau newydd yn gyflym o fewn cyfnod o bedwar mis, ochr yn ochr â'r broses drwyddedu ar gyfer y DU. Aethant ymlaen i nodi y byddai 'amserlenni mwy realistig' a chymorth ychwanegol gan QAA yn hanfodol i sicrhau trosglwyddiad esmwyth a gweithrediad llwyddiannus

y newidiadau arfaethedig. Gofynnodd Asiantaeth DMiAU arall am ohirio dechrau'r cyfnod peilot am 12 mis, gan ddadlau bod yr amseriadau'n 'rhy uchelgeisiol' ac y bydd gweithrediad unrhyw newidiadau'n cyflwyno baich rheoleiddiol ychwanegol yn ystod cyfnod o newid sy'n dod â newidiadau sylweddol yn barod. Nododd un o'r Asiantaethau DMiAU, fodd bynnag, eu bod yn "awyddus ac yn teimlo'n barod i helpu i gefnogi unrhyw gynllun peilot gynted ag y bydd QAA yn teimlo ei bod yn barod i roi cynnig ar yr elfen ryngwladol". Roedden nhw'n nodi bod ganddynt ganolfannau tramor yn barod sydd â phrosesau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd ac sy'n gweithio'n barod gyda nifer o brifysgolion yn y DU ar sail trefniadau addysg drawswladol. Mynegodd un o'r Asiantaethau DMiAU ei phryder am hyd yr amser sydd wedi pasio ers i Asiantaethau DMiAU gyfrannu'n ariannol at waith QAA ar ddatblygu trwydded ryngwladol a beth sydd wedi ei gyflawni gyda'r arian hwnnw.

**Ein hymateb**

389 Fel y nodwyd ym mharagraff 337, mae QAA wedi ei hymrwymo i gefnogi lansiad y Diploma MiAU Rhyngwladol ac mae'r cyllid gan Asiantaethau DMiAU wedi cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwn. Rydym yn ymwybodol iawn bod nifer o'r Asiantaethau DMiAU yn awyddus i ymestyn i mewn i farchnadoedd rhyngwladol gynted ag y bo modd, felly nid ydym yn teimlo ei bod hi'n briodol gohirio dechrau'r cyfnod peilot. Er hynny, rydym yn cydnabod yr heriau sy'n codi o'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Cynllun Cydnabod diwygiedig a'r pwysau y gallai ei roi ar Asiantaethau DMiAU wrth iddynt ymateb i hwn a hefyd i'r cyfle i gymryd rhan yn y cynllun peilot rhyngwladol. Fel yr amlinellwyd uchod (gwelwch baragraffau 9 i 11), bydd blwyddyn academaidd 2025-26 yn flwyddyn bontio lawn pan fyddwn yn gweithredu cynllun ail-drwyddedu treigl. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn darparu'r rhyddhad sydd ei angen i alluogi i Asiantaethau DMiAU reoli a dyrannu adnoddau'n effeithiol i'w galluogi i gymryd rhan yng nghynllun peilot y Diploma MiAU Rhyngwladol. Bydd amseriadau priodol a realistig ar gyfer darparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol wedi hynny'n cael eu hystyried ymhellach yn yr ymgynghoriad ag Asiantaethau DMiAU sydd ar y gweill.

## Casgliad a'r camau nesaf

390 Hoffem ddiolch i'r rhanddeiliaid i gyd a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn, naill ai drwy'r gweminar neu drwy gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad. Hoffem ddiolch arbennig i'r rhai a gymerodd yr amser i roi ymatebion manwl ac ystyriol i'r cwestiynau.

391 Ar sail ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu gwneud nifer o addasiadau i'r cynigion, yn cynnwys egluro ac ychwanegu at y geiriad yn yr Amodau. Mae pob addasiad wedi ei amlinellu'n fanylach yn ein hymatebion uchod ac mae'r newidiadau allweddol wedi eu crynhoi yn y Crynodeb Gweithredol ar frig y ddogfen hon.

392 Nawr bydd QAA yn symud ymlaen â'r newidiadau i'r Cynllun Cydnabod yn unol â'n dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y nodir uchod, gan gynnwys gwneud addasiadau dilynol i ddogfennau nad ymgynghorwyd arnynt. Yn dilyn ein prosesau, bydd Bwrdd QAA yn rhoi ystyriaeth i'r rhain ar gyfer eu cymeradwyo a'u gweithredu ym mis Mawrth 2025. Y bwriad yw cynnal ymgynghoriad pellach ar y Diploma MiAU Rhyngwladol yn fuan yn 2025.

393 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm Mynediad i AU drwy anfon e-bost at ahe@qaa.ac.uk yn y lle cyntaf.

# Atodiad A - Crynodeb o'r addasiadau i Amodau a Thelerau'r Drwydded

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i'r Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU (sef 'y Cytundeb Trwyddedu' gynt) a'r Amodau lle mae addasiadau arwyddocaol i'r geiriad. Gellir gweld manylion addasiadau bach neu addasiadau nad ydynt yn arwyddocaol yn yr adran berthnasol ym mhrif gorff y ddogfen.

| **Amod / Cyfeiriad** | **Y newid** |
|---|---|
| Y Telerau - teitl y ddogfen | Newidiwyd teitl y Cytundeb Trwyddedu i'r '*Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU*' (y 'Telerau'). Wedi ystyriaeth, penderfynwyd bod y teitl hwn yn gywirach fel cynrychioliad o ddiben y ddogfen sy'n nodi'r Telerau y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn cael a chadw ei Thrwydded. |
| Paragraff 12 y Telerau | Yn y frawddeg "Ni chaiff yr Asiantaeth DMiAU ei hun ddarparu Diplomâu Mynediad i AU na derbyn myfyrwyr Mynediad i AU" mae'r term 'derbyn myfyrwyr' wedi ei newid i'r canlynol er mwyn bod yn fwy eglur:<br><br>"Ni chaiff yr Asiantaeth DMiAU ei hun ddarparu Diplomâu Mynediad i AU na bod yn *ddarparwr addysg sy'n cynnig cyrsiau y gallai'r Diploma Mynediad i AU fodloni eu gofynion mynediad*." |
| A2.1: Swyddog Cyfrifol | Tynnu amseriadau penodol allan o'r Amod lle byddai'n fwy addas i'r rhain fod yn y canllawiau:<br><br>"Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn enwebu swyddog cyfrifol newydd, mae'n rhaid iddi roi gwybod i QAA yn unol â'r amserlenni adrodd *sydd wedi eu nodi mewn canllawiau.*" |
| A6.2: Y nodau masnach Mynediad i AU | Darparwyd mwy o fanylion:<br><br>"Mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU sicrhau ei bod yn defnyddio'r nodau cydymffurfiad a'r nodau masnach Mynediad i AU (y logo, y nod adnabod a'r nodau geiriau Mynediad i AU) yn unol â'r ddogfen reoleiddiol sy'n nodi'r gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU ar gyfer defnyddio'r nod cydymffurfiad a'r nodau masnach Mynediad i AU." |
| A7: Cofrestru myfyrwyr | Cynnwys gofynion gwahanol ar gyfer cofrestru myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru neu sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru:<br><br>"Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio ar unrhyw gwrs Mynediad i AU, beth bynnag fo dull eu hastudio, wedi eu cofrestru gydag Asiantaeth DMiAU ar gyfer Diploma a gydnabyddir gan QAA cyn pen chwe wythnos (42 diwrnod) ar ôl i'r myfyriwr gychwyn ar y cwrs Mynediad i AU, *neu wyth wythnos (56 diwrnod) mewn perthynas â myfyrwyr sy'n astudio gyda darparwr sydd wedi ei seilio yng Nghymru neu sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru*". |

| Amod / Cyfeiriad | Y newid |
|---|---|
| B5: Gwaith yr Asiantaeth DMiAU o fonitro ei chofnodion | Eglurhad am y gofyniad i adrodd:<br><br>"[Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am…] sicrhau y cedwir cronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU yn gyfoes yn unol â gofynion QAA, ac y gwneir unrhyw addasiadau angenrheidiol cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r newid *ddigwydd*, neu ar unwaith os bydd y newid yn ymwneud â thynnu cymeradwyaeth i un o'i darparwyr yn ei hôl". |
| C1.2: Gofyniad am gytundeb rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwr | Addasiad er mwyn cymryd y cyd-destun i ystyriaeth wrth roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am dderbyniadau:<br><br>"[Dylai'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n…] gofyn i'r darparwr farchnata cyrsiau Mynediad i AU cydnabyddedig mewn ffordd agored ac eglur - gan gynnwys (ond nid yn unig) darparu gwybodaeth am y gofynion mynediad a'r statws cyllido, *fel y bo'n briodol*"<br><br>Addasiad er mwyn egluro natur barhaus y gofyniad:<br><br>"[Dylai'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n…] disgrifio'r gofynion y mae'n rhaid i'r Darparwr gydymffurfio â nhw, *a pharhau i gydymffurfio â nhw,* er mwyn darparu cyrsiau Mynediad i AU"<br><br>Cynnwys gofynion i fod â threfniadau ar waith sy'n sicrhau bod modd rhoi gwybod yn briodol am bryderon ynglŷn â darparwyr, er mwyn rheoli risgiau:<br><br>"[Dylai'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n…] sefydlu polisi sancsiynau sydd i gael ei weithredu os bydd y darparwr yn methu cydymffurfio â'r gofynion hyn, *yn cynnwys bod â threfniadau yn eu lle a fyddai'n caniatáu i wybodaeth am unrhyw sancsiynau a orfodir gael ei rhannu gyda phartïon eraill*". |
| C2: Monitro darparwyr yn barhaus | Egluro'r geiriad:<br><br>"Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU allu dangos i QAA yn effeithiol sut mae'n gwneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â'r Amodau Mynediad i Addysg Uwch drwy ddefnyddio a gweithredu proses o gymeradwyo darparwyr *a gweithdrefnau monitro."*<br><br>Cynnwys y gofyniad i alluogi cyfathrebiad priodol am sancsiynau ar ddarparwyr:<br><br>*"Os bydd Asiantaeth DMiAU yn gorfodi sancsiwn yn unol â'r Amod uchod, mae'n rhaid iddi roi gwybod am hynny ar unwaith i unrhyw Asiantaeth DMiAU arall sy'n cynnig cyrsiau Mynediad i AU gyda'r darparwr hwnnw."* |
| D1.2: Hygyrchedd y ddarpariaeth Diplomâu Mynediad i AU | Addasiad i gydnabod cwmpas cyfrifoldebau'r Asiantaeth DMiAU mewn perthynas â hygyrchedd:<br><br>"Am eu bod yn gyrff dyfarnu, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys, strwythur a darpariaeth pob cwrs Diploma Mynediad i AU, *cyn belled ag y bo'n gyfrifol am ei ddarparu*, yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010." |

| **Amod / Cyfeiriad** | **Y newid** |
|---|---|
| D2.1: Cymeradwyo a dilysu Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU ar y cychwyn | Addasiad i hybu dealltwriaeth trwy wahaniaethu'n fwy eglur rhwng dilysu a chymeradwyo.<br><br>"Lle mae darparwr cymeradwy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i ddarparu cwrs Mynediad i AU sydd wedi ei seilio ar Ddiploma a ddatblygir gan Asiantaeth DMiAU, *mae'n rhaid i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer dilysu'r cwrs sicrhau bod y darparwr yn gallu darparu cwrs o'r fath yn unol â manylebau a gofynion y Diploma a ddilysir."* |
| D4: Trosglwyddo Diplomâu a chyrsiau | Esboniadau a chynnwys gofyniad i Asiantaeth DMiAU roi gwybod i'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyrwyr am unrhyw sancsiynau perthnasol sydd ar y darparwr, ar adeg trosglwyddo:<br><br>"Os bydd un o'r darparwyr eisiau symud ei ddarpariaeth Mynediad i AU o un Asiantaeth DMiAU i un arall, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod *y darparwr* yn gwneud trefniadau i dynnu ei ddarpariaeth yn ei hôl oddi wrth yr Asiantaeth DMiAU bresennol a mynd drwy broses yr Asiantaeth DMiAU newydd o gymeradwyo a dilysu darparwyr."<br><br>*"Ar adeg trosglwyddo cwrs, os bydd Asiantaeth DMiAU wedi gorfodi sancsiwn ar Ddarparwr yn unol ag Amod C2, mae'n rhaid iddi roi gwybod am y sancsiwn hwnnw i'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y cwrs."* |
| E1: Gweithredu trefniadau safoni a sicrhau cydraddoldeb | Cynhwyswyd gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau safoni ar gais QAA:<br><br>*"Dylai'r Asiantaeth DMiAU wneud pob ymdrech resymol i gymryd rhan, a sicrhau bod ei darparwyr yn cael cyfle i gymryd rhan lle bo'n berthnasol, mewn gweithgareddau y mae QAA yn gofyn iddynt eu gwneud sy'n weithgareddau sydd â'r nod o hyrwyddo safonau'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd ddilys, ddibynadwy a chyson."* |
| E4: Safoni (E4.5 - Adroddiadau safonwyr) | Addasiad i adlewyrchu'r gofyniad cyffredinol yn yr amod, gyda manylion yr ymddygiad a ddisgwylir, i'w gynnwys yn y canllawiau:<br><br>"Dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau *bod ganddi* brosesau i ymateb yn brydlon i bob adroddiad safonwr unigol *a'i bod yn gweithredu'r prosesau hynny*." |
| F1: Cydnabod cymwysterau (F1.2 - Ardystio) | Addasiad i gynnwys cyfeiriad at ddarpariaethau'r Cynllun Graddio er mwyn ystyried dyfarnu graddau aegrotat a graddau ar ôl marwolaeth:<br><br>"Dylai pob Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr ei bod yn cyflwyno tystysgrif Diploma Mynediad i AU i bob myfyriwr sydd wedi ennill y Diploma Mynediad i AU fel y'i cymeradwywyd gan *ei bwrdd dyfarnu terfynol ac yn unol â'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch*." |

Cyhoeddwyd ar 29 Mai 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)